

RHIF Y DDOGFEN YMCHWIL GYMDEITHASOL:
09/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
05/03/2019

Astudiaeth Ymchwil ar Ba Mor Ddeniadol yw Gyrfa Addysgu, a Chadw Athrawon

Terfynol

Astudiaeth Ymchwil ar Ba Mor Ddeniadol yw Gyrfa Addysgu a Chadw Athrawon

Awduron: Beaufort Research, NFER

Adroddiad Ymchwil Llawn: Beaufort Research, NFER (2019). *Astudiaeth Ymchwil ar Ba Mor Ddeniadol yw Gyrfa Addysgu a Chadw Athrawon*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 09/2019.

Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/research-study-attractiveness-teaching-retention-teachers/?lang=cy>

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil Ysgolion

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

0300 025 0377

Drwy e-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

Tabl cynnwys

1. Cefndir	6
Yr agenda ddiwygio	6
Materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru	6
Llwybrau i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru	7
Diwygio addysg athrawon.....	8
Rhesymeg ymchwil.....	10
Nodau ac amcanion yr ymchwil	10
2. Methodoleg.....	13
Trosolwg.....	13
Adolygiadau o ddata a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes.....	14
Prif ddull ymchwil a'r sampl	15
3. Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol	18
4. Crynodeb o'r prif faterion sy'n codi o ran recriwtio a chadw athrawon o'r adolygiadau o ddata a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes.....	22
5. Pa mor ddeniadol yw addysgu fel gyrfa	23
Ffactorau sy'n cymhell unigolion i addysgu	23
Canfyddiadau o addysgu fel gyrfa ymhlith disgyblion Safon Uwch a myfyrwyr israddedig.....	36
Sut y caiff addysgu ei weld fel proffesiwn yn gyffredinol.....	47
Canolfannau AGA: denu myfyrwyr a'r heriau a wynebir	49
Ysgolion: heriau wrth lenwi rolau penodol	56
Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer gwneud addysgu'n fwy deniadol	57
6. Cadw athrawon a'r hyn a all wneud i athrawon adael y proffesiwn	61
Ffactorau oedd yn cefnogi ymrwymiad i addysgu.....	61
Profiadau o'r Gymraeg ymhlith myfyrwyr AGA	70
Cadw athrawon a'r cwricwlwm newydd i Gymru	73
Ffactorau a all beri ansicrwydd ynghylch parhau i addysgu	74
Ceisio cymorth wrth ystyried gadael y proffesiwn	92
Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer gwella cyfraddau cadw athrawon.....	95
7. Casgliadau.....	105
Materion allweddol eraill a danlinellwyd yn yr ymchwil	108
Casgliadau cyffredinol	111
8. Goblygiadau ymchwil.....	112

Themâu polisi allweddol	112
Goblygiadau i Lywodraeth Cymru.....	112
Goblygiadau i ddarparwyr AGA	114
Goblygiadau i Awdurdodau Lleol / Consortia Addysg Rhanbarthol	114
Goblygiadau i ysgolion	114
Cyfeiriadau.....	115
Atodiad A – Manylion sampl yr ymchwil sylfaenol.....	117

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Rhesymau dros ddewis dechrau addysgu - lle cafwyd dewis (Canran a nododd pob ymateb)	35
Ffigur 2: Pa ffactorau sy'n eich cadw chi ym maes addysgu? - lle rhoddwyd dewis (Y ganran a roddodd pob ymateb)	69
Ffigur 3: Rhesymau dros adael addysgu - lle cafwyd dewis (Canran a nododd pob ymateb)	95
Ffigur 4: Beth fyddai'n gwella / wedi gwella eich profiad fel athro? - lle rhoddwyd dewis (Y ganran a roddodd pob ymateb)	103

Rhestr o dablau

Tabl 6.1: Math o gontract addysgu ar gyfer ymatebwyr a wnaeth gymhwyso yn y ddwy flynedd ddiwethaf	91
Tabl 6.2: Math o gontract addysgu ar gyfer ymatebwyr sydd wedi gadael y maes addysgu	92

Cydnabyddiaethau

Hoffai Beaufort ac SCYA ddiolch i'r holl sefydliadau ac unigolion a gytunodd i gymryd rhan ac a oedd mor hawddgar. Yn eu plith roedd:

- Staff ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a disgyblion ysgolion uwchradd;
- Prifysgolion oedd yn helpu i drefnu grwpiau ffocws, staff Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), myfyrwyr AGA a'r myfyrwyr israddedig a gymerodd ran;
- Rhanddeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau gwahanol;
- Y rheini sydd wedi gadael y proffesiwn addysgu.

Rhestr termau

Byrfodd/Gair allweddol	Diffiniad
AGA	Roedd Addysg Gychwynnol i Athrawon yn cael ei darparu gan dair Canolfan AGA yng Nghymru pan gomisiynwyd yr ymchwil hon. Mae Canolfannau AGA yn darparu rhaglenni sy'n cynnwys treulio amser yn astudio ac amser yn yr ysgol ar gyfer myfyrwyr AGA sy'n astudio ar gyfer eu TAR (gweler isod). Rhoddir rhagor o wybodaeth am ddiwygio AGA ar wefan CGA:
CGA	Cyngor y Gweithlu Addysg: rheoleiddiwr annibynnol Cymru ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir, athrawon Addysg Bellach a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, yn ogystal â gweithwyr ieuenctid a phobl sydd ynghlwm wrth ddysgu seiliedig ar waith.
Consortia Addysg Rhanbarthol	Mae'r pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion i godi safonau ym maes llythrennedd a rhifedd, gan ddarparu amrywiaeth o gymorth sy'n cynnwys rhaglenni ymyrraeth a datblygu proffesiynol.
CPA	Amser a neilltuir i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu
CPCP	Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth
Darganfod Addysgu	Menter genedlaethol sydd â'r nod o recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru, a lansiwyd ym mis Mawrth 2017. Fe'i cynhelir ac fe'i cefnogir ar y cyd gan y pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol a phartneriaid (Gyrfa Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon a Tinint).
Darparwyr CEAG	Darparwyr Gyrfaedd, Addysg, Cyngor, ac Arweiniad
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
GDPR	Mae GDPR yn rhan o gyfundrefn diogelu data'r DU, ynghyd â Deddf Diogelu Data newydd 2018 (Deddf 2018). Fel GDPR, roedd prif ddarpariaethau'r Ddeddf hon yn gymwys o 25 Mai 2018.

Fforwm Arbenigol Addysg Gychwynnol i Athrawon	Fel rhan o ddatblygu polisi diwygio AGA bu grŵp arbenigol, Fforwm Arbenigol AGA, yn gyfrifol am arddel barn arbenigol ar ddatblygiadau, gan gynnwys y rhai sy'n targedu recriwtio i AGA. Gan fod Diwygiadau AGA yn mynd rhagddynt erbyn hyn mae'r Fforwm wedi dod i ben.
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	Mynegai a gynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bach o Gymru sydd fwyaf difreintiedig. Cafodd y Mynegai mwyaf diweddar ei gyhoeddi yn 2014. Fodd bynnag, caiff rhai dangosyddion a ddefnyddir yn y Mynegai eu diweddarau rhwng diwygio'r Mynegai yn llawn.
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
Pynciau STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg
Rhaglen Athrawon Graddedig / RhAG	Mae'r Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) yn llwybr seiliedig ar gyflogaeth i addysgu yng Nghymru. Caiff rhaglenni eu gweinyddu gan Ganolfannau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA). Mae Canolfannau AGA yn gweithio gyda Chonsortia Addysg Rhanbarthol i ddefnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth ranbarthol i nodi'r anghenion recriwtio a'r meysydd recriwtio â blaenoriaeth yn eu rhanbarthau er mwyn nodi pa gymwysiadau i'w cefnogi o dan y RhAG.
SAC	Statws Athro Cymwysedig: cymhwyster proffesiynol a ddyfernir pan all unigolyn brofi ei fod yn cyrraedd holl Safonau ac yn bodloni holl feini prawf Athrawon, er enghraifft ei fod wedi cwblhau TAR
Sefydlu ANG	Athro Newydd Gymhwyso: athro sydd newydd gael Statws Athro Cymwysedig (SAC, gweler isod) ac sydd nawr yn dilyn rhaglen sefydlu sy'n ei alluogi i gael ei gyflogi'n gyfreithlon fel athro mewn ysgol a gynhelir.
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion

TRRAB	Bwrdd Cyngtori Recriwtio a Chadw Athrawon: Diben y Bwrdd yw ystyried materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw athrawon er mwyn cefnogi gweithlu addysg o ansawdd sy'n egnïol, yn ymroddedig ac wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i bawb, ac sydd hefyd yn gallu bodloni gofynion diwygio'r cwricwlwm ac addysg yn ehangach.
UCAS	Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau
UDA	Uwch Dîm Arwain mewn ysgol
Ymgynghorwyr her	Gwasanaeth a ddarperir gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol. Mae cynghorwyr yn monitro, yn herio ac yn cynorthwyo timau arwain ysgolion i wella perfformiad.

1. Cefndir

Yr agenda ddiwygio

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhaglen uchelgeisiol ar waith i ddiwygio system addysg y wlad. Cydnabu fod y daith ddiwygio 'sy'n canolbwyntio ar godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, yn cael ei hatgyfnerthu ymhellach gan welliannau i gymorth i fyfyrwyr a'r system addysg ôl-orfodol' (Llywodraeth Cymru, 2017, t.6). Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* yn nodi sut y bydd y system ysgolion yn symud ymlaen i sicrhau bod cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ansawdd athrawon, am na all y cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno heb broffesiwn addysgu dyheadol, a gefnogir yn dda. Mae'n cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer proffesiwn atyniadol gyda morâl uchel a llawer o foddhad proffesiynol.
- 1.2 Mae'r diwygiadau i gwricwlwm Cymru a'r trefniadau asesu yn cyd-fynd â thargedau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, a amlinellir yn *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae'r strategaeth hon yn rhagweld rôl allweddol i ysgolion wrth gyflawni ei tharged. Er mwyn i hyn ddigwydd, bydd angen cynyddu nifer yr athrawon a all addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru

- 1.3 Mae gan Lywodraeth Cymru ddata meintiol ar nifer y myfyrwyr AGA, nifer y swyddi addysgu gwag mewn ysgolion a nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn. Dengys y data i 814 o athrawon adael y proffesiwn yn 2016. Er bod y ffigurau yn dangos bod nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn wedi lleihau'n gyffredinol ers 2007, bu cynnydd yn nifer yr athrawon sy'n gadael ers 2012. Heblaw am ymddeol, mae athrawon â llai na phum mlynedd o brofiad yn fwy tebygol o adael.
- 1.4 Yn 2017 cyhoeddodd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ganlyniadau dadansoddiad o ddata o'i gofrestr o ymarferwyr addysg. Edrychwyd ar amrywiaeth o faterion yn cynnwys recriwtio athrawon newydd a phenaethiaid, ynghyd â'u cadw. Daeth i'r casgliad canlynol: 'Cafodd y data unigryw hwn ei goladu o gofrestr ymarferwyr addysg CGA, ac er nad yw'n dangos bod argyfwng recriwtio a chadw yng Nghymru,

mae yna le i beri gofid mewn pedwar maes: athrawon newydd, penaethiaid, athrawon cyfrwng Cymraeg ac athrawon pynciau STEM'. (Datganiad CGA, 19 Mai 2017).

- 1.5 Nododd ymchwil CGA fod mwy nag 80 y cant o'r athrawon newydd yng Nghymru yn cael eu cyflogi ar gontractau cyfnod penodol neu fel athrawon cyflenwi. Hefyd, cyfeiriodd at amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio, gan gynnwys canfyddiadau o'r rôl a'r llwyth gwaith, effaith cymhellion ariannol, y gofynion mynediad a nifer yr athrawon sy'n gweithio y tu allan i Gymru (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio y tu allan i'r DU). Nododd fod rhai o'r materion a nodwyd hefyd i'w gweld mewn gwledydd eraill.
- 1.6 Pwysleisiodd CGA yr angen i ystyried ffactorau yn cynnwys:
- Newidiadau demograffig yn niferoedd disgyblion;
 - Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau maint dosbarthiadau babanod;
 - Effaith bosibl datganoli cyflog ac amodau athrawon ar recriwtio a chadw;
 - Effaith dyhead Llywodraeth Cymru i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar y gweithlu addysg;
 - Y cyfleoedd a gynigir gan weithlu newidiol a chofrestru proffesiynol;
 - Diwygio'r cwricwlwm.

Llwybrau i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru

- 1.7 Pan gynhaliwyd y prosiect hwn, gellid ennill statws athro cymwysedig (SAC) mewn un o ddwy ffordd:
- Cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) mewn un o dair canolfan gydweithredol (y canolbarth a'r gogledd, y de-orllewin a'r de-ddwyrain) naill ai drwy lwybr israddedig yn arwain at SAC neu drwy gwrs yn arwain at Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) gyda SAC;
 - Llwybrau seiliedig ar gyflogaeth - y Rhaglen Athrawon Graddedig, y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (Teach First) a'r Rhaglen Athrawon Cofrestredig (nad yw ar waith ar hyn o bryd).

- 1.8 Mae'r Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon yn cynnig cymhellion ariannol i ddenu'r rheini â sgiliau penodol gan gynnwys:
- Athrawon mewn ardaloedd lle mae prinder;
 - Athrawon pynciau lle mae prinder ymgeiswyr a all addysgu'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg;
 - Athrawon a all addysgu Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith.¹

Diwygio addysg athrawon

- 1.9 Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r angen i ddiwygio strwythur addysg gychwynnol ac addysg barhaus i athrawon. Yn adroddiad yr Athro John Furlong *Addysgu Athrawon Yfory* (Llywodraeth Cymru, 2015) cynigiwyd opsiynau i Lywodraeth Cymru o ran dyfodol darparu hyfforddiant athrawon. Cafodd adroddiad Furlong ei gyhoeddi yn dilyn adolygiad blaenorol gan Ralph Tabberer ac argymhellion gan Robert Hill a oedd yn gynnwys:
- Sut i ymdrin â phryderon ynghylch ansawdd yr hyn oedd yn cael ei gynnig;
 - Sut i sicrhau bod y proffesiwn yn gallu ymateb i'r newidiadau i natur addysgu a'i nodau, yn arbennig pwysigrwydd sgiliau.
- 1.10 Ochr yn ochr â'r trafodaethau hyn, ceir dau fater cysylltiedig y mae angen eu hystyried:
- Rôl DPP, sut y gall helpu i godi safonau a sut y gellir ei atgyfnerthu;
 - Anghenion datblygu proffesiynol y gweithlu addysg ehangach, gan gynnwys Cynorthwywyr Addysgu.
- 1.11 Er mwyn datblygu'r gwaith o ddiwygio addysg athrawon yng Nghymru, sefydlodd Llywodraeth Cymru Fforwm Arbenigol Addysg Gychwynnol i Athrawon er mwyn goruchwyllo'r diwygiadau i AGA. Rhan o'i waith oedd monitro'r broses o recriwtio i AGA a chadw athrawon. Yn y dyfodol, caiff y gwaith hwn ei wneud gan Fwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon (TRRAB). Mae meysydd cyfrifoldeb eang y Bwrdd â chynllunio'r gweithlu a sicrhau bod gan Gymru weithlu addysg o ansawdd sy'n 'egniol, yn ymroddedig ac wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i

¹ [Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2017](#)

bawb, ac sydd hefyd yn gallu diwallu gofynion diwygio'r cwricwlwm ac addysg yn ehangach' (Llywodraeth Cymru, 2018)².

1.12 Mewn ymateb i adolygiad yr Athro John Furlong o addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2015), mae darpariaeth AGA wedi'i hailstrwythuro. O fis Medi 2019 bydd holl ddarpariaeth AGA wedi'i hachredu gan CGA. Bydd ei ddyletswyddau mewn perthynas ag AGA yn cynnwys:

- Gweinyddu'r broses o ddyfarnu SAC;
- Gweinyddu trefniadau cyllido, tracio a chofnodi'r rhaglen sefydlu, y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, a Datblygiad Proffesiynol Cynnar;
- Datblygu a chynnal y Pasbort Dysgu Proffesiynol;
- Gwrando apeliadau sefydlu a chyflwyno tystysgrifau sefydlu;
- Achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon.

1.13 Gwnaeth Bwrdd Achredu AGA CGA wahodd cynigion yn ymwneud â darparu rhaglenni AGA sydd wedi arwain at bartneriaethau ledled Cymru fel yr amlinellir yn y tabl isod.

Darparwr	Israddedig cynradd	Ôl-raddedig cynradd	Ôl-raddedig uwchradd
CaBan - Partneriaeth Caer / Bangor yn y gogledd	√	√	√
Partneriaeth Caerdydd	√	√	√
Yr Athrofa: Partneriaeth Dysgu Proffesiynol	√	√	√
Partneriaeth AGA Aberystwyth		√	√

1.14 Fodd bynnag, ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd strwythur newydd y ddarpariaeth wrthi'n cael ei sefydlu. Mae'r ymchwiliad hon yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd ar adeg pan oedd AGA yn cael ei darparu drwy'r tair Canolfan AGA ganlynol:

- Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru, wedi'i darparu gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth;

²[Cyfarfod cyntaf Bwrdd Cyngori Recrwtio a Chadw Athrawon](#)

- Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru, wedi'i darparu gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Abertawe a Chaerfyrddin;
- Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon De-ddwyrain Cymru, wedi'i darparu gan Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Rhesymeg ymchwil

- 1.15 Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y system addysg a hyfforddiant, sydd wedi'i modelu ar arferion systemau rhyngwladol llwyddiannus, wedi'u teilwra i gyd-destun Cymru. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd angen sicrhau bod cronfa gref o newydd-ddyfodiaid o safon yn cael eu denu i'r proffesiwn ac yn aros ynddo, ac yn datblygu i fod yn arweinwyr yn y system.
- 1.16 Mae'r targedau a amlinellir yn *Cymraeg 2050* yn creu dimensiwn pellach o ran recriwtio a chadw athrawon. Bydd yn creu galw am athrawon sydd eisoes yn meddu ar sgiliau i addysgu Cymraeg ym mhob lleoliad ac addysgu pynciau eraill mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i bobl ddatblygu neu gyfuno'r sgiliau hynny.
- 1.17 Mae gallu diwygio'r system addysg mewn ffordd effeithiol yn dibynnu ar broffesiwn addysgu dyheadol sydd wedi'i gefnogi'n dda. Mae'n hanfodol bod Cymru yn cadw ei hathrawon ac yn annog y rhai a all wneud gwahaniaeth i ddisgyblion i ddewis gyrfa ym maes addysgu.

Nodau ac amcanion yr ymchwil

- 1.18 Prif nodau'r ymchwil oedd archwilio'r canlynol:
 - Pa ffactorau sy'n annog unigolion i ddilyn gyrfa addysgu yng Nghymru;
 - Pa ffactorau sy'n annog unigolion i beidio â dilyn gyrfa addysgu yng Nghymru;
 - Pa ffactorau sy'n cyfrannu at sicrhau bod athrawon yng Nghymru yn aros yn y proffesiwn;
 - Pa ffactorau sy'n cyfrannu at weld athrawon yng Nghymru yn gadael y proffesiwn.

1.19 Canolbwyntiodd yr amcanion ar y canlynol:

- **Beth sy'n denu pobl i'r byd addysgu:** y ffactorau sy'n annog unigolion i ddilyn gyrfa addysgu; canfyddiadau cadarnhaol a negyddol pobl ifanc o addysgu fel gyrfa; eu dealltwriaeth o lwybrau i addysgu a chynghor; y wybodaeth mae pobl ifanc yn ei chael am lwybrau i addysgu; a beth mae darparwyr AGA yn ei wneud i ddenu'r ymgeiswyr gorau;
- **Cadw:** y ffactorau sy'n helpu unigolion i gwblhau'r rhaglen sefydlu ANG yn llwyddiannus; y ffactorau sy'n helpu unigolion i ymgysylltu ac ymrwymo; a'r ffactorau a all wneud i unigolion ystyried gadael, neu adael, y proffesiwn;
- **Y Gymraeg:** beth mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn ei feddwl am addysgu fel gyrfa; barn siaradwyr Cymraeg ifanc am sut mae eu sgiliau ieithyddol yn berthnasol i yrfa addysgu; a sut mae pobl ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl efallai, neu ddim yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ystyried y posibilrwydd o allu defnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn gyrfa addysgu;
- Nodi **goblygiadau** canfyddiadau'r ymchwil.

1.20 Cyflwynwyd meysydd cwestiynau manylach gan Lywodraeth Cymru o dan bob un o'r prif amcanion hyn. Cafodd y meysydd hyn, a thrafodaeth bellach â Llywodraeth Cymru, eu defnyddio i lunio canllawiau pwnc a oedd yn cwmpasu'r prif feysydd amcanion.

1.21 Mae'r adroddiad hwn yn ymgorffori canfyddiadau'r brif ymchwil gyda chyfranogwyr yn ogystal â thystiolaeth gyd-destunol o lenyddiaeth sy'n bodoli eisoes ar ba mor ddeniadol yw addysgu a chadw athrawon. Caiff rôl y Gymraeg ei hystyried hefyd yn y penodau, gan gynnwys canfyddiadau athrawon cymwysedig a phobl ifanc o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gyrfa addysgu; a phrofiadau a chanfyddiadau myfyrwyr AGA o gymorth gyda'r Gymraeg³.

1.22 Rhydd Pennod 2 fanylion y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyflawni nodau'r ymchwil ac mae'n sôn am y ffordd y cynhaliwyd yr adolygiad o lenyddiaeth a'r prif gam ansoddol. Mae hefyd yn cyfeirio at arolwg ar-lein ymhlith athrawon a ddefnyddiwyd i helpu i ddod o hyd i'r rheini a oedd wedi gadael neu a oedd yn ystyried gadael y proffesiwn o ddifrif, yn ogystal â darparu data meintiol cyfyngedig ar y prif bynciau.

³ [Ceir gwerthusiad manwl o ddarpariaeth Gymraeg AGA yn yr adroddiad canlynol](#)

- 1.23 Rhydd Pennod 3 grynodeb lefel uchel o brif ganfyddiadau'r ymchwil: pa ffactorau sy'n denu pobl i addysgu; pa ffactorau sy'n cadw athrawon yn addysgu; pa ffactorau a all beri ansicrwydd ynghylch parhau i addysgu; a'r Gymraeg a gyrfa addysgu.
- 1.24 Rhydd Pennod 4 drosolwg byr o'r pwyntiau allweddol o'r adolygiadau o ddata a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes. Caiff cynnwys manylach ar yr adolygiadau ei gynnwys yn yr adrannau perthnasol eraill o'r adroddiad.
- 1.25 Mae Pennod 5 yn archwilio pa mor ddeniadol yw addysgu fel gyrfa gan gynnwys: beth sy'n cymell unigolion i addysgu; manteision ac anfanteision canfyddedig addysgu ymhlith disgyblion ysgol a myfyrwyr israddedig; canfyddiadau o statws addysgu fel proffesiwn; safbwynt staff Canolfannau AGA o ran denu ymgeiswyr a'r heriau y gall Canolfannau eu hwynebu; a'r heriau y gall ysgolion eu hwynebu wrth recriwtio.
- 1.26 Mae Pennod 6 yn canolbwyntio ar thema cadw athrawon o safbwynt athrawon cymwysedig, y rhai sy'n hyfforddi i addysgu a rhanddeiliaid. Ystyria'r ffactorau sy'n cefnogi ymrwymiad i barhau i addysgu, yn ogystal â'r ffactorau y credir eu bod yn achosi ansicrwydd ynghylch aros yn y proffesiwn. Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys barn athrawon a benderfynodd adael y proffesiwn.
- 1.27 Mae Pennod 7 yn cynnwys casgliadau awduron yr adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil. Yn olaf, mae Pennod 8 yn crynhoi goblygiadau'r ymchwil, i'w hystyried.

2. Methodoleg

Trosolwg

- 2.1 Dull ansoddol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil yn bennaf, wedi'i gefnogi gan adolygiad o lenyddiaeth a fodolai eisoes. Hefyd, cynhaliwyd arolwg meintiol ar-lein ymhlith athrawon.
- 2.2 Ymchwil ansoddol a ddewiswyd fel y prif ddull ymchwil am ei bod yn ffordd effeithiol o archwilio'r amcanion yn fanylach ar draws ystod eang o gyfranogwyr a phynciau nag a fyddai'n bosibl fel arall. Hefyd, ychydig iawn o ymchwil ansoddol sylfaenol a geir yng Nghymru ar hyn o bryd ar y pynciau hyn o ran yr hyn sy'n cymhell pobl sydd am addysgu, beth sy'n eu cadw i addysgu, a beth a allai wneud iddynt ystyried gadael. Yn fwy penodol, roedd manteision y dull hwn yn cynnwys y gallu i dreiddio ymhellach i sylwadau cyfranogwyr a chael gafael ar enghreifftiau er mwyn dangos y pwyntiau oedd yn cael eu gwneud ar faterion cymhleth. Gall cyfranogwyr hefyd godi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Ni fyddai dull meintiol yn unig wedi darparu'r fath gyfoethogrwydd ac enghreifftiau ag a welir yn yr adroddiad hwn.
- 2.3 Mae anfanteision posibl dull ansoddol yn canolbwyntio ar y ffaith ei bod yn anos dod i gasgliadau pendant, am ei bod yn sampl llai o faint nag y gellid ei chyflawni mewn ffordd feintiol. Ni fwriedir i ymchwil ansoddol fod yn ystadegol gynrychioliadol. Ei nod yw meithrin dealltwriaeth fanwl, sydd ei hangen er mwyn archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymwneud pobl ag addysgu. Mae ei chryfderau â'r gallu i nodi themâu ar draws grwpiau a phrofiadau amrywiol, pa mor gyffredin yw materion penodol a chysondeb â themâu sy'n gysylltiedig â'r pwnc amrywiol hwn. Lle darperir rhestrau o bwyntiau a wnaed gan gyfranogwyr, maent wedi'u cyflwyno yn nhrefn yr wyddor oni nodir fel arall, gan ddynodi nad oedd y pwyntiau'n themâu dominyddol. Defnyddir testun bras yn yr adroddiad i nodi themâu a newid pwnc.
- 2.4 Caiff sylwadau air am air dienw cyfranogwyr eu cynnwys drwy gydol yr adroddiad hwn. Ni ddylai'r sylwadau hyn gael eu hystyried yn rhai sy'n diffinio barn pawb. Yn lle hynny, maent yn cynnig cipolwg ar safbwyntiau unigol ar y pwyntiau a nodwyd. Mae pob sylw yn priodoli'r math o gyfranogwr.
- 2.5 Lle bydd mwy nag un cyfranogwr wedi cyfrannu at sylw air am air, defnyddir 'C1' a 'C2' er enghraifft.

Adolygiadau o ddata a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes

Rhoi'r mater yn ei gyd-destun

- 2.6 Ar ddechrau'r prosiect cynhaliodd y tîm ymchwil adolygiad o lenyddiaeth berthnasol, ac iddo bwyslais penodol. Y nod oedd rhoi'r broses casglu data yn ei chyd-destun a nodi'r prif faterion o ran recriwtio a chadw athrawon, nodi patrymau a thueddiadau allweddol, ac ystyried y math o strategaethau sydd wedi bod yn effeithiol wrth ddenu newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn a chadw athrawon.
- 2.7 Aeth Llyfrgell SCYA ati i chwilio drwy gyhoeddiadau perthnasol ar ffyrdd effeithiol o ddenu a chadw athrawon. O ganlyniad, bu modd i dîm y prosiect adolygu 15 o gyhoeddiadau yn seiliedig ar ddetholiad penodol o adolygiadau ac adroddiadau allweddol er mwyn archwilio prif ganfyddiadau adolygiadau o lenyddiaeth sy'n bodoli eisoes wedi'i ategu gan ganfyddiadau astudiaethau diweddar oedd yn berthnasol i gyd-destun Cymru.

Y sail dystiolaeth

- 2.8 Nodwyd cyfanswm o 37 o eitemau wrth chwilio drwy'r llenyddiaeth.⁴ Ni wnaeth y llenyddiaeth a archwiliwyd i ddechrau ddarparu tystiolaeth fanwl o effeithiolrwydd cymhellion ariannol na'r defnydd o ymgyrchoedd recriwtio. Fodd bynnag, cafwyd gwybodaeth ychwanegol wrth chwilio drwy'r llenyddiaeth atodol.
- 2.9 Mae'r eitemau a nodwyd yn ymwneud yn bennaf â'r Deyrnas Unedig (Lloegr fwyaf), ynghyd ag UDA, Canada (e.e. Alberta) ac Awstralia. Nododd canlyniadau'r broses o chwilio am y defnydd o gymhellion waith a ganolbwyntiai'n benodol ar ymarfer yn UDA, lle mae gwahaniaethau mewn systemau addysgol, dulliau o gefnogi myfyrwyr a ffactorau eraill yn golygu nad yw'n bosibl llunio cymariaethau uniongyrchol na dibynadwy â'r sefyllfa yng Nghymru.
- 2.10 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ymwneud â'r themâu eang canlynol:
- Graddau gadael a'i effaith ar ysgolion;
 - Effaith cymhellion athrawon i fod yn athro ar eu tebygolrwydd o aros;
 - Effaith nodweddion economaidd-gymdeithasol ysgolion ar anghenion ac ymddygiadau athrawon;

⁴ [Mynegai Addysg](#) , [ERIC](#), [ProQuest](#)

- Cymharu profiadau athrawon ar ddechrau eu gyrfa / athrawon mwy profiadol;
- Pwysigrwydd AGA a DPP ac effaith hynny ar gadw athrawon;
- Pwysigrwydd meithrin / datblygu gwydnwch athrawon;
- Nodweddion allweddol strategaethau cadw effeithiol.

- 2.11 Nid yw'r sail dystiolaeth ar gyfer strategaethau effeithiol i recriwtio a chadw aelodau o'r proffesiwn addysgu yn gryf. Mae sawl astudiaeth (yn enwedig y rhai a gyhoeddwyd yn Awstralia) yn pwysleisio'r ffaith bod hwn yn faes sy'n dod i'r amlwg. Mae cryn dipyn o'r sail dystiolaeth yn dibynnu ar astudiaethau ansoddol bach yn bennaf, a phrin oedd yr arolygon mawr oedd ar gael. At hynny, nodai'r arolygon dystiolaeth gan gannoedd, yn hytrach na miloedd, o athrawon. Awgryma hyn fod y sail wybodaeth ar gyfer y pwnc hwn yn datblygu.
- 2.12 Mae'r sail dystiolaeth ar gyfer y defnydd o gymhellion i ddenu pobl i'r proffesiwn addysgu hefyd yn wan ac mae angen gwneud mwy o ymchwil i feithrin dealltwriaeth o'r mater hwn.
- 2.13 Ategwyd yr adolygiad o lenyddiaeth, ac iddo bwyslais penodol, gan archwiliad o'r dystiolaeth o faterion recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru. Yn arbennig, ystyriodd y tîm ymchwil ddadansoddiad CGA ym mis Mai 2017 (CGA, Recriwtio, cadw a chynnydd gyrfa athrawon ysgol yng Nghymru, 2017) ac ystyriodd y dystiolaeth ryngwladol yn sgil ei negeseuon allweddol am Gymru.

Prif ddull ymchwil a'r sampl

- 2.14 Cynlluniwyd yr elfen ansoddol i gael adborth gan ystod eang o gyfranogwyr ledled Cymru: athrawon, myfyrwyr AGA, staff AGA, disgyblion Safon Uwch, myfyrwyr israddedig, y rhai oedd wedi gadael y proffesiwn (neu a oedd yn ystyried gwneud hynny o ddifrif) a rhanddeiliaid. Ceir manylion am y sampl ansoddol yn Atodiad A.
- 2.15 Cyfrannodd 199 o gyfranogwyr i gyd. Roedd y sampl yn cynnwys:

- **Ymweld ag 16 o ysgolion**

- Wyth ysgol gynradd ar gyfer grwpiau ffocws gyda staff - roedd tair ysgol yn rhai cyfrwng Cymraeg

- Wyth ysgol uwchradd ar gyfer grwpiau ffocws gyda staff ac ar wahân gyda disgyblion Safon Uwch - roedd tair ysgol yn rhai cyfrwng Cymraeg
 - **Ymweld â thair Canolfan AGA** i gynnal grŵp ffocws gyda staff a grŵp ffocws gyda myfyrwyr AGA;
 - **Tri grŵp ffocws gyda myfyrwyr israddedig nad** oeddent yn astudio i fod yn athrawon;
 - **20 o gyfweiliadau ffôn trylwyr gydag athrawon a oedd wedi gadael neu a oedd yn ystyried gadael** y proffesiwn addysgu **o ddifrif**;
 - **24 o randdeiliaid** drwy gyfuniad o gyfweiliadau ffôn trylwyr, grwpiau ffocws a chyfweiliad wyneb yn wyneb.
- 2.16 Roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys **arolwg ar-lein** i athrawon cymwysedig. Datblygwyd yr arolwg i helpu i adnabod ymadawyr. Hefyd, darparodd ddata meintiol lefel uchel ar yr hyn a ddenodd ymatebwyr i addysgu, beth a wnaeth eu cymell i barhau i addysgu a beth allai wneud iddynt ystyried gadael.
- 2.17 Cafodd yr arolwg ei gynnal ar-lein a'i rannu'n bennaf drwy sianeli cyfathrebu Llywodraeth Cymru fel y cyfryngau cymdeithasol a Dysg, cylchlythyr y sector. Cafwyd cyfanswm o 1,945 o ymatebion. Lle y bo'n berthnasol, caiff ffigurau o'r arolwg eu cynnwys yn yr adroddiad. Dylid nodi nad yw data'r arolwg wedi'u pwysoli ond mae proffil y sampl a gafwyd yn cynrychioli athrawon Cymru fwy neu lai (gweler Atodiad A) lle mae data cymharol ar gael. Noda'r adroddiad lle mae angen bod yn ofalus gyda chanfyddiadau'r arolwg. Mae canlyniadau'r arolwg yn adlewyrchu'r canfyddiadau ansoddol yn gyffredinol.
- 2.18 Cafodd yr adnoddau ymchwil (dogfennau recriwtio a chanllawiau pwnc) eu datblygu gan Lywodraeth Cymru. Bu modd cynnal trafodaethau rhwydd yn sgil y canllawiau pwnc, fel y gallai themâu perthnasol pwysig i gyfranogwyr ddod i'r amlwg yn ddigymell. Addaswyd pob canllaw pwnc ar gyfer gwahanol gyfranogwyr, fel y disgrifir uchod.
- 2.19 O ran y gwaith dadansoddi, recordiwyd y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau gyda chaniatâd y cyfranogwyr. Defnyddiwyd cyfuniad o drawsgrifiadau a nodiadau manwl fel sail i'r gwaith dadansoddi a gefnogwyd gan feddalwedd NVivo. Mae'r feddalwedd yn galluogi'r defnyddiwr i greu codau lle gellir trefnu'r sylwadau a wnaed mewn grŵp ffocws neu gyfweiliad. Gwnaed y gwaith dadansoddi mewn ffordd anwythol, lle mae'r

ymchwilydd yn codio'r data ac yn datblygu themâu sy'n dod i'r amlwg o gynnwys y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau. Yn gyffredinol, fframiwyd y codau hyn o fewn prif amcanion yr ymchwil, sef archwilio cymhellion i addysgu a pha mor ddeniadol ydyw; a'r hyn sy'n cadw unigolion yn y proffesiwn neu a allai wneud iddynt ystyried gadael.

- 2.20 Gwnaeth dadansoddiad disgrifiadol a chodio agored helpu i nodi'r codau oedd yn berthnasol i'r amcanion a datblygu a chysyniadu'r themâu o fewn y data. Roedd y codau a gymhwyswyd at y data hefyd yn cynnwys priodoleddau a nodweddion y math o gyfranogwr (athrawon ysgol gynradd / uwchradd yn cynnwys sefydlu ANG, athrawon oedd yn gadael y proffesiwn, disgyblion, myfyrwyr israddedig, staff AGA, myfyrwyr AGA a rhanddeiliaid), fel bod modd i'r dadansoddiad thematig gael ei gategoreiddio yn ôl y gwahanol grwpiau buddiant hyn. Ni nododd y dadansoddiad unrhyw wahaniaeth mewn canfyddiadau o ran denu a chadw athrawon yn ôl rhanbarth, lefel amddifadedd, neu gyfrannau o ddisgyblion o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME). Golygai'r cymysgedd o wahanol nodweddion cyfranogwyr ym mhob grŵp ffocws nad oedd bob amser yn bosibl ystyried nodweddion fel cyfnod mewn bywyd a phynciau a addysgwyd neu a astudiwyd ar y cam dadansoddi.
- 2.21 Cynhaliwyd y camau gwahanol ar y gwaith maes rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2018, gydag un cyfweiliad a ohiriwyd yn cael ei gynnal ym mis Awst.

3. Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- 3.1 Ar draws y grwpiau gwahanol o gyfranogwyr, y teimlad cyffredinol oedd nad oedd y proffesiwn addysgu yn cael ei **barchu, ei werthfawrogi na'i farchnata gystal** ag y gallai. Credwyd bod hyn yn cael effaith andwyol ar ba mor ddeniadol oedd addysgu fel gyrfa.

Amcan cyffredinol: beth sy'n cymell pobl / pobl ifanc i addysgu

- 3.2 Mae'r diagram isod yn tanlinellu'r themâu a ddaeth i'r amlwg ynghylch yr hyn sy'n denu unigolion i ddilyn gyrfa addysgu. Y ddwy thema gyntaf oedd yr amlycaf ar y cyfan.

Addysgu fel galwedigaeth	Ffactor amlwg ar draws y sampl (ac a gydnabuwyd gan staff AGA), yn enwedig ymhlith athrawon ysgol gynradd. Cyfeiriodd pobl ifanc at hyn hefyd.
Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddisgyblion	Roedd hefyd yn thema allweddol ymhlith gwahanol fathau o gyfranogwyr o ddisgyblion Safon Uwch i athrawon ysgol gynradd ac ysgol uwchradd profiadol (ac a gydnabuwyd gan staff AGA).

Ffactorau cymhellol eraill i addysgu:

<i>Y profiad o fod wedi gweithio gyda phlant / pobl ifanc.</i>	Y profiad o fod wedi gweithio gyda phlant / pobl ifanc.
<i>Yn awyddus i newid gyrfa i broffesiwn oedd yn teimlo'n fwy boddhaus.</i>	Ffactor a godwyd gan athrawon cynradd ac uwchradd, yn ogystal â myfyrwyr a staff AGA.
<i>Y gallu i barhau a rhannu brwdfrydedd dros bwnc.</i>	I'w weld ymhlith disgyblion Safon Uwch, myfyrwyr AGA ac athrawon ysgol uwchradd (ac a gydnabuwyd gan staff AGA).
<i>Y gallu i rannu brwdfrydedd dros y Gymraeg a'i helpu i ffynnu.</i>	Codwyd hyn gan athrawon ysgol uwchradd a rhai myfyrwyr AGA oedd yn siarad Cymraeg (ac fe'i cydnabuwyd gan staff AGA).
<i>Dylanwad athro ysbrydoledig fel disgybl ysgol.</i>	Gwelwyd hyn ar draws gwahanol fathau o gyfranogwyr (ac fe'i cydnabuwyd gan staff AGA).

Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer gwneud addysgu'n fwy deniadol

Gwella delwedd addysgu	Codwyd hyn yn bennaf gan athrawon, rhanddeiliaid, staff a myfyrwyr AGA a myfyrwyr israddedig.
Ymdrin â'r problemau canfyddedig gyda llwyth gwaith	Codwyd hyn gan athrawon, rhanddeiliaid, staff AGA a myfyrwyr israddedig.

Awgrymiadau pellach a wnaed:

<i>Ystyried sut i dargedu darpar ymgeiswyr yn fwy effeithiol.</i>	Codwyd hyn gan rhanddeiliaid a staff AGA.
<i>Awgrymiadau'n gysylltiedig â chyllid (fel cynnig yr un cymhellion ariannol i hyfforddi i addysgu â Lloegr neu gynnig gwell cyflog cychwynnol).</i>	Codwyd hyn gan athrawon, staff a myfyrwyr AGA, rhanddeiliaid, myfyrwyr Safon Uwch a myfyrwyr israddedig.
<i>Atgyfnerthu gwaith partneriaeth rhwng ysgolion, Canolfannau AGA a phrifysgolion.</i>	Codwyd hyn gan staff AGA.

Amcan cyffredinol: cadw athrawon a'r hyn a all wneud i athrawon adael y proffesiwn

Ffactorau oedd yn helpu i gefnogi ymrwymiad i addysgu

- 3.3 Nodwyd dwy brif thema: **gwneud gwahaniaeth cadarnhaol** a gweld disgyblion yn datblygu; a **datblygu proffesiynol**. Mae'r diagram drosodd yn crynhoi sut roedd y themâu hyn yn gymwys i'r gwahanol fathau o gyfranogwyr.

	AGA	Sefydlu ANG	Athrawon
Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a gweld disgyblion yn datblygu	- Profiadau lleoliad gwaith cynnar boddhaus - Helpu i fagu hyder mewn gallu - Ailategu'r penderfyniad i addysgu	- Gweld disgyblion yn camu ymlaen ac yn datblygu yn foddhaus - Ailategu'r brwdfrydedd dros addysgu	- Gweld disgyblion yn camu ymlaen a datblygu dros amser yn braf - Gwneud gwahaniaeth yn y dosbarth a'r tu allan - Gwerthfawrogi amser gyda disgyblion
Cymorth proffesiynol	- Mentoriaid ysgol a staff ysgol cefnogol - Staff AGA cefnogol a hawdd mynd atynt - Cymorth llai ffafriol gan gymheiriaid	- Mentoriaid cefnogol - Gall mentor newydd fod o fudd - Teimlo'n rhan o dîm - Cymorth gyda hyfforddiant	Teimlo ysbryd tîm gyda chydweithwyr cefnogol
Ffactorau eraill	- Cydnabod gwaith da, ymddiriedaeth – helpu i fagu hyder - Gwyliau ysgol - Profiad gwaith blaenorol	- Gwerthfawrogiad a chydabyddiaeth am waith da - Gwyliau ysgol - Hyfforddiant ar gael	- Gwerthfawrogiad a chydabyddiaeth am waith, arweinyddiaeth dda - Gwyliau ysgol - Brwdfrydedd dros y pwnc - Sicrwydd swydd - Amrywiaeth rôl, yn enwedig i athrawon ysgol gynradd

Ffactorau a all beri ansicrwydd ynghylch parhau i addysgu

3.4 Roedd y thema amlycaf yn ymwneud â **llwyth gwaith**. Roedd **cymorth anghyson** mewn ysgolion yn thema gyffredin hefyd.

	AGA	Sefydlu ANG	Athrawon
Llwyth gwaith (a godwyd gan bobl ifanc hefyd)	- Teimlo'n ormod - Athrawon cymwysedig dan bwysau - Gofynion lleoliad ac aseiniadau ysgrifenedig - Cydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith	- Rhestr ddiderfyn o bethau i'w gwneud - Llunio ffeiliau tystiolaeth - Athrawon sydd wedi bod yn y swydd yn hirach dan bwysau - Cydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith	- Yn ddiddiwedd (cynradd, uwchradd) - Casglu data ac atebolrwydd - Gallu teimlo nad ymddiriedir ynoch - Marcio, adroddiadau, maint dosbarth - Diffyg cydbwysedd bywyd a gwaith - Newidiadau yn y sector - Rheswm dros adael y proffesiwn
Cymorth anghyson mewn ysgolion	- Problemau mentora yn yr ysgol (e.e. awyrgylch negyddol, diffyg hyfforddiant) - Dim digon o gymorth i reoli ymddygiad disgyblion	Diffyg cymorth yn yr ysgol ac adborth	- Dim bob amser yn glir ble i gael cymorth - Uwch arweinwyr yn gallu bod yn rheswm dros adael y proffesiwn - Dim arian ar gyfer hyfforddiant
Iechyd meddwl a lles – yn gysylltiedig â llwyth gwaith a chymorth	-	-	- Anodd cyfaddef na ellir ymdopi - Codwyd hyn gan y rhai oedd wedi gadael/yn ystyried gadael - Rheswm dros adael y proffesiwn

- 3.5 Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer gwella cyfraddau cadw athrawon: **mynd i'r afael â materion llwyth gwaith; a gwella cysondeb y cymorth** sydd ar gael (e.e. gan fentoriaid i fyfyrwyr AGA ac ar y cam sefydlu ANG).

Amcan cyffredinol: y Gymraeg a gyrfa addysgu

- 3.6 Roedd canfyddiadau o addysgu ymhlith siaradwyr Cymraeg ifanc yn **adlewyrchu rhai'r bobl ifanc yn y sampl yn gyffredinol** yn ogystal â'r hyn y byddent am ei gael o yrfa. I ddilyn gyrfa addysgu, ystyriwyd bod sgiliau Cymraeg o fudd i'r unigolyn weithiau (mwy o gyfleoedd yn y maes) yn ogystal â helpu'r iaith i ffynnu, ar yr amod ei fod yn hyderus o ran ei sgiliau.
- 3.7 Ni wnaeth pryderon ynghylch y Gymraeg godi fel themâu allweddol ymhlith pobl ifanc nad oeddent yn siarad Cymraeg yn rhugl.
- 3.8 Cododd **hyder** o ran sgiliau Cymraeg fel thema ymhlith disgyblion cyfrwng Cymraeg (a nodwyd gan staff AGA hefyd) a allai wneud iddynt feddwl ddwywaith am addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.9 Ym marn staff AGA a rhanddeiliaid, roedd y nifer gynyddol o gyfleoedd gyrfa amgen i raddedigion Cymraeg eu hiaith yn ei gwneud yn anos denu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn.

4. Crynodeb o'r prif faterion sy'n codi o ran recriwtio a chadw athrawon o'r adolygiadau o ddata a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes

- 4.1 Caiff y mater o 'adael' y proffesiwn addysgu ei brofi yn yr holl wledydd a archwiliwyd yn y llenyddiaeth. Mae astudiaethau o Loegr, Awstralia, yr Iseldiroedd ac UDA yn awgrymu bod hyd at hanner y rheini sy'n ymuno â'r proffesiwn addysgu yn dewis gadael yn y pum mlynedd gyntaf (er enghraifft, Dias-Lacy a Guirguis, 2017, Krasnoff, 2014). Mae amrywiadau ar lefel gwlad, ardal ac ysgol unigol yn dylanwadu ar y patrwm. Lle mae trosiant ar ei uchaf, gall fod i hyn oblygiadau o ran safonau ysgolion ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.
- 4.2 Mae'r ymchwil a gyhoeddwyd yn cyfeirio at ddylanwad trosiant staff ar ddilyniant profiadau dysgwyr, a chysondeb disgwyliadau athrawon o'u dysgwyr. Mae hefyd yn effeithio ar drefniadaeth ysgol, yn enwedig lle bydd angen i ysgol ddiwygio strwythurau sefydliadol yn rheolaidd am fod staff wedi gadael, er mwyn sicrhau bod trefniadau rheoli llinell a DPP priodol ar waith. Ar yr un pryd, gall trosiant staff uchel leihau'r gronfa o staff y gellir dod o hyd i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol o'u plith (Beltman, 2011, Krasnoff, 2014).
- 4.3 Mae'r astudiaethau a archwiliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn pwysleisio'r ffaith bod rhesymau ymarferwyr dros adael yn amrywio a bod eu penderfyniadau yn cael eu dylanwadu gan ffactorau fel:
- Eu cymhellion cychwynnol dros fod yn athro;
 - Ansawdd camau paratoi cychwynnol y proffesiwn a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol dilynol;
 - Materion arwain a llywodraethu mewn ysgolion;
 - Materion yn ymwneud â dysgu ac addysgu;
 - Faint o gymorth proffesiynol a roddir i ymarferwyr.

5. Pa mor ddeniadol yw addysgu fel gyrfa

- 5.1 Mae adran agoriadol y bennod hon yn canolbwyntio ar yr hyn a ddenodd myfyrwyr AGA ac athrawon cymwysedig i'r proffesiwn addysgu gyntaf. Hefyd, trafodir canfyddiadau o'r adolygiad o lenyddiaeth ar gymhellion. Caiff canlyniadau o'r arolwg ar-lein, sy'n cyfateb i'r canfyddiadau ansoddol fwy neu lai, eu cynnwys hefyd.
- 5.2 Yna mae'r bennod yn archwilio canfyddiadau o addysgu fel gyrfa ymhlith pobl ifanc; disgyblion Safon Uwch a myfyrwyr israddedig nad ydynt yn astudio i fod yn athrawon. Mae hefyd yn ystyried safbwyntiau ynghylch y ffordd yr ystyrir y proffesiwn yn gyffredinol.
- 5.3 Yna mae'r bennod hon yn disgrifio canfyddiadau staff Canolfannau AGA ynghylch denu myfyrwyr a'r heriau y gallant eu hwynebu. Hefyd, edrychir ar yr anawsterau y gall ysgolion eu hwynebu wrth lenwi rolau penodol. Daw'r bennod i ben gydag enghreifftiau o welliannau wedi'u hawgrymu gan gyfranogwyr er mwyn gwneud y proffesiwn addysgu yn fwy deniadol. Hefyd caiff safbwyntiau rhanddeiliaid eu cynnwys yn y bennod lle bo'n briodol.

Ffactorau sy'n cymell unigolion i addysgu

- 5.4 Mae tystiolaeth sy'n bodoli eisoes o'r adolygiad o lenyddiaeth yn awgrymu bod cysylltiad pwysig rhwng penderfyniad unigolyn i ddod yn athro a ph'un a yw'n aros yn y proffesiwn. Nodwyd bod y rhai oedd fwyaf tebygol o aros wedi ymuno â'r proffesiwn am eu bod o'r farn ei fod yn genhadaeth a'u bod yn teimlo ymrwymiad i alluogi plant i gyflawni eu potensial, ynghyd â gwefr bod gyda phlant (Adrianzen, 2012, Beltman, 2011, Cruickshank, 2012, Berry ac Eckert 2012). Ar yr un pryd, mae Bland et al (2014) yn pwysleisio'r potensial i fod yn greadigol fel athro gan nodi 'for many professionals, the field of education has an appeal to those who are bored with the mundane routine of their current job'. Mae rhai o'r astudiaethau hefyd yn awgrymu bod y cyfle i gamu ymlaen mewn gyrfa a budd ariannol addysgu yn llai pwysig i rai o'r rheini a benderfynodd aros yn y proffesiwn yn y tymor hwy.
- 5.5 Gan droi at brif ymchwil y prosiect hwn, soniodd disgyblion Safon Uwch a myfyrwyr israddedig a oedd â diddordeb mewn addysgu fel gyrfa gymhellion tebyg fel myfyrwyr AGA ac athrawon am fod am ddilyn yr yrfa hon. Roedd y rhain yn cynnwys yn arbennig weld **addysgu fel galwedigaeth** a bod am **wneud**

gwahaniaeth. Edrychir ar safbwyntiau disgyblion Safon Uwch a myfyrwyr israddedig ymhellach ar dudalen 34.

- 5.6 Mae'r adroddiad nawr yn ystyried y themâu cymhellol ymhlith athrawon cymwysedig a myfyrwyr AGA.

Addysgu fel galwedigaeth

- 5.7 Thema gymhellol gyffredin, ar draws y sampl, yn enwedig ymhlith athrawon ysgol gynradd, oedd bod addysgu yn weledigaeth, yn unol â'r adolygiad o lenyddiaeth. Roedd staff AGA hefyd yn adnabod y cymhelliant hwn ymhlith eu myfyrwyr. Roedd rhai cyfranogwyr wedi bod am addysgu ers yn ifanc neu o leiaf gyflawni rôl ofalu o ryw fath a gallu helpu eraill. Merched oedd yn dueddol o fod wedi bod am wneud hyn. Roedd gan rai o'r cyfranogwyr hyn aelodau o'r teulu oedd yn athrawon a oedd wedi dylanwadu ar eu dyhead i addysgu, er enghraifft clywed am sut roedd rhiant wedi helpu disgybl i ddatblygu. Ategwyd y thema hon gan staff AGA lle cyfeiriwyd at y ffaith bod y myfyrwyr hyn yn debygol iawn o fod wedi cael cymaint o brofiad â phosibl cyn dechrau eu hastudiaethau.

"I just always wanted to do that, I just liked children, babies, anything like that, helping." (Athro ysgol gynradd)

Y cyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol

- 5.8 Yn gysylltiedig â'r thema hon a'r adolygiad o lenyddiaeth, roedd y gallu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol drwy addysgu yn ffactor cymhellol cryf i rai cyfranogwyr, o ddisgyblion Safon Uwch oedd â diddordeb mewn addysgu i athrawon ysgol gynradd ac ysgol uwchradd profiadol a oedd yn cofio sut y gwnaethant ymuno â'r proffesiwn. Roedd staff AGA wedi nodi dylanwad hynny hefyd.

"I think as well, you feel like you're doing something worthwhile. That was a big thing for me because before, I was working as a waitress. I didn't hate the job but you just think like, I can't care that much about people's chips. . . . I've put a lot of time and effort into this but someone else has got something out of it as well." (Myfyriwr AGA)

Effaith gweithio gyda phlant a phobl ifanc

- 5.9 Ffactor arall a ddaeth i'r amlwg yn rheolaidd ymhlith pobl ifanc, myfyrwyr AGA ac athrawon ysgol gynradd ac ysgol uwchradd, a wnaeth danio diddordeb mewn addysgu, oedd profiad o weithio gyda phlant neu bobl ifanc a allai fod wedi digwydd yn yr ysgol, y brifysgol neu ar ôl cwblhau gradd (a nodwyd gan staff AGA hefyd). Rhannodd rhai cyfranogwyr enghreifftiau o ddarganfod cymaint roeddent yn mwynhau helpu allan gyda gweithgareddau fel y Brownis, y Cybiaid, gwaith rhan amser yn helpu plant agored i niwed a gwersylloedd rhyngwladol i bobl ifanc.

“I finished my degree and then I went to do Camp America. . . . I had no desire to be a teacher. . . . I really enjoyed working with young people, so then when I came back I decided to look into doing a PGCE after that. But before I did Camp America, I had no desire to be a teacher, it was just through that experience.” (Athro ysgol uwchradd)

- 5.10 Mewn achosion eraill, nododd cyfranogwyr weithiau eu bod wedi darganfod eu bod yn eithaf da am helpu cyd-ddisgyblion i ddeall agweddau ar Fathemateg, er enghraifft. Mewn enghraifft derfynol, roedd profiad blasu drwy fodiwl fel myfyriwr israddedig wedi darbwyllo un myfyriwr AGA mai addysgu oedd yr yrfa i'w dilyn.
- 5.11 Yn ôl rhai aelodau o staff AGA, roedd ymrwymiad rhai myfyrwyr i addysgu wedi cael ei atgyfnerthu drwy dreulio amser mewn ysgolion cyn y cwrs TAR, er enghraifft fel Cynorthwywyr Addysgu, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a goruchwylwyr cyflenwi. Nododd staff AGA mewn un Ganolfan eu bod yn gweld mwy o fyfyrwyr a oedd wedi cymryd y cam paratoadol hwn cyn eu TAR.

Newid i yrfa mwy gwerth chwell

- 5.12 Roedd rhai athrawon ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a myfyrwyr AGA wedi gweithio mewn proffesiynau fel bancio, cynhyrchion defnyddwyr, dylunio / gweithgynhyrchu, peirianeg, adloniant, lletygarwch, marchnata, recriwtio a chwaraeon yn flaenorol.
- 5.13 I rai, felly, daeth y penderfyniad i ddewis gyrfa addysgu ychydig yn ddiweddarach mewn bywyd. Cafwyd achosion lle bu cyfranogwyr mewn swyddi anfoddhaus mewn sectorau eraill gan deimlo bod rhywbeth ar goll, er enghraifft amrywiaeth, her newydd a dyhead i ddysgu (daeth y thema hon i'r amlwg yn yr adolygiad o

lenyddiaeth hefyd). Roedd ymdeimlad hefyd nad oedd ganddynt unrhyw beth gwerth chweil i'w ddangos am eu gwaith mewn sectorau gwahanol.

“I'd lost [motivation] in that other career so I was hungry for something you know? And I think that's the beauty of teaching, it's instant, you feel it don't you when something goes well in a classroom.” (Myfyriwr AGA)

- 5.14 Mewn un grŵp o staff AGA, fodd bynnag, synhwyrai'r cyfranogwyr eu bod yn gweld llai o fyfyrwyr aeddfed a daethpwyd i'r casgliad bod hyn yn ymwneud â rhwystrau ariannol. Gan ystyried y pwynt hwn ymhellach, ystyriodd rhai o'r staff AGA yn yr un grŵp p'un a oedd yr heriau ariannol oedd yn gysylltiedig ag addysgu yn golygu, er y gallai fod llai o geisiadau, y gallai ymrwymiad y rheini oedd yn cael hyfforddiant fod yn gryfach oherwydd byddent yn cael eu gyrru gan yr elfen alwedigaethol, y dyhead i wneud gwahaniaeth a, lle bo'n berthnasol, y ffaith eu bod yn frwd am eu pwnc.

Parhau i fod yn frwd am eu pwnc a rhannu hynny

- 5.15 I rai myfyrwyr AGA ac athrawon ysgol uwchradd, roedd bod yn frwd am eu pwnc wedi helpu i'w denu i fod yn athro ysgol uwchradd. Yn yr un modd, daeth staff AGA ar draws y ffactor hwn ymhlith eu myfyrwyr.
- 5.16 Tybiwyd bod hon yn ffordd dda o gynnal brwdfrydedd dros bwnc a hefyd, yn achos rhai cyfranogwyr, anelu at ysbrydoli eraill i fwynhau'r pwnc. I un athrawes gwyddoniaeth mewn ysgol uwchradd, byddai wedi bod yn wastraff amser iddi dreulio'r holl flynyddoedd hynny'n dysgu am y pwnc heb fynd ati wedyn i ysbrydoli eraill. Roedd y ffactor hwn yn amlwg yn yr arolwg ar-lein.

“Oedd brwdfrydedd ag angerdd tuag at y pwnc [Saesneg], a darllen a llyfrau, felly o'n i'n edrych at ryw ffordd o barhau hynny. Y pwnc oedd mwy o ddylanwad nag unigolion, o'n i eisiau esgus i barhau darllen.” (Athro ysgol uwchradd)

Cefnogi'r Gymraeg

- 5.17 Yn gysylltiedig â thema bod yn frwd am bwnc fel cymhelliant, roedd achosion lle gwelai myfyrwyr AGA ac athrawon ysgol uwchradd oedd yn siarad Cymraeg addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel ffordd o gadw'r iaith yn fyw a'i helpu i ffynnu.

Roedd hyn yn hynod bwysig lle ystyriwyd bod y Gymraeg yn rhan allweddol o hunaniaeth unigolyn. Roedd y fraint o gael siarad Cymraeg bob dydd fel rhan o swydd hefyd yn ffactor, yn ôl un athro. Roedd y fath atyniad drwy'r Gymraeg wedi'i nodi'n ffactor gan staff AGA mewn un Ganolfan hefyd.

“Mae'r angerdd yna, chi'n gweld pa mor bwysig yw e i'r diwylliant i'r wlad fach yma, a pa mor bwysig yw e i gadw'r traddodiadau a'r holl sgiliau yna sydd ynghlwm ag ysgol Cymraeg.” (Athro ysgol uwchradd)

- 5.18 Gan gyfuno themâu cefnogi'r Gymraeg a bod am wneud gwahaniaeth, nid oedd un myfyriwr AGA oedd yn astudio'r Gymraeg wedi bod yn fodlon ar y cwricwlwm ysgol ac roedd yn pryderu am ddelwedd yr iaith yn gyffredinol. Felly, iddo ef roedd addysgu yn gyfle i 'inject some energy and enthusiasm into it'. Fodd bynnag, ar lefel TGAU, nid oedd o'r farn bod ganddo unrhyw reolaeth dros yr hyn roedd yn ei addysgu ac roedd yn teimlo'n rhwystredig ynghylch y deunyddiau hen, yn ei farn ef, roedd yn gweithio gyda nhw (er enghraifft gorfod defnyddio ffilm o'r 1980au). Teimlai'n 'mind-numbing', 'the kids don't care' ac ni theimlai fel 'fostering independent learning'.

Athrawon ysbrydoledig

- 5.19 Weithiau nodwyd bod athrawon ysbrydoledig yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd wedi denu cyfranogwyr i'r proffesiwn, o *bobl* ifanc â diddordeb yn yr yrfa i athrawon cymwysedig. Wrth edrych yn ôl ar yr effaith gadarnhaol a gafodd athro, roedd y cyfranogwyr hyn am i ddisgyblion gael profiad yr un mor gadarnhaol. Hefyd cyfeiriodd rhai aelodau o staff AGA at ba mor ddylanwadol y gallai athrawon ysbrydoledig fod, a nodwyd eu bod yn ased 'marchnata' bwysig i ddenu athrawon.

“Dwi'n meddwl nes i benderfynu pan o'n i'n 'neud TGAU achos oedd gennai athrawes Ffrangeg rili rili da. A 'naeth hi kind of helpu fi fynd trwy TGAU, mynd trwy Lefel 'A' a ballu.” (Myfyriwr AGA)

- 5.20 Mewn un enghraifft, roedd y ffordd roedd athro wedi buddsoddi cryn dipyn o amser ac ymdrech yn y cyfranogwr wedi ychwanegu at ei ymdeimlad o ddyletswydd y dylai roi rhywbeth yn ei ôl, yn enwedig am iddo gyfaddef bod ei ymddygiad yn yr ysgol yn eithaf heriol. Nid oedd wedi ymddiddori rhyw lawer yn y Gymraeg ac nid oedd yn

dod o deulu Cymraeg. Pa bwnc bynnag oedd dan sylw, byddai wedi ei ddilyn oherwydd yr athro ysbrydoledig.

Themâu llai cyffredin yn ymwneud â'r cymhelliant i addysgu

- 5.21 Nodir themâu ychwanegol, **llai cyffredin** a ddenodd unigolion i addysgu isod, gan gwmpasu: ansicrwydd ynghylch beth arall i'w wneud fel gyrfa; cyfnod mewn bywyd neu newid mewn amgylchiadau; sicrwydd swydd ac amodau gwaith; gyrfa ddyheadol; a chymhellion ariannol i hyfforddi i addysgu. Caiff yr adrannau hyn eu trefnu o ran eu cyffredinrwydd yn bennaf.

Ansicrwydd ynghylch beth arall i'w wneud fel gyrfa

- 5.22 Nid oedd y diddordeb mewn addysgu mor gryf i rai cyfranogwyr i ddechrau, lle cydnabuwyd eu bod wedi dewis addysgu am nad oeddent yn siŵr beth arall y gallent ei wneud, er enghraifft gyda gradd yn y celfyddydau yn dod i'w therfyn neu fod am aros yn y byd academiaidd yn syml. Cododd y thema hon ymhlith athrawon cymwysedig, yn hytrach na myfyrwyr AGA, er i staff AGA nodi eu bod yn dal i ddod ar draws myfyrwyr o'r fath.

Cyfnod mewn bywyd fel rhiant

- 5.23 Gallai cyfnod mewn bywyd neu newid mewn amgylchiadau ddenu unigolion i fod am addysgu hefyd, yn ôl nifer fach o athrawon ysgol gynradd a myfyrwyr AGA. Cafodd y thema hon ei chodi gan ferched, gan roi enghreifftiau o ddod yn rhiant ac wedyn ymddiddori yn addysg y plentyn. At hynny, wedi bod yn rhiant llawn amser am beth amser, roedd addysgu yn rhoi'r cyfle i gael eu herio'n ddeallusol unwaith eto.
- 5.24 Mewn enghraifft arall, roedd athrawes ysgol gynradd yn awyddus i sicrhau bod ei phlentyn yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd wedi symud yn ôl i Gymru o dde-ddwyrain Lloegr ac wedi dechrau addysgu er mwyn cyd-fynd â'i rôl fel rhiant, yn ogystal â dilyn yr hyn a dybiwyd yn yrfa mwy boddhaol.

Sicrwydd swydd ac amodau gwaith

- 5.25 Roedd y sicrwydd swydd canfyddedig oedd yn gysylltiedig ag addysgu yn ffactor dylanwadol ar brydiau ymhlith athrawon ysgol uwchradd a myfyrwyr AGA. Nododd rhai y byddai angen athrawon bob amser, neu o leiaf ar gyfer pynciau penodol fel Mathemateg. Hefyd, daeth i'r amlwg ymhlith y cymhellion i addysgu yn yr arolwg ar-lein. Weithiau roedd y ffactor hwn ynghlwm wrth thema ansicrwydd ynghylch beth arall i'w wneud fel gyrfa.
- 5.26 Yn ogystal – ac yn gysylltiedig â'r thema cyfnod mewn bywyd uchod – roedd addysgu yn ddeniadol i rieni plant bach ar brydiau oherwydd yr oriau a'r gwyliau oedd yn gweddu i gyfrifoldebau gofal plant. Yn fwy cyffredinol, roedd achosion lle'r oedd athrawon a myfyrwyr AGA yn cydnabod bod y syniad o wyliau athrawon wedi cyfrannu at eu penderfyniad i addysgu.
- 5.27 Nododd rhai myfyrwyr AGA fod y gwyliau hirach wedi ymddangos yn fwy deniadol na lwfans gwyliau proffesiynau eraill, lle disgwyliwyd y byddai hynny'n ei gwneud hi'n anodd anghofio am y gwaith am ychydig ac 'ymadfer' yn llawn. Roedd y gwyliau wedi bod yn ffactor allweddol i un myfyriwr ag ymrwymadau gofal plant.

Gyrfa ddyheadol

- 5.28 Ffactor cymhellol arall a godwyd gan gyfranogwyr weithiau oedd y dyhead i gyflawni mwy na chenedlaethau blaenorol a dianc rhag magwraeth anodd. Felly, roedd addysgu wedi cynnig ffordd allan, yn ogystal â ffordd o helpu plant eraill i gyflawni eu potensial llawn. I'r unigolion hyn, roedd yn statws proffesiynol i ymfalchïo ynddo: 'I wanted out. I wanted to be different. I wanted to be better'.

Cymhellion ariannol i hyfforddi i addysgu

- 5.29 Ni chafodd cyfranogwyr eu recriwtio ar sail p'un a oeddent wedi derbyn cymhellion ariannol i hyfforddi ai peidio. Ni chawsai unrhyw gymhellion a gafwyd gan gyfranogwyr eu cofnodi fel mater o drefn, er bod y sampl yn cynnwys rhai unigolion oedd yn addysgu ac yn astudio pynciau a fyddai'n esgor ar gymhellion mwy sylweddol. Felly, rhaid i ganfyddiadau'r adran hon gael eu hystyried yn ofalus am nad yw'r amrywiaeth o gymhellion ariannol sydd ar gael yng Nghymru yn cael eu cynrychioli'n gadarn. Ystyriodd yr adolygiad o lenyddiaeth y pwnc hwn hefyd, ac

mae canfyddiadau hynny yn dilyn y drafodaeth hon ac yn dynodi tystiolaeth gyfyngedig o gymhellion.

- 5.30 Ffactor olaf a godwyd yn ddigymell o bryd i'w gilydd fel cymhelliant a gyfrannodd at addysgu oedd y cymhelliant ariannol oedd ar gael i hyfforddi i addysgu pwnc â blaenoriaeth mewn ysgol uwchradd. Er enghraifft, nododd athro oedd newydd gymhwyso fod y cymhelliant, ynghyd â diddordeb oedd yn pallu yn ei gynllun gyrfa gwreiddiol, wedi ei ddarbwylllo i addysgu. Yn yr un modd, nododd myfyriwr STEM AGA mai'r prif atyniad oedd y cymhelliant ariannol i hyfforddi fel athro gwyddoniaeth – nodwyd ei fod yn gyfle rhy dda i'w golli. Datgelodd cyfranogwr arall na fyddai wedi mynd ati i hyfforddi i addysgu os na fyddai wedi ennill gradd dosbarth cyntaf ac wedi bod yn gymwys i gael y lefel uchaf o gymhelliant.
- 5.31 Roedd rhai yn gweld y cymhellion ariannol oedd ar gael fel ffordd o helpu i sicrhau bod y rhai oedd am addysgu yn gallu fforddio gwneud hynny. Nododd myfyrwr AGA fod y cymhellion yn fonws er enghraifft.
- 5.32 O bryd i'w gilydd, nododd myfyrwr AGA y gallai fod yn ddigon i dorri'ch calon bod ar gwrs gyda myfyriwr oedd wedi cael cymhelliant ariannol sylweddol o gymharu â'r hyn roedd y cyfranogwr yn ei gael. Hefyd, ni theimlwyd bod ennill gradd bob amser yn adlewyrchiad teg o ba mor effeithiol y gallai'r myfyriwr fod fel athro. Cydnabu unigolyn a gafodd gymhelliant ariannol mawr ei fod yn teimlo'n annifyr yng nghwmni myfyrwr eraill oedd yn gweithio'r un mor galed a oedd yn cael llai o gymhelliant ariannol.
- 5.33 Rhoddir safbwyntiau disgyblion Safon Uwch a myfyrwr israddedig ar gymhellion ariannol yn ddiweddarach ar dudalen 40..

Adolygiad o llenyddiaeth: y defnydd o gymhellion

- 5.34 Tynnodd y llenyddiaeth sylw at nifer fechan o astudiaethau o UDA lle cyflwynwyd amrywiaeth o gymhellion gwahanol er mwyn helpu i ddenu pobl i'r proffesiwn. Roedd y sail dystiolaeth yn cynnwys enghreifftiau o Dalaith Efrog Newydd, Tennessee, a Fflorida. Mae gwahaniaethau pwysig mewn polisi addysg a'r ffordd mae myfyrwr yn dilyn cyrsiau addysg ôl-orfodol yn UDA. Yn arbennig, nid yw'r defnydd o'r term benthyciadau o reidrwydd yn cyfeirio at yr un peth yng Nghymru ag yn UDA.

- 5.35 Roedd y cymhellion a archwiliwyd yn y llenyddiaeth wedi cael eu **cyflwyno er mwyn mynd i'r afael â thri mater gwahanol**. Yn gyntaf, anawsterau a brofwyd gan ardaloedd penodol, gan gynnwys rhai â chryn dipyn o amddifadedd a rhai cymunedau gwledig anghysbell, wrth recriwtio ac yna gadw athrawon yn ystod y tair i bum mlynedd gyntaf o'u gyrfaeodd. Yn ail, roedd rhai o'r mentrau wedi'u cynllunio i ymateb i dystiolaeth mai'r athrawon a raddiwyd orau (a nodwyd drwy amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad) oedd fwyaf tebygol o adael y proffesiwn mewn rhai ardaloedd. Yn drydydd, ystyriwyd bod cymell athrawon yn ffordd o sicrhau bod cyflogau athrawon yn gyson â'r rhai a gynigiwyd gan gyflogwyr cystadleuol, yn enwedig mewn pynciau lle'r oedd cyfleoedd gwaith amgen yn denu pobl a allai fel arall fod wedi ymuno â'r proffesiwn addysgu.
- 5.36 Roedd y **dulliau a ddefnyddiwyd** yn yr enghreifftiau a archwiliwyd yn UDA i gymell athrawon newydd neu ddarpar athrawon i'r proffesiwn yn amrywio. Yn eu plith roedd:
- Y defnydd o daliadau bonws, fel bonws llofnodi i ddarparu cydnabyddiaeth ychwanegol er mwyn annog staff i addysgu mewn ysgolion oedd yn profi anawsterau mewn rhai pynciau neu ardaloedd lle'r oedd recriwtio yn broblem;
 - Y defnydd o faddau dyled, lle caiff benthyciadau newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu fel myfyrwyr israddedig eu dileu (fel y nodwyd uchod mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y defnydd o fenthyciadau yn yr UD a benthyciadau cynhaliaeth yng Nghymru ac nad yw'r derminoleg o reidrwydd yn cyfeirio at yr un arferion);
 - Y defnydd o fwrsariau a delir i newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu.
- (Bland et al, 2014, Aragocochrn, 2016).
- 5.37 Mae'r cymhellion hyn a gynigir i'r rheini sy'n ymuno â'r proffesiwn yn gweithredu ochr yn ochr â chymhellion i annog athrawon presennol i symud i ysgolion sy'n ei chael hi'n anodd recriwtio staff neu staff mewn pynciau penodol. Mae'r dulliau olaf hyn yn cynnwys:
- Rhoi cymhellion ariannol i athrawon sydd â hanes o lwyddo symud i ysgolion gwahanol (e.e. ysgolion â lefel uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, neu'n rhai sy'n ei chael hi'n anodd recriwtio);

- Talu cyflogau gwahanol sy'n amrywio yn ôl pwnc / ardal er mwyn llenwi swyddi gwag y mae'n anodd eu llenwi.

(Steele, et al, 2012, Feng a Sass, 2018).

- 5.38 Nid yw'r dystiolaeth a adolygwyd ar **effaith** defnyddio cymhellion ar gadw athrawon yn ddigonol i nodi pa strategaethau sy'n gweithio mewn cyd-destunau gwahanol, mewn ffordd ddibynadwy. Er enghraifft, er bod Bland, et al (2014) yn cyfeirio at faddau dyled ychydig iawn o wybodaeth a roddir am effeithiolrwydd y dull hwn.
- 5.39 Daeth Feng a Sass (2018), a archwiliodd raglen ledled pob talaith i gynyddu nifer yr athrawon mewn ardaloedd oedd yn ei chael hi'n anodd recriwtio, i'r casgliad bod maddau dyled wedi bod yn ffordd effeithiol o gadw ymarferwyr yn yr ysgolion a archwiliwyd. Nodwyd 'employing a difference-in-difference estimator we find that the loan forgiveness component of the program was effective, reducing mean attrition rates for middle and high school math and science teachers by 10.4 percent and 8.9 percent, respectively. We also find that the impact of loan forgiveness varied with the generosity of payments; when fully funded, the program reduced attrition of special education teachers by 12.3 percent, but did not have a statistically significant impact when funding was substantially reduced' (Feng a Sass, 2018). Dadleuwyd bod maddau dyled yn cael 'substantial positive effects on the likelihood an individual would remain in teaching' a 'the effects vary across subjects and depend in part on the magnitude of payments'. Roedd hyn i'w weld mewn pedwar o'r saith pwnc a archwiliwyd. Nodwyd hefyd 'one-time retention bonus offered to high school teachers in designated subject area decreased teacher attrition in the targeted areas by as much as 25 percent'.
- 5.40 Fodd bynnag, cydnabu Feng a Sass fod y dystiolaeth o effeithiolrwydd y fath ddulliau recriwtio a chadw athrawon yn gyfyngedig ar y cyfan (Feng a Sass, 2018). Maent hefyd yn rhybuddio y gall buddiannau llawer o'r cynlluniau cymhelliant ariannol fod yn fyrhoedlog. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth bod rhai athrawon yn symud ymlaen cyn gynted ag y bo'r bonysau yn gorffen, lle cânt eu talu am gyfnod penodol o amser (Feng a Sass, 2018).
- 5.41 Ymhellach, awgryma Berry ac Eckert (2012) nad yw cymhellion ar eu pen eu hunain yn ddigon i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio. Dadleuir 'large-scale studies and an increasing number of teacher testimonies suggest that working conditions are far more important than bonuses in persuading teachers to stay or leave their

classrooms' (Berry ac Eckert, 2012). Felly, mae angen i unrhyw gymhellion ariannol gael eu cyflwyno ochr yn ochr â mesurau eraill er mwyn denu a chadw athrawon o safon.

- 5.42 Gwnaeth rhai astudiaethau (gan gynnwys Berry ac Eckert, 2012 a Glazerman et al, 2015) ystyried p'un a oedd cymhellion ariannol yn cael unrhyw effaith ar ddeilliannau disgyblion, gan ddod i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth yn bendant. Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn cael mwy o effaith mewn ysgolion *elementary* nag ysgolion canol lle nodwyd mai effaith bach iawn a welwyd (Glazerman et al, 2015). Mae angen gwneud mwy o ymchwil cyn y gellir dod i gasgliadau dibynadwy ynghylch p'un a yw darparu cymhellion er mwyn gwella cyfraddau recriwtio yn cael unrhyw effaith ar ansawdd dysgu ac addysgu a ph'un a yw'n hyrwyddo cyrhaeddiad dysgwyr.

Cymhellion i addysgu a chanfyddiadau o gyflog athrawon

- 5.43 Wrth drafod y ffactorau a wnaeth eu cymell i addysgu, ni nododd yr athrawon cymwysedig na'r myfyrwyr AGA yn yr ymchwil hon gyflog athrawon fel prif gymhelliant i addysgu. Fodd bynnag, weithiau nodwyd ei fod yn gyflog rhesymol ymhlith myfyrwyr AGA a wnaeth gyfrannu at atyniad cyffredinol addysgu fel dewis gyrfa. Nid oedd 'Tâl ac amodau' yn ffactor a ddewiswyd ryw lawer yn yr arolwg ar-lein ychwaith.

"I don't think anyone truly comes into teaching for the financial rewards, because when you first start it's not great and I think it's only when you progress with experience and move up the pay scale that you start to feel the rewards a lot more." (Athro ysgol uwchradd)


- 5.44 Roedd rhanddeiliaid a staff AGA yn dueddol o gredu bod cyflog cychwynnol athro yn ddigon cystadleuol wrth feddwl am gyflogau yng Nghymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod proffesiynau atyniadol eraill â lefelau cyflog roedd yn rhaid i addysgu gystadlu â nhw, ar y cyd â ffactorau eraill a allai eu denu. Hefyd, gwnaeth y rhanddeiliaid y pwynt y byddai proffesiynau eraill yn ymddangos yn fwy deniadol i rai unigolion nag addysgu am ei bod yn bosibl y gellid ad-dalu dyledion prifysgol yn gyflymach. Roedd rhai o'r farn y gallai sectorau eraill hefyd fod yn gysylltiedig â gwell rhagolygon yn gyffredinol, yn enwedig ar gyfer pynciau STEM.

- 5.45 Roedd rhai athrawon a myfyrwyr AGA yn dueddol o gredu bod cyflog wedi gwaethygu dros amser ac nad oedd wir yn adlewyrchu llwyth gwaith a chyfrifoldebau athrawon. Hefyd cyfeiriodd athrawon at y ffaith eu bod yn gorfod talu am adnoddau ystafell ddosbarth gyda'u harian eu hunain.

Canlyniadau'r arolwg ar-lein ar y rhesymau dros ddewis dilyn gyrfa addysgu

- 5.46 Gwelwyd cysondeb rhwng y canfyddiadau ansoddol, yr adolygiad o lenyddiaeth a'r arolwg ar-lein a dynnodd sylw at bwysigrwydd yr ymdeimlad o genhadaeth a gwneud gwahaniaeth fel cymhellion i addysgu.
- 5.47 Yn yr arolwg ar-lein, cafodd yr ymatebwyr restr o resymau posibl dros ddewis addysgu fel gyrfa a gofynnwyd iddynt nodi'r tri ffactor pwysicaf, yn ôl trefn pwysigrwydd. Wrth nodi'r ffactor pwysicaf cyntaf, dewisodd 35 y cant o'r holl ymatebwyr 'Galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial', dewisodd 24 y cant 'Eisiau gwneud gwahaniaeth' a dewisodd 16 y cant 'Brwdfrydedd dros fy mhwnc'. Wrth ystyried pob cyfeiriad at y ffactorau hyn (hynny yw, cyfrif y rhai a ddywedodd mai dyma oedd y ffactorau pwysicaf cyntaf, ail a thrydydd), 'Galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial' ac 'Eisiau gwneud gwahaniaeth' oedd y prif gymhellion, a nodwyd gan fwy na chwech o bob deg ymatebydd i'r arolwg ac a oedd yn adlewyrchu'r canfyddiadau ansoddol. Fel yr agweddau ansoddol, roedd 'Tâl ac amodau' yn llawer is i lawr y rhestr o gymhellion i ymuno â'r proffesiwn.

Ffigur 1: Rhesymau dros ddewis dechrau addysgu - lle cafwyd dewis (Canran a nododd pob ymateb)



Sylfaen: Pawb (1,945)

- 5.48 Roedd y rheini oedd wedi cymhwyso i addysgu mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol o ddweud 'Galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial' ac 'Eisiau gwneud gwahaniaeth' fel cymhellion i fod yn athro na'r rheini oedd wedi cymhwyso i addysgu mewn ysgolion uwchradd. Roedd athrawon ysgol gynradd hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod am gael 'Rôl sy'n cynnig amrywiaeth' nag athrawon ysgol uwchradd. I'r gwrthwyneb, roedd brwdfrydedd dros eu pwnc yn llawer mwy tebygol o gael ei nodi gan athrawon ysgol uwchradd nag athrawon ysgol gynradd.
- 5.49 Roedd ymatebwyr iau i'r arolwg (34 oed ac iau) yn llawer mwy tebygol o nodi effaith athro ysbrydoledig wrth eu hannog i ddechrau addysgu nag ymatebwyr hŷn: cafodd 'Wedi fy ysbrydoli gan fy athro fy hun' ei grybwyll gan 28 y cant o ymatebwyr 34 oed neu'n iau fel un o'u tri phrif reswm, o gymharu ag 20 y cant o ymatebwyr 35-54 oed a 15 y cant o ymatebwyr 55 oed a throsodd.
- 5.50 Er bod tâl ac amodau yn gymharol isel i lawr y rhestr o ffactorau a oedd wedi cymell rhywun i fod yn athro yn gyffredinol, roedd yn gymharol bwysicach i'r rheini oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar lefel ranbarthol, roedd canran yr athrawon a ddewisodd y ffactor hwn uchaf yn GwE sy'n cynnwys ardaloedd mwy gwledig. Gwnaeth 19 y cant o'r rheini oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf

ac 20 y cant o'r rheini oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ddewis 'Tâl ac amodau' fel un o'u tri phrif ffactor am ddechrau addysgu o gymharu ag 11 y cant o'r rheini oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf.

Canfyddiadau o addysgu fel gyrfa ymhlith disgyblion Safon Uwch a myfyrwyr israddedig

- 5.51 Roedd yr ymchwil gyda disgyblion ysgol a myfyrwyr israddedig nad oeddent yn astudio i addysgu yn cwmpasu'r hyn roeddent am ei gael o yrfa, yn ogystal â'u canfyddiadau o yrfa addysgu. Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys rhai cyfranogwyr a oedd yn ymddiddori mewn addysgu neu a oedd wedi gwneud cais i wneud hynny; a rhai nad oeddent wedi rhoi fawr ddim ystyriaeth iddo fel opsiwn. Roedd cysondeb rhwng safbwyntiau disgyblion ysgol a myfyrwyr israddedig yn gyffredinol, yn ogystal â gorgyffwrdd rhwng yr hyn y gallent fod am ei gael o yrfa a rhai canfyddiadau ynghylch gyrfa addysgu.

Yr hyn roedd pobl ifanc am ei gael o yrfa

- 5.52 Nodwyd amrywiaeth o ffactorau gwahanol gan bobl ifanc wrth iddynt drafod beth fyddent am ei gael o yrfa. Daeth dwy thema gyffredin arall i'r amlwg: y thema gyntaf oedd **bodddhad mewn swydd**. Cyfeiriwyd at gael gyrfa ddifyr a oedd, yn arbennig, yn cynnig amrywiaeth er mwyn cynnal eu diddordeb. I rai, roedd bodddhad hefyd yn golygu gallu ymwneud â phwnc oedd o ddiddordeb iddynt ac a oedd yn cynnig y cyfle i ddefnyddio'r radd a enillwyd.

“That I’m not going to be bored, that it’s not going to be the same thing every single day.” (Myfyriwr israddedig)

- 5.53 Roedd thema bodddhad mewn swydd hefyd yn cynnwys gyrfa a werthfawrogyd, a barchwyd ac a oedd yn ystyrion i rai pobl ifanc, hynny yw ‘a goal to work towards’ a'r potensial i gael effaith gadarnhaol mewn rhyw ffordd.

“Gwaith sy’n newid bywydau. . . . Bodddhad personol”. (Disgybl ysgol uwchradd)

- 5.54 Nododd rhai disgyblion a myfyrwyr israddedig fod boddhad mewn swydd yn bwysicach ac yn fwy o gymhelliant na chyflog, ar yr amod bod yr olaf o'r rhain yn ddigonol (a drafodir yn fwy manwl isod).

“Well personally to me it has to be close to an interest I have like in terms of actually doing a job, so like pay probably comes second because if I don't have interest it doesn't matter how much someone will pay me I won't do that job. If I have an interest I would like to be paid like proportionately to the job.”
(Disgybl ysgol uwchradd)

- 5.55 Ail thema a nodwyd gan bobl ifanc oedd **cyflog digonol**. Gwnaeth rhai gyfeirio at gyflog da bron yn syth fel agwedd bwysig ar yr hyn y byddent am ei gael o yrfa, er bod hynny'n dueddol o fod yn eilaidd i'r elfennau a danlinellwyd wrth sôn am foddhad mewn swydd. Weithiau cyfeiriwyd at yr angen i ad-dalu dyledion prifysgol neu dalu biliau. Cafwyd amrywiaeth barn ynghylch yr hyn oedd yn gyflog 'digonol', yn amrywio o 'leiafswm' o £20,000 hyd at £30,000. Tybiwyd bod y syniad o ddechrau ar gyflog gweddol isel ond a allai godi'n gyflym yn ddeniadol o bryd i'w gilydd.

“[I want a job that is] something industry based, because there is a lot of money in industry as opposed to government.” (Myfyriwr israddedig)

- 5.56 Roedd thema llai amlwg ymhlith rhai pobl ifanc yn ymwneud â'r hyn y byddent am ei gael o yrfa yn canolbwyntio ar ddyhead am **gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith** fel nad oedd gwaith yn eu gorlethu, er enghraifft achosi straen ac effeithio ar ansawdd bywyd. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd nodwyd y gallai cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ddod yn bwysicach yn ddiweddarach mewn bywyd, gyda phwyslais ar y parodrwydd i weithio'n galed ar ddechrau gyrfa.

“Dim gormod o bwysau fel bod e yn arwain at unrhyw salwch meddwl neu rhywbeth fel yna achos mae gymaint o straen yn gallu bod o fewn gyrfa.”
(Disgybl ysgol uwchradd)

- 5.57 Yn llai cyffredin na'r themâu uchod, weithiau codwyd y potensial i **gamu ymlaen mewn gyrfa** fel ffactor ychwanegol y byddai pobl ifanc am ei gael o yrfa. Roedd datblygiad personol gyda'r gallu i feithrin sgiliau newydd hefyd yn bwysig ar adegau. Mewn ambell achos, roedd camu ymlaen yn gysylltiedig â mwy o gyflog yn ogystal â theimlo cyflawniad. Weithiau awgrymwyd na fyddai'r thema hon o reidrwydd ar frig

yr agenda wrth chwilio am swydd gyntaf, ond y byddai'n dod yn bwysicach gydag amser.

- 5.58 Gwnaed nifer o sylwadau unigol yn ymwneud ag amodau gwaith fel agweddau y byddai person ifanc yn chwilio amdanynt o yrfa. Roeddent yn cwmpasu buddiannau, sicrwydd swydd a'r potensial i fwynhau peth ymreolaeth yn y rôl.
- 5.59 Pwynt olaf a danlinellwyd o bryd i'w gilydd oedd y dyhead i ddechrau gyrfa ag ysbryd tîm da ymhlith cydweithwyr y gellid dibynnu arnynt am gefnogaeth.

Canfyddiadau o addysgu fel proffesiwn – safbwyntiau cadarnhaol

- 5.60 Cafwyd barn gymysg ymhlith disgyblion Safon Uwch a myfyrwyr israddedig ynghylch addysg fel proffesiwn a gyrfa bosibl. Roedd y prif gysylltiad cadarnhaol â'r addysgu yn ymwneud â **boddhad mewn swydd**. Roedd y ffactor hwn yn cynnwys y potensial i gael effaith gadarnhaol ar eraill a gweld plant yn datblygu. Roedd rhai cyfranogwyr yn disgwyl y byddai gweld y gwahaniaeth y gallai athro ei wneud a chwarae rhan yn natblygiad plant yn llawn boddhad. Nodwyd hefyd, os oedd unigolyn o'r farn bod gan addysgu '[an] important social role', y ceid boddhad o 'doing something that's very important for the whole of society'.

"Well, firstly, it's emotionally rewarding. You get to inspire young people and hopefully get them to progress onto something that will also inspire other people and also benefit other people. So you're a kind of a stone in the pond that's going to send out a ripple." (Myfyriwr israddedig)

- 5.61 Yn yr un modd, roedd meysydd boddhad mewn swydd fel gwneud gwahaniaeth a chanlyniadau gwerth chweil hynny yn bwysig i rai pobl ifanc a oedd am ddilyn gyrfa addysgu. Roedd addysgu fel galwedigaeth hefyd yn ffactor cymhellol i'r rheini oedd yn ei ystyried. Wrth grynhoi'r pwynt olaf hwn, ni allai un myfyriwr israddedig ddychmygu gwneud unrhyw beth arall heblaw am addysgu, a hithau wedi bod am wneud hynny ers yn ifanc: 'it doesn't go away if you've got that in you'.

"Mae'r awydd i helpu pobl, dyna be dwi mhoen neud, i wneud gwahaniaeth"
(Disgybl ysgol uwchradd)

- 5.62 Ail gysylltiad cadarnhaol a wnaed gan rai cyfranogwyr ifanc o ran y proffesiwn addysgu oedd faint o **wyliau** roedd athrawon yn ei gael. Fodd bynnag, credwyd weithiau y byddai rhywfaint o'r gwyliau yn dal i gael ei dreulio'n gweithio, er

enghraifft yn paratoi ar gyfer y tymor nesaf. Awgrymwyd weithiau y byddai'r gwyliau hyd yn oed yn fwy deniadol i unigolion â'u plant eu hunain i ofalu amdanynt.

"They [holidays] are great. If you have kids it's perfect. You get the same holidays as the kids pretty much. You get summers, Christmas, everything. It is very appealing." (Myfyriwr israddedig)

- 5.63 Yn ôl rhai pobl ifanc, roedd addysgu yn cynnig y cyfle i gael **gyrfa sefydlog** a sicrwydd swydd o ystyried y byddai angen athrawon bob amser yn eu barn nhw. Barn arall a rannwyd oedd bod cynnig cymhellion yn golygu bod yn rhaid bod prinder athrawon, gan atgyfnerthu'r farn ymhellach i rai bod addysgu yn yrfa sefydlog lle byddai'n hawdd iawn cael swydd ar gyfer y pynciau hynny â galw amdanynt.

"Even if you move around, every town needs a teacher. . . . Especially if you teach a STEM subject. They are desperate for teachers. You're wanted everywhere." (Myfyriwr israddedig)

- 5.64 Gan ystyried y cysylltiadau cadarnhaol ag addysgu a'r Gymraeg, roedd rhai disgyblion Safon Uwch mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd â diddordeb yn y proffesiwn (ac a oedd yn teimlo'n hyderus am eu sgiliau Cymraeg) wedi'u denu i'r syniad o hyfforddi i fod yn athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddent yn aml yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cyfathrebu yn Gymraeg, yn enwedig os mai'r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf neu os oeddent yn teimlo eu bod yn gwybod mwy o derminoleg pwnc benodol yn Gymraeg. Yn yr un modd, credai myfyrwyr israddedig a disgyblion y byddai mwy o gyfleoedd ar gael yn y proffesiwn addysgu i siaradwr Cymraeg na rhywun di-Gymraeg.

"Dwi'n hoffi siarad Cymraeg ond hefyd dwi wedi dysgu'r termau i gyd yn Gymraeg felly mi fydd o probably yn haws i mi ddysgu fo yn Gymraeg." (Disgybl ysgol uwchradd)

- 5.65 Roedd rhai o'r bobl ifanc nad oeddent yn siarad Cymraeg yn rhugl yn dueddol o fod yn agored i'r cysyniad o orfod defnyddio peth Cymraeg sylfaenol yn yr ystafell ddosbarth, ac nid oedd hyn yn rhwystr ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen cymorth a thawelwch meddwl arnynt i wneud hyn. Nododd myfyrwyr israddedig a disgyblion hefyd fod perthnasedd canfyddedig y Gymraeg i yrfa addysgu yn dibynnu ar yr ardal ddaearyddol y dewiswyd addysgu ynddi a ph'un ai

ysgol uwchradd neu ysgol gynradd oedd dan sylw. Credwyd ei bod yn bwysicach i athrawon ysgol gynradd feddu ar sgiliau Cymraeg nag athrawon ysgol uwchradd.

5.66 At hynny, ymhlith y **cysylltiadau cadarnhaol llai cyffredin** ag addysgu a nodwyd o bryd i'w gilydd gan bobl ifanc roedd:

- O ran tâl ac amodau, 'cyflog cynaliadwy' a allai fod yn fwy na chyflog prentis neu hyfforddai, cydnabyddiaeth ei fod yn gyflog da mewn ardaloedd mwy gwledig, y cyfle i ennill mwy mewn rolau lefel uwch a chael pensiwn;
- Y gallu i barhau i ddilyn a meithrin brwdfrydedd dros bwnc a chael y cyfle i'w rannu ag eraill;
- Y cymorth tebygol gan athrawon eraill a natur 'gymdeithasol' cydweithwyr;
- Y cyfle i gamu ymlaen mewn gyrfa, er enghraifft y gallu canfyddedig i ddod yn Bennaeth Adran o fewn ychydig flynyddoedd.

5.67 Roedd ymwybyddiaeth ddigymell o'r **cymhellion ariannol** i hyfforddi i addysgu ymhlith y grŵp bach hwn o fyfyrwyr israddedig yn eithaf cyffredin, ond roedd yn llai cyffredin ymhlith disgyblion ysgol oni bai eu bod am addysgu. Roedd y cymhellion yn Lloegr i'w gweld yn fwy amlwg na'r hyn oedd yn cyfateb iddynt yng Nghymru. I'r rheini oedd yn ystyried addysgu, roedd ymwybyddiaeth bod y lefel o gymhellion yn Lloegr yn wahanol i'r rheini yng Nghymru ac, yng Nghymru, fod y lefel o gymhellion yn amrywio fesul pwnc a dosbarth gradd. Yn yr achosion hynny lle'r oedd cyfranogwyr wedi ystyried yr opsiynau, ystyriwyd bod Lloegr yn cynnig cymhellion mwy deniadol na Chymru. Cymysg fu'r farn ynghylch p'un a fyddai hyn yn eu denu i addysgu yn Lloegr neu aros yng Nghymru. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ni nodwyd cymhellion ariannol ar eu pen eu hunain fel prif ffactor cymhellol i fod am addysgu yn y lle cyntaf, gan adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth.

“Whereas I would have preferred to stay in Wales, but I can't justify it. . . .

There's no way I'm staying here for fourteen grand less. . . . I like Cardiff, I like the city, I like the people and I'd love to teach here, but I just can't justify it when it comes to the money.” (Myfyriwr israddedig)

5.68 Roedd rhai myfyrwyr israddedig a disgyblion ysgol wedi gweld hysbysebion oedd yn cyfeirio at y cymhellion ariannol oedd ar gael i bobl oedd am hyfforddi i addysgu. Fodd bynnag, roedd yr hysbysebion yn dueddol o ymwneud ag addysgu yn gyffredinol, yn hytrach na Lloegr yn benodol. Pan gawsant eu procio, dywedodd rhai

y gallai cymhellion wneud addysgu yn fwy deniadol, ennyn mwy o hyder yn y dewis gyrfa ac y gallai cymhellion hefyd helpu'r rheini oedd am addysgu ond a allai ei chael hi'n anodd yn ariannol. Yn ôl cyfranogwyr un grŵp, gallai'r cymhelliant helpu i leddfu unrhyw bryderon ynghylch y cyflog cychwynnol.

5.69 O bryd i'w gilydd, taerwyd y byddai angen i unigolyn fod am addysgu o hyd yn y pen draw, ond y gallai cymhelliant droi'r fantol os nad oedd unigolyn wedi gwneud ei benderfyniad terfynol eto.

5.70 Safbwynt llai cadarnhaol a fynegwyd mewn un drafodaeth â disgyblion oedd bod cynnig cymhelliant yn ymddangos fel ateb byrdymor; a disgwyliwyd o hyd y byddai cyflog athro yn eithaf isel o gymharu â chyfleoedd mewn sectorau eraill. Ymhlith yr enghreifftiau o sectorau o ddiddordeb yn y grŵp hwn (heblaw addysgu) roedd y gyfraith, gwaith fforensig, meddygaeth, nyrsio pediatrig a sectorau'n gysylltiedig â seicoleg a gwyddoniaeth.

5.71 Wrth siarad am addysgu yn ddigymell, nid oedd pobl ifanc yn dueddol ar y dechrau i nodi p'un ai **ysgol gynradd neu ysgol uwchradd** oedd ganddynt mewn golwg, oni bai eu bod yn ystyried addysgu fel gyrfa bosibl. Wrth fyfyrion ar ba mor ddeniadol oedd addysgu mewn ysgol gynradd, cyfeiriwyd at:

- Y dymuniad i weithio gyda phlant bach erioed a'r agwedd feithringar ar addysgu plant bach - y gallu i ddylanwadu ar eu bywydau ar gam cynnar: 'ti'n setio nhw fyny';
- Bod wedi dwli ar eu profiad o'r ysgol gynradd o gymharu ag amser llai pleserus yn yr ysgol uwchradd;
- Y gallai hyfforddiant athrawon ysgol gynradd fod yn haws;
- Disgyblion y byddai'n haws eu rheoli na disgyblion ysgol uwchradd ac a fyddai'n fwy addfwyn;
- Y cyfle i ennyn diddordeb mewn gwyddoniaeth o oedran cynnar, yn ôl un myfyriwr Ffiseg israddedig.

5.72 Lle'r oedd pobl ifanc yn ystyried addysgu mewn ysgol uwchradd, roedd yr atyniad posibl yn cynnwys:

- Galluogi unigolyn i ddilyn ei frwdfrydedd dros bwnc a meithrin ei wybodaeth ymhellach; ac weithiau rannu'r wybodaeth honno â disgyblion;

- Byddai'n fwy diddorol ar lefel ddeallusol, gyda'r potensial i gael eich herio mewn ffordd gadarnhaol gan ddisgyblion wrth addysgu'r pwnc;
- Credwyd y byddai addysgu mewn ysgol uwchradd yn fwy tebygol o arwain at feithrin sgiliau trosglwyddadwy y tu hwnt i addysgu;
- Gallai'r cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa fod yn well mewn ysgol uwchradd, er enghraifft gweithio tuag at rôl Pennaeth Adran.

Canfyddiadau o addysgu fel proffesiwn – safbwyntiau llai cadarnhaol

- 5.73 Nododd pobl ifanc yr hyn a ystyriwyd yn agweddau negyddol ar addysgu fel gyrfa gan gynnwys y rhai a fyddai'n eu rhwystro rhag ymuno â'r proffesiwn. Y themâu mwyaf amlwg oedd llwyth gwaith trwm athrawon a'r ffaith y gallai'r swydd eu rhoi o dan gryn **bwysau**.

“The hours are ridiculously long. . . . Even teachers who’ve been teaching for years complain about what time they stay up until marking.” (Myfyriwr israddedig)

- 5.74 Credwyd bod sawl ffactor yn cyfrannu at y themâu hyn: cyfrifoldebau ychwanegol athrawon; ymdopi â newidiadau i'r maes llafur; gorfod delio â rhieni anodd; dosbarthiadau mwy o faint; rheoli ymddygiad disgyblion a'u diffyg parch tuag at athrawon; faint o waith marcio a wneir; yr oriau y credwyd bod athrawon yn eu gweithio y tu allan i oriau ysgol heb gydnabyddiaeth ychwanegol; yr agweddau nad oeddent yn rhai addysgegol megis gofal bugeiliol a diogelu; y posibilrwydd o dorri swyddi; a phwysau sicrhau bod disgyblion yn cael canlyniadau da yn eu harholiadau.

- 5.75 O ganlyniad, teimlai rhai pobl ifanc y gallai athrawon brofi cydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith o ystyried y llwyth gwaith a'r pwysau a ddisgrifir uchod.

“Fi'n nabod lot o athrawon yn teulu fi ac maen nhw fel yn dweud bod gwaith fel yn constant. Achos mae e fel arfer ar benwythnosau mae'n rhaid i ti planio gwaith yr wythnos mas, mae e fel dod gartre ac mae'r gwaith yn dod gartre gyda chi, so ti'm yn gallu cau e yn yr ysgol.” (Disgybl ysgol uwchradd)

- 5.76 Cysylltiad negyddol gweddol gyffredin arall ag addysgu a leisiwyd gan gyfranogwyr ifanc oedd **nad oedd addysgu yn broffesiwn oedd yn cael ei barchu na'i**

werthfawrogi rhyw lawer. Er enghraifft, cyfeiriwyd at yr angen i fod yn ofalus wrth ddweud neu wneud rhywbeth, ac ofni y byddai disgybl yn dweud celwydd am y ffordd roedd athro wedi ymddwyn. (Trafodir y mater hwn ymhellach ar dudalen 45.) Roedd sectorau eraill hefyd yn ymddangos yn fwy deniadol i rai.

- 5.77 Weithiau ychwanegwyd **cyflog athrawon** at y cysylltiadau negyddol â'r proffesiwn a godwyd gan bobl ifanc. Roedd y farn hon yn dueddol o fod yn gysylltiedig â'r disgwyliad na fyddai'n adlewyrchu'r holl waith y byddai disgwyl i athrawon ei wneud a'r pwysau canfyddedig dan sylw ('a thankless job' fel y dywedodd un myfyriwr israddedig). Hefyd, credwyd na fyddai'r cyflog mor ddeniadol â'r hyn y gellid ei ennill mewn sectorau eraill, a ategwyd gan randdeiliaid ac athrawon. Yn ôl un person ifanc, roedd cyflog cychwynnol athro yn cyfateb i'r hyn a enillwyd gan gynorthwydd gofal iechyd. Mewn ambell achos, nododd cyfranogwyr amcangyfrifon o gyflog cychwynnol athro. Roedd y rheini a oedd wedi ymchwilio i addysgu fel gyrfa yn fwy cywir ond, yn gyffredinol, roedd yr amcangyfrifon rhwng tua £18,000 a £23,000.

"We see it in our teaching and from what our teachers tell us that they are basically being asked to do more for less, so the pay rises are pretty much not really there anymore." (Disgybl ysgol uwchradd)

- 5.78 O bryd i'w gilydd, cafwyd ansicrwydd ynghylch addysgu a'r **Gymraeg**. Gan adlewyrchu safbwyntiau rhai aelodau o staff AGA, cafwyd achosion lle poenai disgyblion cyfrwng Cymraeg am drosglwyddo arferion gwael yn Gymraeg. Teimlai rhai y byddai eu Cymraeg yn rhydlyd ar ôl cwblhau gradd gyntaf yn Saesneg. Hefyd, weithiau, disgwyliwyd y byddai'n her addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd y profiadau a gafwyd fel disgybl, gydag adnoddau prin iawn ar gael yn Gymraeg.

'Swn i'n teimlo bod Cymraeg fi ddim digon da i ddysgu'r plant. Achos 'san nhw'n copïo fi. A fyswn i yn dysgu habits awful i nhw.'" (Disgybl ysgol uwchradd)

- 5.79 Pryder arall a godwyd ynghylch y Gymraeg o bryd i'w gilydd ymhlith pobl ifanc â sgiliau Cymraeg cyfyngedig oedd y gallai addysgu ofyn i unigolyn feddu ar lefel arbennig o Gymraeg a fyddai'n un peth yn rhagor i'w ddysgu, gan amharu ar dasgau addysgu eraill. Hefyd nodwyd 'the changing measures from the Welsh Government you never know what they might require next' o ran y Gymraeg. O bryd i'w gilydd, roedd pobl ifanc oedd â diddordeb mewn addysgu, ac a ddywedodd eu

bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, yn poeni na fyddai'n ddigon da iddynt addysgu.

5.80 At hynny, gellid creu dryswch ynghylch y lefel o Gymraeg oedd yn ofynnol i addysgu yng Nghymru: credai un myfyriwr israddedig y byddai angen i unrhyw un oedd am addysgu ddysgu Cymraeg yn ei amser ei hun heb unrhyw gymorth gan y Ganolfan AGA. Gan ategu eu pryder, credai staff AGA a rhanddeiliad fod camsyniad ynghylch gofynion Cymraeg ac addysgu y byddai angen ymdrin â nhw drwy ohebiaeth mwy effeithiol.

5.81 Weithiau, rhoddodd cyfranogwyr enghreifftiau o'r hyn a fyddai'n eu rhwystro rhag dod yn athrawon **ysgol gynradd neu ysgol uwchradd** yn benodol. O ran addysgu mewn ysgolion cynradd, cyfeiriwyd at y canlynol:

- Clywed bod angen i athrawon ysgol gynradd ddelio â mwy a mwy o waith papur;
- Gorfod ymwneud yn fwy ag iechyd a diogelwch, diogelu a thasgau gofal plant a ddylai fod yn gyfrifoldeb ar y rhieni – ‘an extension of the day nursery almost’;
- Methu â pharhau â phwnc roeddent yn frwd amdano;
- Dim digon o her ddeallusol;
- Hyfforddiant athrawon a allai fod yn anos na lefel ysgol uwchradd am fod angen i athrawon ysgol gynradd gwmpasu mwy o bethau;
- Faint o egni sydd ei angen drwy gydol y dydd er mwyn cynnal diddordeb plant bach mewn dysgu.

5.82 Ymhlith y ffactorau oedd yn rhwystro rhai rhag ystyried addysgu mewn ysgol uwchradd roedd:

- Gorfod rheoli disgyblion yn eu harddegau - gweld yr holl rwtsh mae'n rhaid i athrawon ysgol uwchradd ddelio ag ef o ran ymddygiad gwael; a phryder y byddai'r disgyblion yn eich bwyta'n fyw;
- Y pwysau disgwylledig oedd yn gysylltiedig â thargedau a chanlyniadau arholiad.

- 5.83 Roedd y bobl ifanc hynny oedd â diddordeb mewn addysgu fel gyrfa yn dueddol o fod yn ymwybodol o'r TAR fel llwybr cyffredin i addysgu. Tybiwyd, ond nid o reidwydd ag unrhyw sicrwydd, y byddai angen y cymhwyster Safon Uwch a'r radd berthnasol er mwyn addysgu pwnc penodol yn yr ysgol uwchradd. Roedd y rheini oedd yn ystyried addysgu o ddifrif yn ymwybodol bod gofynion TGAU penodol, a allai fod yn wahanol ledled y DU. Fel arall, dyfalodd y cyfranogwyr beth allai'r gofynion mynediad fod.
- 5.84 Roedd yr hyn a nodwyd ynghylch y gofynion hyn yn amrywio, yn bennaf ynghylch cyrhaeddiad TGAU. Teimlai rhai fod lefel benodol o gymwysterau yn ddisgwyliedig ac y byddai rhieni yn dawel eu meddwl o wybod bod yn rhaid i athrawon ennill gradd B mewn TGAU Mathemateg a Saesneg. Fodd bynnag, heriodd rhai hyn gan ddweud nad oedd yn ymddangos yn deg iawn, a dadleuwyd y gallai unigolyn ddatblygu'n sylweddol rhwng ei arholiadau TGAU ac addysg uwch. Ymddangosai'n fyrweledol rhwystro'r rheini a allai ennill gradd 2:1 uchel yn y brifysgol rhag addysgu, er enghraifft.
- 5.85 Yn yr un modd, cafwyd barn gymysg ynghylch natur yr hyfforddiant athrawon. Roedd y bobl ifanc hynny oedd yn adnabod eraill â phrofiad o hyfforddiant yn dueddol o ddisgwyl i'r llwyth gwaith fod yn heriol, yn seiliedig ar yr hyn roeddent wedi'i glywed ac wrth ddychmygu sut beth fyddai bod yn athro dan hyfforddiant. Cyfeiriwyd at ddysgu sut i reoli ymddygiad plant, gorfod dangos awdurdod a pherfformio o flaen athrawon cymwysedig a gorfod symud rhwng elfennau damcaniaethol ac ymarferol y cwrs.
- 5.86 Mewn achosion eraill, credai rhai pobl ifanc y gallai hyfforddiant athrawon fod yn rhy feichus: credwyd bod prinder athrawon, er enghraifft, neu roeddent wedi gweld myfyrwyr yn eistedd mewn gwers ac yn arsylwi arni. Hefyd, weithiau, credwyd y gallai hyfforddiant cynradd fod yn haws na hyfforddiant uwchradd, am fod angen gwybodaeth llai manwl am y pwnc.

“C1: I don't think it would be too bad. . . . I can't see it being ridiculously hard. . . . C2: Haven't you got a ten-thousand-word essay on your experience of teacher training? . . . C1: It will take work like every job will. . . . I feel like your degree will probably be harder than your PGCE.” (Disgyblion ysgol uwchradd)

- 5.87 Oni bai eu bod wedi ymchwilio i addysgu fel opsiwn, nid oedd y cyfranogwyr yn dueddol o fod yn siŵr faint roedd hyfforddiant athrawon yn para fel arfer. Dyfalodd un grŵp o ddisgyblion Safon Uwch ei bod yn cymryd rhwng tair a phedair blynedd i hyfforddi. Fe'u synnwyd i glywed bod TAR yn para blwyddyn academiaidd, gan feddwl y dylai gymryd mwy o amser.

Ffynonellau gwybodaeth pobl ifanc ar addysgu fel gyrfa

- 5.88 Roedd rhai pobl ifanc yn cofio gweld **hysbysebion teledu** yn ymwneud â bod yn athro, er na allent ddweud rhyw lawer amdanynt⁵. Hefyd, nodwyd cynnwys cyfatebol ar y cyfryngau cymdeithasol weithiau. (Roedd y cyfranogwyr yn debygol o fod yn cyfeirio at ymgyrch 'Get into Teaching' yr Adran Addysg.) Cyfeiriodd cyfranogwyr at neges am gael arian i fod yn athro ond nid oedd sicrwydd ynghylch y ffigurau a hysbysebwyd na'r meini prawf oedd yn ofynnol i gael y swm a nodwyd. Hefyd, nid oedd pawb yn deall yn syth mai ymgyrch oedd yn gymwys i Loegr oedd hon yn hytrach na Chymru.

“Even when I’m on stuff like Twitter, the main ads that come up are ‘train to teach’. You’ll get 30,000 [pounds] for being a Geography teacher, or whatever; it’s 25,000. . . . I see a lot of adverts on my social media trying to encourage me.” (Myfyriwr israddedig)

- 5.89 Roedd un myfyriwr israddedig a oedd wedi penderfynu dechrau addysgu yn gadarnhaol iawn ynghylch ei brofiad o sioe deithiol 'Get into Teaching' a oedd wedi ymweld â Chaerdydd. Ar ôl rhoi ei gyfeiriad e-bost cafodd gynghorydd a wnaeth roi cymorth un i un cynhwysfawr iddo ar sut i fwrw ymlaen â'i benderfyniad i hyfforddi i addysgu: sgysiau dros y ffôn, trafod cymhellion i addysgu a sut mae'r system yn gweithio, mynd dros ei ddatganiad personol – nodwyd '[they] held my hand all the way through'.
- 5.90 Tybiwyd bod y we yn fan cychwyn tebygol i chwilio am wybodaeth am fod yn athro. Roedd achosion lle'r oedd pobl ifanc wedi edrych ar-lein er na allent, ar y cyfan, gofio pa wefannau yr ymwelwyd â nhw'n union. Ymhlith yr enghreifftiau roedd un o

⁵ Mae ymgyrchoedd hysbysebu diweddar yn cynnwys *Get Into Teaching - Your Future: Their Future* gan yr Adran Addysg sy'n cyflwyno addysgu o safbwynt athro ac yn cynnwys cyfeiriadau at gymhellion ariannol yn Lloegr.

wefannau'r llywodraeth, gwefan Awdurdod Lleol a 'Prospects' sy'n rhoi gwybodaeth a chyingor ar yrfaedd i raddedigion⁶.

- 5.91 Weithiau roedd **teulu a ffrindiau** wedi helpu i feithrin dealltwriaeth pobl ifanc o addysgu fel gyrfa a'r hyn y gallai ei olygu o safbwynt cadarnhaol (boddhaus, egluro'r llwybr TAR i addysgu) a safbwynt llai cadarnhaol (llwyth gwaith).
- 5.92 Mewn rhai achosion, roedd pobl ifanc wedi trafod y proffesiwn gyda'u **hathrawon**, er enghraifft gydag athrawon yn disgrifio elfennau boddhaus y swydd yn ogystal â'r agweddau mwy heriol. Yn yr ysgol, roedd cynghorydd gyrfaedd neu gynghorydd o Gyrfa Cymru wedi rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am addysgu fel gyrfa.
- 5.93 Roedd myfyrwyr israddedig mewn un grŵp yn ymwybodol o gyflwyniadau gan Teach First yn y brifysgol, gan addo pizza am ddim i bawb oedd yn bresennol. I'r gwrthwyneb, nid oedd myfyrwyr israddedig mewn prifysgol arall yn credu bod y brifysgol yn hyrwyddo addysgu fel gyrfa yn effeithiol iawn. Cofiai un cyfranogwr y proffesiwn yn cael rhyw hanner sleid mewn cyflwyniad gan yr adran yrfaedd.
- 5.94 Yn ystod y trafodaethau, llywiwyd y cyfranogwyr am gyfnod byr gan giplun o wefan Darganfod Addysgu⁷. Nid oedd llawer o ymwybyddiaeth o'r wefan na'r brand ymhlith y sampl ansoddol hon.
- 5.95 At ei gilydd, roedd y bobl ifanc yn dueddol o gredu bod y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd effeithiol o'u cyrraedd gyda negeseuon am addysgu fel gyrfa, ynghyd â chwilio ar-lein. Cyfeiriwyd at Instagram, Snapchat, Spotify, Twitter ac YouTube fel llwybrau posibl. Cafwyd barn fwy cymysg am effeithiolrwydd defnyddio Facebook.

Sut y caiff addysgu ei weld fel proffesiwn yn gyffredinol

- 5.96 Ar draws y grwpiau gwahanol o gyfranogwyr, daeth i'r amlwg bod cred **nad oedd y proffesiwn addysgu yn cael ei barchu na'i werthfawrogi cymaint ag y gallai**. Hefyd, weithiau, credwyd bod canfyddiadau llai cadarnhaol ymhlith y cyhoedd o waith athrawon, gan gynnwys pwysau llwyth gwaith, straen a thoriadau ariannol.
- 5.97 Nodwyd sawl ffynhonnell ar gyfer y canfyddiadau hyn, yn seiliedig ar adborth y cyfranogwyr. Ar lefel eang, weithiau cysylltwyd y **cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol** â ffocws ar gynnwys negyddol oedd yn codi ofn. Yn ôl rhai nid oedd

⁶ [Prospects](#)

⁷ [Cafodd ei lansio ym mis Mawrth 2017](#)

cynnwys o'r fath yn ddefnyddiol, yn deg ac mewn rhai achosion yn gywir, er enghraifft canolbwyntio ar ymddygiad disgyblion a phortreadu addysgu fel proffesiwn peryglus oedd yn dioddef anhrefn. Yn ôl un rhanddeiliad, roedd hyn er gwaethaf canfyddiad Arolygwyr Ei Mawrhydi fod ymddygiad yn well mewn ysgolion nawr nag erioed.

“Maybe witch hunt isn’t the best term but there is always, you see it on Facebook all the time, and on all sorts of newspapers and social media, they’re always out to get a teacher or a Headteacher or something. There’s always something that they’ve done wrong.” (Disgybl ysgol uwchradd)

5.98 Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod sylw yn y cyfryngau i faterion yn y sector addysg yn Lloegr weithiau'n dod i'r fei yng Nghymru, ac felly'n cael ei gysylltu â hi. Tybiwyd nad oedd cynnwys y cyfryngau yng Nghymru yn nodi'n ddigon clir y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr, gan bwysleisio efallai na fyddai rhai o'r pwysau a'r materion yn Lloegr yn gymwys i'r un graddau yng Nghymru.

5.99 Yn agosach i gartref, ymddengys fod **teulu a ffrindiau** yn chwarae rhan wrth geisio dylanwadu ar ganfyddiadau unigolion o addysgu fel gyrfa. Nododd rhai pobl ifanc, myfyrwyr AGA ac athrawon sut y gallai'r rheini oedd yn agos atynt gael eu synnu o glywed eu bod yn bwriadu addysgu a chwestiynu eu penderfyniad neu geisio eu cynghori i ddilyn trywydd arall.

“I’m going to graduate with a First most likely, and I hear so often people [say], ‘but you can do so much better than teaching. Why are you going into teaching?’” (Myfyriwr israddedig)

5.100 Yn yr un modd, roedd adegau lle, yn ôl pobl ifanc a myfyrwyr AGA, fe'u cynghorwyd gan **athrawon** ac mewn un achos diwtor prifysgol i beidio â dewis y proffesiwn fel gyrfa. O bryd i'w gilydd, cyfaddefodd athrawon eu bod wedi rhybuddio eraill i beidio â dod yn athrawon oherwydd y llwyth gwaith ar lefel ysgol gynradd ac ysgol uwchradd.

5.101 O bryd i'w gilydd, credai rhai rhanddeiliaid fod **undebau athrawon** yn cyfrannu at y canfyddiadau negyddol cyffredinol o'r proffesiwn, er enghraifft o ran ymddygiad disgyblion. Cydnabuwyd mai rôl undebau athrawon oedd cefnogi eu haelodau ond teimlai rhai fod gormod o bwyslais ar straeon negyddol am addysgu.

- 5.102 Ffynhonnell olaf y credwyd ei bod yn effeithio ar y ffordd yr ystyrir addysgu weithiau oedd **Llywodraeth Cymru**. Awgrymwyd ei bod wedi cyfrannu at ddangos y proffesiwn mewn ffordd negyddol dros y blynyddoedd, wrth feirniadu athrawon a'r sector yn rheolaidd yn ôl pob tebyg. Yn ôl un aelod o staff AGA, 'the profession has been bashed'.
- 5.103 Ar adegau, tynnodd rhanddeiliaid sylw at **farchnata** addysgu yng Nghymru ac nad oedd wedi'i hyrwyddo'n dda iawn yn eu barn nhw. Wrth gyfeirio at ymdrechion presennol nodwyd eu bod 'clearly not working, because numbers are going in the other direction and it doesn't seem to be targeted'. Ni chredwyd bod digon o fuddsoddiad yn y maes hwn ac ni chredwyd ei fod wedi'i deilwra digon tuag at y meysydd â phroblemau recriwtio (e.e. ar gyfer rhai pynciau a Phenaethiaid).
- 5.104 Ymhlith rhanddeiliaid a staff AGA, teimlwyd bod toriadau i'r gyllideb mewn rhai ysgolion (a gafodd sylw yn y wasg hefyd) a materion cyllido yn golygu y gallai'r rhai oedd yn ymuno â'r sector gael eu siomi wrth brofi'r realiti⁸. Gallai hyn gynnwys cael eu hannog i ddewis addysgu fel gyrfa, dim ond i ddarganfod wrth ymuno mai ychydig iawn o swyddi gwag perthnasol oedd ar gael. Hefyd, credwyd bod y fath straeon negyddol yn y wasg yn herio'r syniad bod addysgu yn broffesiwn diogel i ymuno ag ef. Felly, disgwyliwyd ei bod yn anodd creu negeseuon credadwy am addysgu yn yr amgylchiadau hyn o ystyried y fath sylw yn y wasg.
- 5.105 Hefyd yn gysylltiedig â'r ddelwedd gyffredinol o'r proffesiwn, cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid ac athrawon at natur atyniadol sectorau eraill o ran y lefelau cyflog roedd yn rhaid i addysgu gystadlu â nhw, ar y cyd â chanfyddiadau o well rhagolygon a mwy o fri (er enghraifft lle'r oedd angen cymwysterau STEM).

Canolfannau AGA: denu myfyrwyr a'r heriau a wynebir

Ymdrechion i ddenu myfyrwyr

- 5.106 Rhoddodd staff AGA enghreifftiau o ymdrechion eu Canolfan i ddenu ceisiadau ar gyfer eu cyrsiau, a ddisgrifir isod. Gan gydnabod y broblem genedlaethol wrth recriwtio i gyrsiau penodol, nododd un Ganolfan ei bod ynghlwm wrth fwy o weithgarwch nag erioed i ddenu pobl i hyfforddi i addysgu. Cydnabuwyd bod natur ddeniadol hefyd yn ffocws allweddol i Ganolfannau AGA yng nghyd-destun diwygio AGA yng Nghymru. Yn ôl pob tebyg roedd gwaith yn mynd rhagddo i weld sut i fod

⁸ [Un enghraifft o stori newyddion yng Nghymru oedd materion cyllido yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a oedd yn cyd-daro â chyfnod o waith maes.](#)

yn fwy 'savvy' wrth dargedu darpar ymgeiswyr, gan gynnwys y ffordd orau o ddenu unigolion a allai fod am newid gyrfa.

- 5.107 Weithiau awgrymodd rhanddeiliaid nad oedd Canolfannau AGA yn gwneud digon o ddefnydd o ddata efallai, neu nad oeddent mor benodol ag y gallent fod. Hefyd, roedd ansicrwydd ynghylch p'un a oedd Canolfannau AGA yn llwyddo i werthuso'r negeseuon a ddefnyddiwyd wrth ddenu ymgeiswyr yn effeithiol. Cynigiodd un rhanddeiliad y gallai Canolfannau AGA yng Nghymru ddysgu o rai Canolfannau AGA yn Lloegr o ran technegau denu effeithiol, ac y gallai effeithiolrwydd ymdrechion i ddenu a recriwtio fod yn rhan o'r broses achredu ar gyfer Canolfannau AGA yng Nghymru.
- 5.108 Mae'r rhan ganlynol o'r adroddiad yn grwpio adborth staff AGA ar sail gweithgareddau canolfannau, gweithio mewn partneriaeth a gweithgareddau digidol.
- 5.109 Wrth sôn am **weithgareddau mewn Canolfannau AGA**, cyfeiriwyd at drefnu diwrnodau a nosweithiau agored lle gallai darpar ymgeiswyr ddod i gyflwyniadau. Gallai ymweliadau â'r Ganolfan hefyd gynnwys trafodaethau un-i-un â darpar ymgeiswyr. Teimlai staff AGA a ddefnyddiodd y dull olaf hwn fod trafodaethau wyneb yn wyneb yn effeithiol iawn.
- 5.110 Hefyd, targedwyd myfyrwyr israddedig yn y brifysgol neu'r prifysgolion oedd ynghlwm wrth redeg y Ganolfan AGA. Un enghraifft a roddwyd oedd datblygu modiwlau rhagflas fel rhan o gyrsiau gradd a fyddai'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr archwilio addysgu ymhellach, petai ganddynt ddiddordeb yn y proffesiwn. Tybiwyd bod meithrin cysylltiadau â staff o wahanol gyrsiau o fewn y brifysgol hefyd yn bwysig.
- “Obviously for the postgrad courses, we can try to get the body of students that we have at the university who have clearly chosen us and think that we're good, we can try to attract them into teacher education, and we are in the process of validating modules to help them, to give them to give them taster modules.” (Staff AGA)
- 5.111 Nododd staff AGA fod **gweithio mewn partneriaeth** â sefydliadau eraill yn hanfodol i lwyddiant denu darpar ymgeiswyr i ddilyn gyrfa addysgu yn y dyfodol. Nodwyd bod y ffocws ar ysgolion a phrifysgolion ond o bryd i'w gilydd cyfeiriwyd hefyd at awdurdodau lleol, Consortia Addysg Rhanbarthol ac undebau, gan gredu y dylai fod yn waith tîm. Disgrifiodd rhai cyfranogwyr y ffordd roeddent yn gweithio ar

feithrin cydberthnasau cryfach ag ysgolion mewn ymgais i gyrraedd darpar hyfforddeion yn gynharach wrth iddynt wneud penderfyniadau. Hefyd, cyfeiriwyd at ymweld ag ysgolion, mynd i ffeiriau recriwtio ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd a chymryd rhan mewn cynadleddau chweched dosbarth. Trefnwyd diwrnodau rhagflas mewn ysgolion lleol i unigolion a oedd wedi bod mewn diwrnod neu noswaith agored yn y Ganolfan AGA ac a oedd wedi dangos diddordeb mewn addysgu.

“We go to events to make sure we have a presence and increasingly going in to school events so that young people begin to think about teaching as a career much earlier on.” (Staff AGA)

- 5.112 Mewn un enghraifft o weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, roedd Canolfan AGA wedi bod yn anfon athrawon dan hyfforddiant i ysgolion mwy difreintiedig er mwyn darparu sesiynau tiwtora un-i-un yn ogystal â chyflwyniad cychwynnol i addysgu fel opsiwn gyrfaol. Rhan o'r nod oedd ysbrydoli disgyblion a gwerthu straeon llwyddiant drwy'r myfyrwyr oedd yn cynnal y sesiwn diwtora. Mewn enghraifft arall, roedd y Ganolfan AGA wedi bod yn trefnu diwrnodau adolygu mewn prifysgol i ddisgyblion ysgol, gyda chefnogaeth athrawon dan hyfforddiant, nid yn unig i ddarparu gwasanaeth ond hefyd i alluogi disgyblion i ryngweithio â'r hyfforddeion a phrofi amgylchedd Canolfan AGA.
- 5.113 Enghraifft arall a roddwyd oedd clywed gan fyfyrwyr newydd eu bod wedi dewis y darparwr AGA oherwydd y berthynas rhwng y Ganolfan ac ysgol. Efallai eu bod wedi mynychu'r ysgol fel disgybl neu wedi ymweld â hi er mwyn ennill ychydig o brofiad arsylwi cyn gwneud cais i hyfforddi i addysgu. Roedd athrawon wedi argymhell y Ganolfan i ddisgyblion oherwydd y berthynas oedd ar waith. Roedd rhai o'r athrawon hynny wedi astudio yn yr un Ganolfan hefyd ac o ganlyniad roeddent yn gweithredu fel hyrwyddwyr oherwydd y partneriaethau dwfn.
- 5.114 Ystyriwyd bod meithrin cydberthnasau â darpar ymgeiswyr ar lefel unigol yn bwysig ac yn effeithiol. Nododd un myfyriwr AGA nad oedd wedi bwriadu dewis astudio yn ei Ganolfan ond roedd cyfarfod â'r staff wedi ei ddarbwylllo y byddai'n llwyddo yno. Ymhlith y gwaith o gysylltu ag unigolion oedd wedi bod i ddiwrnodau agored roedd: cynnig y cyfle i ddarpar ymgeisydd dreulio rhywfaint o amser mewn ysgol lle y gallai hefyd gyfarfod â myfyriwr AGA; ac anfon llythyrau personol er mwyn cynnal y berthynas a'i annog i ddewis y Ganolfan.

- 5.115 Weithiau byddai partneriaethau yn ymestyn i gynnwys meithrin cydberthnasau ag Ysgolion prifysgol eraill. Er enghraifft, eglurodd staff mewn un Ganolfan AGA y byddent yn ymweld ag Ysgolion y Gymraeg mewn prifysgolion lle y byddent yn meithrin cysylltiadau â staff a myfyrwyr. Yna byddai darpar ymgeiswyr yn ‘come to us on an open day and then you meet them at interview, and you’ve got links with the tutors in the college. So, it becomes a good personal link’.
- 5.116 Credai rhai fod defnyddio myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr fel cenhadon wrth ymweld â sefydliadau eraill yn cyfrannu at broses recriwtio lwyddiannus hefyd.
- 5.117 Ymhlith yr **ymdrechion digidol** a nodwyd gan staff AGA er mwyn denu ymgeiswyr roedd tudalennau gwe Canolfannau AGA ar wefan prifysgol, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (er enghraifft i dargedu disgyblion Blwyddyn 8 a 9, defnyddio Facebook Live a chreu fideos YouTube o fyfyrwyr yn graddio) a chreu hysbyseb deledu.
- 5.118 Wrth ryngweithio â darpar ymgeiswyr neu ddisgyblion ac mewn ymgais i ddenu'r myfyrwyr gorau, soniodd rhai aelodau o staff AGA am y meysydd roeddent yn rhoi pwyslais arnynt fel: y gwahaniaeth cadarnhaol y gall addysgu ei wneud a pha mor foddhaus y mae; y nod o ddod yn athro ysbrydoledig i adlewyrchu'r hyn y credwyd iddo ysgogi llawer o unigolion i feddwl am addysgu yn y lle cyntaf; sut mae unigolyn yn ennill cymhwyster gwerthfawr ar ddiwedd yr hyfforddiant sy'n eu rhoi ar drywydd gyrfa; a chwmpasu llwybrau i addysgu. Hefyd, pwysleisiwyd cymorth o ran y Gymraeg yn ystod yr hyfforddiant, yn achos y rheini a allai fod yn brin o hyder neu a allai fod wedi astudio gradd yn Saesneg.
- 5.119 Roedd gwydnwch yn rhywbeth roedd Canolfannau AGA yn chwilio amdano, yn ôl rhai aelodau o staff, er mwyn nodi myfyrwyr o'r radd flaenaf. Cyfeiriwyd at broses recriwtio mwy llym hefyd. Roedd rhai o'r farn bod y rheini oedd yn ystyried addysgu yn alwedigaeth neu lle'r oedd addysgu yn gyfle iddynt ddilyn gyrfa mwy boddhaus yn ddarpar fyfyrwyr o'r radd flaenaf. Roedd ymgeisydd a oedd wedi cwblhau profiad gwaith perthnasol yn enghraifft arall o unigolyn â dyhead cryf i ddilyn yr yrfa ac ateb ei heriau. Byddai unigolyn oedd yn mynegi unrhyw ansicrwydd ynghylch yr yrfa yn llai tebygol o ymuno â'r rhaglen, yn ôl rhai.

“High calibre individuals are those that have always had a vocation for teaching, so they’ve kept it as their eyes on the prize and those career

changers who want to pay back, who have gone into professions like law, solicitors . . . and want to do something that's more fulfilling." (Staff AGA)

Canolfannau AGA: heriau a wynebwr wrth ddenu a recriwtio unigolion

- 5.120 Er gwaethaf yr ymdrechion a ddisgrifir uchod, nododd rhai aelodau o staff AGA y gallai fod yn anodd nodi'r myfyrwyr gorau o hyd nes iddynt gwblhau eu lleoliad cyntaf. Nododd rhai fod y cam hwn ar yr hyfforddiant yn adeg pan allai myfyrwyr adael y cwrs am na allent ymdopi â'r addysgu ei hun.
- 5.121 Credwyd bod nifer o ffactorau eraill yn ei gwneud hi'n anodd i Ganolfannau AGA ddenu'r ymgeiswyr cywir. Roedd staff AGA yn dueddol o gytuno â'r farn nad oedd **chanfyddiadau'r cyhoedd o addysgu** fel proffesiwn mor gadarnhaol ag y gallent fod, gyda chanfyddiadau o lwythi gwaith trwm a phwysau o ran cyllidebau ysgolion.
- 5.122 Yn ôl rhai aelodau o staff AGA, roedd hyd yn oed rai o'r cyrsiau mwy poblogaidd yn draddodiadol yn anodd eu llenwi. Rhoddwyd enghraifft o gwrs celfyddydol a oedd bob amser yn cyrraedd y targed wrth recriwtio, ond dros y ddwy flynedd diwethaf roedd wedi gostwng i dan hanner. Nid oedd y rheswm dros hyn yn hysbys ond credwyd ei fod fwy na thebyg yn rhan o ddarlun oedd i'w weld ledled y DU yn ymwneud â chanfyddiadau cyffredinol o addysgu, gyda phroblemau y credwyd eu bod yn ddyfnach na dulliau o ddenu unigolion.
- 5.123 Fel y nodwyd gan gyfranogwyr eraill, credwyd bod **natur ddeniadol sectorau eraill** yn ychwanegu at yr her o ddenu ymgeiswyr, yn enwedig ar gyfer pynciau STEM. Gallai sectorau eraill fod yn gysylltiedig â mwy o fri, gwell cyflog a gwell rhagolygon.
- 5.124 Wrth ganolbwyntio'n benodol ar y **Gymraeg**, credai rhai staff AGA fod niferoedd cynyddol o gyfleoedd i raddedigion â sgiliau Cymraeg wrth i Lywodraeth Cymru atgyfnerthu ei hymrwymiad i'r iaith. Fodd bynnag, credwyd bod y dewis o bobl i recriwtio ohono yn gyfyngedig.
- 5.125 Gan adlewyrchu'r hyn a ddywedwyd o bryd i'w gilydd gan siaradwyr Cymraeg ifanc, roedd rhai aelodau o staff AGA o'r farn bod **diffyg hyder** siaradwyr Cymraeg **yn eu sgiliau Cymraeg** yn her allweddol wrth geisio recriwtio niferoedd digonol o fyfyrwyr i gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Nodwyd eu bod weithiau yn dod ar draws y fath ymgeiswyr oedd wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, ond wedi mynychu'r brifysgol yn Lloegr neu wedi cwblhau eu gradd yn Saesneg. I adlewyrchu'r pwynt

hwn, eglurodd un aelod o staff AGA iddo glywed ambell fyfyrwr yn siarad Cymraeg nad oeddent wedi datgelu eu bod yn siarad Cymraeg. Gwnaeth y cyfranogwr ddarbwyllw'r myfyrwyr (a ddisgrifiwyd fel 'secret Welsh speakers') i symud i ysgolion dwyieithog ar gyfer eu lleoliadau am fod ganddynt 'an asset they should be developing'.

"I think it's the main thing for all of them if they choose not to study through the medium of Welsh, it's confidence: they don't think they're good enough. Whether they have been through Welsh education or studied Welsh as a second language and would love to do it, they're afraid to put their head above the parapet because they are convinced they aren't good enough." (Staff AGA)

- 5.126 Maes arall a oedd yn effeithio ar gyfraddau denu a recriwtio yn ôl rhai aelodau o staff AGA oedd y **gofyniad mynediad yng Nghymru** i ymgeiswyr feddu ar o leiaf B mewn TGAU Saesneg a Mathemateg. Deallwyd pam, ond nid oedd rhai o'r farn ei fod o reidrwydd yn gyfystyr â nodi doniau addysgu. Credai rhai fod y mesur hwn wedi dechrau effeithio ar nifer y ceisiadau ac y gallai fod yn rhwystredig ar adegau golli unigolion a allai fod yn athrawon gwych, gan gynnwys rhai a oedd am newid gyrfa ac wedi penderfynu cael hyfforddiant yn Lloegr, o ganlyniad i'w graddau TGAU ar gyfer Saesneg a Mathemateg. Mynegodd un aelod o staff ei rhwystredigaeth hi gyda'r gofyniad hwn, am ei bod yn gwybod am siaradwr Cymraeg talentog a oedd wedi gorfod mynd i Loegr i hyfforddi am mai dim ond C roedd wedi ei chael ar gyfer TGAU Mathemateg. Fodd bynnag, nid oedd graddau'r fath sefyllfaoedd yn glir o'r ymchwil.

"I thought we were doing quite well on our selection processes of allowing students to demonstrate their skills in interview. We're now stopping them even coming for interview." (Staff AGA)

- 5.127 Sylw arall a wnaed gan un aelod o staff oedd na chredwyd ei bod yn glir iawn yn ystod proses gwneud cais UCAS fod prawf cyfwerthedd ar gael i'r rheini nad oeddent wedi ennill y graddau TGAU gofynnol ond a oedd am addysgu. Felly, gallai myfyrwyr nad oeddent wedi cysylltu â Chanolfannau AGA gael eu cau allan o'r broses heb sylweddoli bod llwybrau amgen ar gael.
- 5.128 Nid oedd staff AGA yn siŵr pa effaith y gallai **cymhellion ariannol** i hyfforddi fod yn ei chael ar ddenu unigolion i'r proffesiwn yng Nghymru. Disgrifiodd rhai sut y gallai

cymhellion fod yn bwysig i'r rhai a allai fod am newid gyrfa ond a oedd ag ymrwymadau ariannol. Awgrymwyd weithiau, fodd bynnag, fod y gwahaniaeth rhwng y cymhellion a gynigiwyd yng Nghymru a Lloegr yn golygu y gallai rhai darpar fyfyrwyr ddewis astudio yn Lloegr yn hytrach na Chymru. Gwnaeth staff AGA y pwynt hefyd na chredwyd bod cymhellion ychwanegol i hyfforddi a oedd ar gael yn Lloegr (e.e. ar gyfer cyn-filwyr ac ysgoloriaeth y Gymdeithas Gemeg Frenhinol) ar gael yng Nghymru.

“If you’ve got a 2:1, you get nothing here, and you still get a substantial incentive in England. And there’s no point in me standing in the room after that [to convince candidates to train at the Centre], because they know where they’re going to go [to England].” (Staff AGA)

5.129 Wrth ymhelaethu ar y pwynt hwn, nododd un cyfranogwr nad oedd yn credu bod y Ganolfan wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau ar gyfer y pynciau hynny oedd yn denu'r cymhellion uwch. Disgwyliai'r opsiynau o ran hyfforddiant athrawon yn Lloegr wrth y ffin fod yn fwy tebygol o ddenu unigolion a oedd yn awyddus i gael cymhelliant ariannol. Roedd y cyfranogwr hefyd yn ymwybodol o Ganolfan AGA yn Lloegr oedd yn cynnwys de-ddwyrain Cymru ymhlith ei hardaloedd recriwtio targed, a nodwyd 'we're probably not mindful of that enough'.

5.130 Ymhlith yr heriau ychwanegol i ddenu unigolion a nodwyd gan Ganolfannau AGA roedd y canlynol:

- Cododd rhanddeiliad bryder nad oedd uwch aelodau o staff mewn prifysgolion efallai'n ystyried AGA yn flaenoriaeth i'r sefydliad – 'not a drive from the very top': teimlwyd, yng Nghymru, fod natur fach ganfyddedig darpariaeth AGA ar draws gwahanol safleoedd yn golygu na fyddai gan brifysgolion yng Nghymru cymaint o ddiddordeb â hynny ynddo, o gymharu â'r hyn a welwyd mewn rhai prifysgolion yn Lloegr a allai fod yn cynhyrchu mwy o athrawon na Chymru gyfan. Credwyd bod ymarferoldeb yn fater pwysig i brifysgolion a hefyd i recriwtio staff o ansawdd da;
- Holwyd a allai'r cwricwlwm newydd i Gymru wneud i ddarpar ymgeiswyr gwestiynu effaith hyfforddiant yng Nghymru o gymharu â Lloegr o ran natur drosglwyddadwy eu sgiliau;
- Roedd ANGau ysgolion cynradd yn ei chael hi'n haws cael swydd barhaol yn Lloegr na Chymru, lle gallai athrawon cyflenwi fod yn opsiwn mwy realistig.

Ysgolion: heriau wrth lenwi rolau penodol

- 5.131 Gan adlewyrchu barn staff AGA, cyfeiriodd athrawon a rhanddeiliaid at yr anawsterau cynyddol a wynebwyd wrth recriwtio staff i **bynciau STEM a'r Gymraeg**. Tynnodd un ysgol sylw at y problemau a wynebodd yn ceisio recriwtio athro Cymraeg ar lefel uwch – ni chafodd unrhyw ymgeiswyr yn dilyn hysbyseb ddiweddar. Roedd ysgol arall wedi cael trafferthion sylweddol hefyd wrth recriwtio athrawon i faes busnes a TG, a nodwyd 'there just aren't the people'. Credai rhai fod y cyfuniad o ganfyddiadau cyffredinol o'r proffesiwn, natur ddeniadol sectorau eraill a niferoedd annigonol o ddisgyblion yn astudio'r pynciau gofynnol yn rhwystrau allweddol i ddenu'r staff gofynnol i addysgu. Credai un rhanddeiliad fod angen i nifer y bobl ifanc oedd yn astudio pynciau STEM, ieithoedd tramor modern neu'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch gynyddu er mwyn helpu i recriwtio mwy o athrawon.

"This year we ended up with [x] applicants [for Maths roles]. We interviewed almost everybody and appointed almost everybody, and I look back to maybe seven or eight years ago and look at the student teachers that we had here that we wouldn't employ whereas now we would absolutely be snapping them up." (Athro ysgol uwchradd)

- 5.132 Ym marn rhai rhanddeiliaid, roedd problemau'n denu ymgeiswyr i rolau **Pennaethiaid** a rolau lefel uwch eraill mewn ysgolion. Credwyd bod y cyfrifoldebau ychwanegol oedd yn gysylltiedig â'r rôl a ffocws ar atebolrwydd a chanlyniadau yn rhwystro athrawon â'r potensial i arwain i wneud cais. Hefyd, cyfeiriodd rhai athrawon at amharodrwydd i ystyried rôl fel Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth oherwydd y pwysau a'r ffocws ar reoli yn hytrach nag addysgu⁹. Ym marn rhai, roedd lleihau'r pwysau oedd yn gysylltiedig â chyflawni rolau arwain uwch yn allweddol er mwyn annog mwy o geisiadau ar gyfer y rolau hyn ar lefel ysgol uwchradd.

"There's no doubt that it's harder to recruit good people into education at the moment particularly in terms of school leadership. . . . [We need to] get to the stage where young English and Maths teachers aspire to be Heads of Department because they see it as a good thing to do, rather than at the

⁹ Cafodd y datganiad ystadegol '[Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion 2018](#)' diweddaraf ei gyhoeddi ar 25 Gorffennaf. Mae'r datganiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer yr athrawon a staff cymorth mewn swydd ar 16 Ionawr 2018. Noda 'the average number of applications for head teacher or deputy head teacher posts with no teaching commitment in secondary schools was 12.3 in 2017 compared to 5.6 in 2016.

moment, Heads of Maths and English trying to get out because it's too pressured." (Rhanddeiliad)

- 5.133 Pryder olaf a fynegwyd o bryd i'w gilydd gan athrawon oedd y byddai ffocws cynyddol ymddangosiadol ar y Gymraeg yn rhwystro rhai pobl rhag ymuno â'r proffesiwn yn y dyfodol.

Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer gwneud addysgu'n fwy deniadol

- 5.134 Cynigiwyd amrywiaeth o syniadau gan gyfranogwyr. Y brif thema oedd gwella'r **canfyddiad cyffredinol o addysgu a'i statws**, a nodwyd gan athrawon, rhanddeiliaid, staff AGA a myfyrwyr a myfyrwyr israddedig. Galwyd am ymgyrch gyfathrebu i gefnogi'r gwelliant hwn ac i helpu i hyrwyddo addysgu yng Nghymru. I rai, byddai hyn yn helpu i ailennyn parch yn y proffesiwn, ac atgyfnerthu ei werth.

"If we are to remedy recruitment and retention of education staff - teachers and leaders - there will need to be a change in national culture. The status of the profession needs to be raised so that it attracts the very best candidates - regarded as highly as law or medicine." (Rhanddeiliad)

- 5.135 Gwnaeth rhai cyfranogwyr awgrymiadau ar gyfer ymgyrch o'r fath:

- Dangos sut mae tâl ac amodau athrawon yn gystadleuol, gyda gwyliau deniadol;
- Gwneud mwy i gynnwys thema 'brand Cymru' mewn deunydd marchnata a chyfathrebu, gan bwysleisio mentrau newydd a diwygiadau ac ansawdd bywyd yng Nghymru;
- Pwysleisio'r cyffro o ran y cwricwlwm newydd yng Nghymru, gan ei gyflwyno fel rhywbeth i fod yn hyderus yn ei gylch a'i fod yn rhan o fudiad byd-eang. Fodd bynnag, ar adegau roedd pryderon y gallai Cymru ddod yn llai deniadol o ganlyniad i gwricwlwm newydd, wrth orfod delio â mwy o newid a phryderon ynghylch pa mor drosglwyddadwy fyddai cymwysterau addysgu yng Nghymru i wledydd eraill;
- Canolbwyntio ar leisiau disgyblion yn yr ymgyrch a sut mae athrawon yn eu hysbrydoli ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol;
- Tanlinellu'r hyn mae athrawon yn ei wneud, natur amrywiol y rôl, yr effaith y gallant ei chael ar fywydau disgyblion a'r 'buzz' mae hyn yn ei greu: 'trying to tell

people that it's actually an interesting and exciting thing to do' wrth feithrin sgiliau ar yr un pryd; gallai'r gallu i barhau i ddilyn brwdfrydedd dros bwnc gael ei bwysleisio gyda'r Gymraeg hefyd;

- Ymdrechu'n fwy i sicrhau bod straeon newyddion da yn cael sylw yn y cyfryngau. Fel y nododd un cyfranogwr 'there's nothing promoting how good education is' a 'nobody celebrates anything that we do'. Fodd bynnag, tybiwyd ei bod hi'n dal i fod yn her weithiau 'match the rhetoric to the accounts of the other stories that are coming out at the same time' fel materion cyllidebol a diswyddiadau;
- Cyfeirio at gamu ymlaen mewn gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr mwy uchelgeisiol yn cael eu denu.

5.136 Teimlai rhai cyfranogwyr (athrawon, rhanddeiliaid, staff AGA a myfyrwyr israddedig yn bennaf) y byddai **mynd i'r afael â materion llwyth gwaith** i athrawon a phryderon ynghylch y broses atebolrwydd yn helpu i wella canfyddiadau o'r proffesiwn, gydag enghreifftiau o'r hyn oedd yn cael ei wneud i wella hynny. Awgrymwyd y byddai darparu tystiolaeth o well cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i athrawon o ganlyniad i leihau llwyth gwaith yn helpu i wneud addysgu'n fwy deniadol.

"We've got to tackle workload for classroom staff. That means a change of mindset and a lot of that is to do with the accountability system. We've got to move away from the idea that a set of results that have occurred at one point in a young person's life equate to success or failure for a school, for a teacher." (Rhanddeiliad)

5.137 Roedd thema arall o awgrymiadau rhanddeiliaid a staff AGA ar gyfer gwneud addysgu'n fwy deniadol yn canolbwyntio ar **sut i gyrraedd darpar ymgeiswyr** – a'r angen i dargedu'n fwy. Roedd y syniadau'n cynnwys:

- Annog Canolfannau AGA i fod yn fwy fforensig wrth ddenu unigolion drwy wneud mwy o ddefnydd o ddata;
- Sicrhau bod cynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion mor ragweithiol â phosibl;
- Gwneud mwy o ddefnydd o 'genhadon' mewn Canolfannau AGA sy'n ymweld â phrifysgolion ac ysgolion i dawelu meddyliau siaradwyr Cymraeg nad oes ganddynt hyder yn eu sgiliau eu hunain;

- Targeddu'n fwy effeithiol y pynciau lle'r oedd Cymru yn profi prinder myfyrwyr, er enghraifft canolbwyntio ar eu hoffter o bwnc er mwyn denu myfyrwyr STEM / Cymraeg;
- Targeddu'r rhai sydd wedi rhoi'r gorau i addysgu ond a allai gael eu darbwyllo i ddychwelyd drwy barhau i ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr AGA dros amser;
- Targeddu a chefnogi'n fwy effeithiol y rhai sydd am newid gyrfa drwy ganolbwyntio ar sectorau penodol;
- Targeddu'n fwy effeithiol staff cymorth mewn ysgolion fel Cynorthwyrwyr Addysgu a Chynorthwyrwyr Cymorth Dysgu a rhoi llwybr ymarferol i addysgu cymwysedig iddynt.

5.138 Cafodd gwelliannau awgrymedig yn ymwneud â **chyllid** eu codi o bryd i'w gilydd ymhlith pob grŵp o gyfranogwyr ar sut i wneud addysgu'n fwy deniadol:

- Archwilio effeithiolrwydd y cymhellion ariannol sydd ar gael yng Nghymru;
- Gwella tâl athrawon;
- Cynyddu'r cymhellion ariannol er mwyn cyfateb i'r rhai sydd ar gael yn Lloegr;
- Cysylltu'r polisi cyllido ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru â gofyniad i astudio yng Nghymru yn hytrach na'r sefyllfa bresennol lle gallant astudio rywle yn y DU;
- Awdurdodau Lleol i ystyried y posibilrwydd o noddi hyfforddeion ar gyfer pynciau lle mae'n anodd recriwtio ar eu cyfer a chwarae mwy o ran wrth helpu i werthu addysgu fel gyrfa.

5.139 Gwnaeth rhai aelodau o staff AGA dynnu sylw at **atgyfnerthu partneriaethau** rhwng ysgolion, Canolfannau AGA a phrifysgolion er mwyn denu pobl i addysgu drwy waith cyson a pharhaus, a dargedir yn fwy. Awgrymodd un Awdurdod Lleol y dylai ystyried sut i chwarae mwy o ran. O fewn y thema hon, cynigiwyd y gallai ysgolion ymdrechu'n fwy i ddenu disgyblion i ystyried addysgu. Gallai hyn gynnwys rhyw fath o system i nodi disgyblion dawnus, sy'n arddangos nodweddion a fyddai'n gweddu i yrfa addysgu.

5.140 Gellid gwneud mwy, fe'i hawgrymwyd o bryd i'w gilydd, i ystyried sut y gallai pob sefydliad â budd – gan gynnwys Consortia Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru – gydweithio'n fwy.

- 5.141 Ar adegau, credai cyfranogwyr y byddai gwelliannau'n ymwneud â **meini prawf mynediad** i hyfforddi i addysgu a llwybrau i addysgu helpu i wneud y proffesiwn yn fwy deniadol. Ymhlith yr enghreifftiau roedd:
- Mabwysiadu dull gweithredu mwy synhwyrol gyda gofynion gradd B os oes gan ymgeisydd y potensial i fod yn athro; a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r profion cyfwerthedd fel opsiwn i'r rheini na wnaethant ennill y graddau TGAU gofynnol;
 - Datblygu gwell cymorth i ddarpar ymgeiswyr a fyddai angen mwy o hyblygrwydd i hyfforddi, er enghraifft cynnig opsiynau hyfforddi rhan amser a mwy o lwybrau seiliedig ar gyflogaeth er mwyn helpu gydag ymrwymadau ariannol.
- 5.142 Dau awgrym olaf a leisiwyd o bryd i'w gilydd oedd: creu mwy o swyddi ar gyfer ANGau a chynnig swydd bendant fel cymhelliant; ac i Lywodraeth Cymru helpu i newid y naratif a chael ei gweld yn cefnogi athrawon ac yn ymddiried ynddynt yn fwy. Byddai athrawon mwy cadarnhaol yn golygu modelau rôl mwy ysbrydoledig, yn ôl un cyfranogwr.

6. Cadw athrawon a'r hyn a all wneud i athrawon adael y proffesiwn

- 6.1 Mae'r bennod hon yn archwilio safbwyntiau cyfranogwyr ynghylch yr hyn sy'n eu cymhell i barhau i addysgu a pha ffactorau all wneud iddynt gwestiynu parhau yn y proffesiwn ac, yn y pen draw, adael cyn pryd.
- 6.2 Ym mhob un o'r meysydd eang a nodir, mae'r adran hon yn tanlinellu sut maent yn ymwneud â myfyrwyr AGA, y rheini ar y cam sefydlu ANG ac athrawon mwy profiadol.
- 6.3 Hefyd, caiff canlyniadau eu cynnwys o'r arolwg ar-lein ar resymau dros barhau i addysgu a gadael y proffesiwn. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyfateb yn fras i'r ymchwil ansoddol gydag athrawon cymwysedig.
- 6.4 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cynnwys canfyddiadau oddi wrth athrawon cymwysedig, myfyrwyr AGA, staff AGA a rhanddeiliaid.

Ffactorau oedd yn cefnogi ymrwymiad i addysgu

Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a gweld disgyblion yn datblygu

- 6.5 Wrth edrych ar safbwyntiau a phrofiadau myfyrwyr AGA, y rheini ar gam sefydlu ANG, athrawon a rhanddeiliaid, thema allweddol oedd yn parhau i gymhell unigolion i fod am addysgu oedd gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a gweld disgyblion yn datblygu eu dysgu. Roedd hyn hefyd yn brif thema yn yr arolwg ar-lein. O safbwynt **myfyrwyr AGA**, roedd y tro cyntaf iddynt dreulio amser yn yr ystafell ddosbarth yn addysgu weithiau'n gyfrifol am atgyfnerthu eu penderfyniad i ddilyn yr yrfa hon i raddau helaeth. Roedd y profiadau cynnar hyn yn foddhaus a gwnaethant hefyd helpu myfyriwr i fagu hyder yn ei allu i addysgu. Weithiau, cydnabu cyfranogwyr nad oedd ganddynt o reidrwydd yr ysfa alwedigaethol i addysgu i ddechrau. Fodd bynnag, roedd ffactor cymhellol gwneud gwahaniaeth wedi tyfu unwaith iddynt ddechrau treulio amser gyda disgyblion a gallu gweld ffrwyth eu llafur.

"I wasn't ever sure that I was going to do it as a job, I just wanted to do an interesting degree, something I was interested in. But then when I started the actual teacher training and the time in school I realised that yeah I did want to actually pursue that as a career." (Athro ysgol gynradd)

- 6.6 Parhaodd y thema gymhellol hon drwy gydol y daith addysgu ar y cam **sefydlu ANG a chydag athrawon mwy profiadol**, wrth iddynt weld disgyblion yn datblygu dros amser. Ymhlith yr enghreifftiau o ystyr gwneud gwahaniaeth roedd: cyflawniadau yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft disgybl yn datrys hafaliad, ennill gradd TGAU pan oedd hynny'n achos pryder, aros mewn addysg prif ffrwd, cael lle ym Mhrifysgol Caergrawnt a gwella eu rhagolygon wrth adael ysgol. Disgrifiwyd yr adegau hyn fel 'exceptionally rewarding', 'gold nuggets', 'emotional' ac unigryw: 'I've never had that job where you get that chill up your spine when someone gets something that you've done. It's really rewarding, it's exceptionally rewarding', fel y casglodd un athro.

"I teach because I want them to do well in life. . . . I teach because I want the children to be the best they can be." (Athro ysgol uwchradd)

- 6.7 Hefyd, roedd gwneud gwahaniaeth weithiau'n gymwys i elfennau mwy bugeiliol ymhlith athrawon mwy profiadol, fel sicrhau bod plentyn yn cael rhywbeth i'w fwyta amser brecwast neu weithio gyda rhieni i sicrhau bod plentyn yn mynychu'r ysgol.

Cymorth proffesiynol

- 6.8 Roedd ail thema gyffredin yn ymwneud â helpu i atgyfnerthu ymrwymadau i addysgu â chymorth, gan adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth. Roedd y thema hon yn gymwys i'r daith addysgu gyfan. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ac effaith **mentoriaid cefnogol** a staff ysgol ymhlith myfyrwyr AGA. Mynegodd rhai gryn werthfawrogiad o'r staff yn y Ganolfan oedd yn eu cefnogi. Dywedwyd bod staff yn gefnogol, yn anhygoel ac yn hygyrch hyd yn oed ar lefel uwch. Ategodd rhai aelodau o staff AGA hyn, gan gyfeirio at y ffordd y gallent fynd gam ymhellach er mwyn cefnogi myfyrwyr AGA.

"Mae'r [tiwtor Cymraeg] reit hands on efo fo. . . . Oedd hi fatha, 'Rywbeth ti eisiau fi checio. Rhwybeth ti eisiau fi... cynllun gwers a ballu, just gyrra fo i fi'. Ac mae hi yn gyrru pethau'n ôl, ac mae hi yn annog ni i yrru pethau i checio." (Myfyriwr AGA)

- 6.9 Yn yr un modd, roedd y rhinweddau roedd rhai myfyrwyr AGA yn eu cysylltu â mentoriaid cefnogol yn yr ysgol yn cynnwys staff hygyrch ac ysbrydoledig, oedd yn eich annog. Rhoddwyd cyngor ymarferol ganddynt, ac roeddent yn helpu myfyrwyr i

nodi ble y dylent ganolbwyntio eu hamser. Hefyd, ystyriwyd bod mentoriaid oedd yn helpu i gadw lefelau moral a hyder yr hyfforddai yn uchel yn bwysig wrth helpu unigolyn i gwblhau ei hyfforddiant pan allai fod yn ystyried rhoi'r ffidil yn y to. Gan dynnu sylw at brofiad arbennig o gadarnhaol, eglurodd myfyriwr AGA fod mentor dynodedig yn ei ysgol bresennol, lle'r oedd ar leoliad, a oedd yn amhrisiadwy.

- 6.10 Tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at y ffaith bod mentoriaid cefnogol yn hanfodol wrth eu helpu i gwblhau eu rhaglen **sefydlu ANG** yn llwyddiannus. Yr hyn oedd yn allweddol, yn ôl un cyfranogwr, oedd mentor a oedd yn ei sicrhau y byddai yno pan fo angen ond a oedd hefyd yn gadael i'r cyfranogwr fwrw ati, gan ddangos ffydd yn ei gallu. Hefyd, ystyriwyd bod cyfleoedd rheolaidd i ddal i fyny â'r mentor yn werthfawr, fel oedd cael mentoriaid yn yr ysgolion a oedd yn gymharol newydd i addysgu eu hunain. Golygai hyn fod y mentor yn glir iawn ynghylch yr hyn oedd yn ofynnol yn ystod y cyfnod sefydlu.

“I had a fantastic mentor because she had only just gone through the whole process herself. So she was very much aware of what needed to be done and when, what is being looked for. She was really fantastic.” (Athro ysgol uwchradd)

- 6.11 Weithiau, byddai cyfranogwyr yn nodi'r **cymorth llai ffurfiol** o'u hamgylch i'w helpu i gwblhau hyfforddiant a cham sefydlu ANG a pharhau i fod wedi'u cymell i addysgu. Cyfeiriodd rhai myfyrwyr AGA at y cymorth a gawsant gan gymheiriaid ac roeddent yn gwerthfawrogi unrhyw gyfle i siarad â'i gilydd. Gallent gymharu profiadau a rhannu problemau a syniadau. Eglurodd staff AGA mewn un Ganolfan fod myfyrwyr yn dychwelyd i'r Ganolfan unwaith yr wythnos am gymorth gan gymheiriaid ac i siarad â thiworiaid. Golygai'r system hon y gallai unrhyw broblemau neu broblemau posibl y gallai myfyriwr fod yn eu hwynebu gael eu datrys, yn amlach na pheidio, cyn iddynt fynd yn rhy fawr.

“We see the pressure they're under, we know we can change it for them, we can turn it around for them in one meeting, we can support them, we clarify, we help, we put things in place, we go to the wellbeing officer.” (Staff AGA)

- 6.12 Roedd teimlo'n rhan o **dîm cefnogol** o'r dechrau yn ffactor pwysig i rai cyfranogwyr wrth eu helpu i gwblhau eu cyfnod sefydlu ANG yn llwyddiannus. Roedd cymorth rhagweithiol gan staff yr ysgol o ran yr opsiynau hyfforddiant oedd ar gael yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn. Ymhlith yr enghreifftiau roedd: help i wella sgiliau

Cymraeg; sicrhau bod amser digyswllt ychwanegol neu amser ANG yn cael ei ddiogelu; a chael amser i arsylwi ar athrawon eraill pan fyddai'r ANG yn ei chael hi'n anodd. Weithiau, byddai cymorth anffurfiol gan gydweithwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal cymhelliant ANGau a'u hannog yn eu gwaith.

“Definitely the school we’re in, the staff [are helping me with my NQT induction]. I feel really supported here and I can go and talk to anyone. There’s the opportunity there to push yourself if you want to, but there’s also no expectation for you to go and do things that you don’t have to do this year.”
(Athro ysgol gynradd)

- 6.13 Yn yr un modd, nododd rhai athrawon cymwysedig fod **ysbryd tîm** a chydweithwyr cefnogol yn ffactorau a oedd yn eu helpu i barhau i fod wedi'u cymell i addysgu. Daeth hyn i'r amlwg hefyd yn yr arolwg ar-lein. Weithiau, roedd yn hynod bwysig pan fyddai ysgol neu gyfranogwr yn wynebu heriau. Gallai ysbryd tîm hefyd ddod i'r amlwg mewn perthynas â chyflawniadau disgyblion yn nosbarthiadau cydweithwyr: roedd yn achos dathlu i bawb pan fyddai disgybl yn gwneud yn dda. Cyfeiriwyd at gyfeillgarwch cryf a chystadleuaeth iach hefyd, er enghraifft ar ddiwrnod mabolgampau, cyfraddau presenoldeb uchaf ac ati, a oedd yn helpu i gynnal cymhelliant i addysgu. Hefyd, roedd rhai o'r farn ei bod hi'n rhoi cymhelliant iddynt gael tîm cefnogol a oedd yn gwrthbwysu'r hyn a allai fod yn ddiwrnod neu'n wythnos anodd yn yr ysgol i unigolyn.

“The real sense of belonging I think with [this school], with the relationships between teachers, and that’s a massive support network.” (Athro ysgol uwchradd)

- 6.14 Nodwyd bod **teimlo gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth** o waith da yn ffactorau a oedd, ym marn rhai cyfranogwyr, yn eu helpu i barhau i fod yn ymrwymedig i addysgu ac, i rai myfyrwyr AGA ac ANGau ar y cam sefydlu, roedd yn eu helpu i fagu hyder. Yn ystod hyfforddiant, cofiai rhai cyfranogwyr achosion lle'r oedd staff wedi cydnabod eu gwaith drwy eu canmol a dangos ymddiriedaeth ynddynt i gyflawni cyfrifoldebau addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Weithiau credwyd bod sefyllfaoedd o'r fath yn aros yn y cof fel adegau cymhellol, tyngedfennol.

“I had the class on my last practice, the teacher was sick, so they let me have the class as well. That was an amazing feeling.” (Athro ysgol gynradd)

- 6.15 I rai athrawon cymwysedig, roedd teimlo gwerthfawrogiad hefyd yn gysylltiedig â gwerthfawrogiad rhieni, cerdyn gan ddisgybl neu weld cyn-ddisgybl a wnaeth ddiolch i'r athro am yr hyn roedd wedi'i wneud drosto – roedd hyn oll yn helpu i atgyfnerthu'r cymhellion i barhau i addysgu. Mewn un lleoliad gwledig, nododd cyfranogwyr fod cydnabyddiaeth gan y gymuned leol yn gwneud yr holl ymdrech yn werth chweil. Nid oedd gwobr na chydabyddiaeth anariannol yn amlwg yn yr arolwg.
- 6.16 Wrth ddatblygu'r pwynt hwn, daeth **arweinyddiaeth dda** i'r amlwg ar brydiau ymhlith athrawon cymwysedig fel rheswm dros barhau i deimlo cymhelliant yn eu rolau. Yn ogystal â dangos i staff eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, roedd arweinydd da yn gysylltiedig â bod yn hawdd mynd ato, yn deg, yn gefnogol gyda phwysau, yn rhywun y gellid ymddiried ynddo, ac yn rhywun oedd yn croesawu newid. Rhoddwyd enghraifft o Bennaeth oedd yn gefnogol o staff â'u hanghenion teuluol eu hunain, fel bod staff yn teimlo y gallent gymryd amser i ffwrdd pan fo angen i ddelio â materion teuluol. Yn yr arolwg ar-lein, ni nodwyd arweinwyr ysgol cefnogol fel ffactor allweddol a oedd yn helpu i gadw cyfranogwyr yn addysgu ar hyn o bryd.

Adolygiad o lenyddiaeth: cymorth proffesiynol a diwylliant ysgol

- 6.17 Gan adlewyrchu'r themâu uchod, un o'r negeseuon allweddol o'r **adolygiad o lenyddiaeth** oedd bod diwylliant ysgol, gan gynnwys y ffordd y caiff ei harwain a phresenoldeb cydweithwyr cefnogol, ar y cyd â'r nodweddion unigol (yn arbennig anhunanoldeb ac ymdeimlad o genhadaeth) yn ffactorau allweddol a oedd yn annog athrawon i barhau i addysgu. Rhoddwyd pwyslais cryf ar yr angen i ddatblygu diwylliant o gymorth colegaid a oedd yn meithrin ac yn cynnal hunan-barch a hyder proffesiynol athrawon (Dias-Lacy a Guirguis, 2017, Krasnoff, 2014, Schaefer, 2012). Roedd hyn yn helpu i oresgyn y perygl y gallai ymdeimlad o ynyswch a hunan-amheuaeth fel arall ei feithrin (Hobson ac Ashby, 2012) ac roedd yn cynnig ffordd o feithrin gwydnwch athrawon oedd yn gymhelliant pwysig i bobl barhau i addysgu.
- 6.18 Roedd pwysigrwydd cymorth arweinwyr ysgolion a chydweithwyr eraill, a'r angen iddynt ymddiddori yn y gwaith o ddatblygu'r rheini ar ddechrau eu gyrfaedd yn ganolog i lwyddiant dulliau gweithredu o'r fath, yn ôl yr adolygiad o lenyddiaeth. Tynnodd y llenyddiaeth sylw at yr angen i aelod o uwch dîm arwain ysgol gael cyfrifoldeb cyffredinol am gefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr. Fodd bynnag,

roedd angen i'r cyfrifoldeb am feithrin cydweithwyr gael ei wreiddio yn ymarfer y rheini oedd yn gweithio ar bob lefel mewn ysgol, gan gynnwys rheolwyr canol yn ogystal ag uwch reolwyr (Scheifer, 2012, Beltman, 2011, Dias-Lacy a Guirguis, 2017).

- 6.19 Ar yr un pryd, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod meithrin **ymdeimlad o hunanreolaeth broffesiynol** drwy chwarae rhan ystyrlon mewn penderfyniadau hefyd yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniad athro i aros yn y proffesiwn (Krasnoff, 2014, Hobson ac Ashby, 2012). Roedd hyn yn gofyn i ysgolion feddu ar yr hyder i roi'r rhyddid i athrawon arbrofi ac ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr, yn amodol ar bwysu a mesur yn briodol. Dylai hyn fagu hyder mewn athrawon i fod yn arloesol o ran eu harfer proffesiynol.

Amrywiaeth y rôl

- 6.20 Gwnaeth rhai cyfranogwyr ansoddol, mewn ysgolion cynradd yn aml, bwysleisio'r mwynhad, yr amrywiaeth, yr hwyl a'r sbri oedd i'w cael o fod yn yr ystafell ddosbarth gyda'r plant, gan wybod nad oedd yr un diwrnod yr un fath. Nododd un athro lefel uwch mewn ysgol gynradd 'every day I have something that really makes me smile, makes me happy'.

Ffactorau eraill a nodwyd oedd yn helpu i gynnal ymrwymiad i addysgu

- 6.21 Daeth rhai ffactorau llai cyffredin i'r amlwg y credwyd eu bod yn cefnogi cymhelliant athrawon a myfyrwyr AGA i barhau i addysgu. Disgrifir y rhain isod.
- 6.22 Cyfeiriodd rhai myfyrwyr AGA at effaith gadarnhaol **profiad gwaith** a gafwyd mewn ysgolion cyn dechrau eu TAR. Teimlwyd bod y cam hwn yn helpu i'w paratoi ar gyfer yr hyn oedd o'u blaenau. Cyfeiriodd myfyrwyr AGA mewn un Ganolfan at yr hyfforddiant allanol a gafwyd mewn ysgol arloesi a fu'n ysbrydoledig¹⁰.
- 6.23 Hefyd, nododd staff AGA y ffactorau hyn a oedd yn helpu i annog a chynnal ymrwymiad myfyrwyr AGA i hyfforddi i addysgu:
- Mabwysiadu prosesau recriwtio llymach gan olygu na fyddai'r ymgeiswyr hynny oedd yn rhoi'r argraff nad oedd addysgu yn fawr o atyniad yn cael eu derbyn;

¹⁰ [Mae Ysgolion Arloesi yng Nghymru ynghlwm wrth helpu i ddatblygu cwrwllwm newydd Cymru.](#)

- Sicrhau bod myfyrwyr yn deall sut mae disgyblion yn dysgu;
- Sicrhau bod staff addysgu yn y Canolfannau yn gyfarwydd â natur feunyddiol ystafell ddosbarth mewn ysgol, yn ogystal â'r hyn sy'n ofynnol i hyfforddi athrawon;
- Cefnogi myfyrwyr gyda thasgau academiaidd gan fod rhai yn newydd i ysgrifennu academiaidd;
- Addysgu myfyrwyr sut i fod yn weithwyr proffesiynol hunangynhaliol.

- 6.24 Er gwaethaf yr uchod, cydnabuwyd o hyd ar adegau fod angen cryn dipyn o wydnwch, pendantrwydd a brwdfrydedd dros y swydd er mwyn cwblhau TAR a chyfnod sefydlu ANG yn llwyddiannus, a bod yn athro yn gyffredinol. Roedd gweld brwdfrydedd a sgiliau athrawon cymwysedig, yn ôl rhai myfyrwyr AGA, yn helpu i'w hysbrydoli ymhellach yn eu hyfforddiant, er enghraifft bod am efelychu'r berthynas roedd yr athro wedi'i datblygu gyda'r disgyblion.
- 6.25 Pwysleisiodd y **llenyddiaeth a archwiliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon** bwysigrwydd gwaith paratoi AGA effeithiol ar gyfer addysgu a oedd yn sicrhau bod ymarferwyr yn barod ar gyfer gofynion y rôl. Roedd angen i AGA baratoi newydd-ddyfodiaid ar gyfer agweddau allweddol ar y rôl, yn enwedig rheoli'r ystafell ddosbarth (fel cydnabod cyflawniad dysgwr, helpu dysgwyr i aros ar y trywydd iawn, addasu gweithgareddau ystafell ddosbarth er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ac ymateb i'w diddordebau) a chreu awyrgylch cadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth (Cochran-Smith, 2010, Ingersoll, 2012, Dias-Lacy a Guirguis, 2017).
- 6.26 Fodd bynnag, roedd cryn dipyn o'r llenyddiaeth ar y pwnc hwn â chyd-destun penodol UDA lle mae'r trefniadau ar gyfer paratoi athrawon yn gychwynnol yn wahanol i'r rheini yng Nghymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. At hynny, roedd y math o ddulliau gweithredu a gefnogwyd yn yr astudiaethau hynny fel dulliau amgen i'r heriau a nodwyd yn UDA yn aml yn arferion sydd wedi'u hymgorffori (neu sy'n cael eu hymgorffori) o fewn AGA yng Nghymru.

Barn cyfranogwyr ar dâl ac amodau a chymhellion i barhau i addysgu

- 6.27 Nododd rhai cyfranogwyr ansoddol eu bod o'r farn bod yr amodau yn unigryw o ran cael yr hyblygrwydd i ofalu am eu plant eu hunain yn ystod **gwyliau** ysgol. Roedd y lwfans gwyliau i athrawon yn eithaf pwysig i rai â theuluoedd ac eraill o ran eu

galluogi i 'survive and have a break'. Mewn un enghraifft, soniodd rhiant fod y sefyllfa wyliau yn fwy buddiol iddi hi a'r teulu na'i rôl flaenorol yn y sector ariannol. Yn yr un modd, cafwyd achosion lle na allai rhieni ddychmygu bywyd heb wyliau ysgol, o safbwynt gofal plant.

"I think that's what keeps me in it now, actually, because my husband's job is really inflexible. So as much as I've thought I've had enough [of teaching] – sorry – it's being able to be there for my children and work fitting around the kids." (Athro ysgol uwchradd)

- 6.28 Fel rheol, ni chawsai **tâl athrawon** ei grybwyll yn ddigymell pan oedd cyfranogwyr yn siarad am y prif ffactorau oedd yn eu cadw ym maes addysgu. Rhoddodd rhai'r argraff fod tâl yn bwysig i allu talu'r biliau ond y gallai fod hyd yn oed yn bwysicach wrth i unigolyn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb mewn bywyd, fel teulu a morgais. Roedd hefyd yn dod yn fwy o ffactor, teimlai rhai, wrth iddynt gyrraedd diwedd eu gyrfa gyda'r cyfle i gael pensiwn gweddol. Cafwyd ambell achos lle gwnaeth athrawon lefel uwch gydnabod iddynt aros yn y proffesiwn yn bennaf oherwydd y tâl gyda'u hymddeoliad ar y gorwel, am fod materion llwyth gwaith wedi mynd yn drech na nhw: 'It's the reason I'm still in the job' dywedodd un athro ysgol gynradd. Hefyd, cafodd cystadleurwydd tâl athrawon ei gydnabod ymhlith rhai athrawon yn un o'r ardaloedd mwy gwledig yn yr ymchwil oherwydd credwyd bod y tâl yn cymharu'n ffafriol ag opsiynau eraill yn lleol. Fodd bynnag, nid oedd tâl bob amser yn cael ei ystyried yn adlewyrchiad teg o'r holl waith a wnaed.

"Because of how passionate I am about teaching, I don't think about the money. I don't think about it. . . . I do that Head of Year job not for the money, it's for the children." (Athro ysgol uwchradd)

"Fi wastad yn meddwl, yn yr ardal ni'n gweithio... mae'n gyflog da really os ti yn rhoi o mewn persbectif." (Athro ysgol gynradd)


Canlyniadau'r arolwg ar-lein ar gyfer aros yn y proffesiwn

- 6.29 Yn yr arolwg gofynnwyd i'r rheini oedd yn gweithio fel athrawon ar hyn o bryd pa ffactorau oedd yn eu cadw ym maes addysgu. Gan fyfyrion ar yr hyn a wnaeth eu cymhell i addysgu, y prif ffactorau a ddewiswyd oedd 'Addysgu a gweld dysgwyr yn symud yn eu blaenau' a 'Gwneud gwahaniaeth', a ddewiswyd fel un o'u tri phrif

ffactor gan 58 y cant a 41 y cant o'r athrawon a gymerodd ran yn y drefn honno¹¹. Cafodd Cydweithwyr (a ddewiswyd gan 33 y cant), Brwdfrydedd dros fy mhwc (28 y cant), Diogelwch swydd (27 y cant ond heb fod yn amlwg yn y canfyddiadau ansoddol) ac Amrywiaeth y rôl (24 y cant) eu crybwyll hefyd gan gyfrannau gweddol fawr o'r ymatebwyr. Roedd 'Tâl ac amodau' yn gymharol isel i lawr y rhestr, gyda 17 y cant yn crybwyll hynny'n gyffredinol.

6.30 Yn llai cadarnhaol, dewisodd 23 y cant 'Ddim yn gymwys i wneud unrhyw beth arall'. Cynyddodd y ffigur hwn i 27 y cant ar gyfer y rheini ar gontractau cyfnod penodol a 31 y cant o athrawon cyflenwi; roedd y grwpiau hyn yn llai bodlon na'r rheini ar gontractau parhaol ag addysgu yn gyffredinol.

6.31 **Ffigur 2: Pa ffactorau sy'n eich cadw chi ym maes addysgu? - lle rhoddwyd dewis (Y ganran a roddodd pob ymateb)**



Sylfaen: Y rheini sy'n addysgu ar hyn o bryd (1,757)

6.32 Fel eu cymhellion i ddewis addysgu, roedd athrawon ysgol gynradd yn fwy tebygol nag athrawon ysgol uwchradd i nodi 'addysgu a gweld dysgwyr yn symud yn eu blaenau' a 'gwneud gwahaniaeth' fel ffactorau a oedd yn eu cadw ym maes addysgu. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod 'Ddim yn

¹¹ Cafwyd canfyddiadau tebyg yn [Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol CGA \(Ebrill 2017\)](#): nodwyd 'addysgu/cynorthwyo dysgwyr a'u gweld yn datblygu' gryn dipyn gan holl grwpiau'r arolwg, fel 'gweithio gyda phobl eraill'. Dylid nodi, fodd bynnag, i'r arolwg hwn ddefnyddio proses samplu wahanol.

gymwys i wneud unrhyw beth arall'. Roedd Brwdfrydedd dros fy mhwnc unwaith eto'n llawer mwy amlwg ymhlith athrawon ysgol uwchradd nag athrawon ysgol gynradd fel ffactor oedd yn eu cadw yn y proffesiwn.

- 6.33 Er i 'Diogelwch swydd' gael ei grybwyll fel un o'r tri phrif ffactor gan 31 y cant o athrawon ar gontractau parhaol, roedd yn llawer is i'r rheini ar gontractau cyfnod penodol a chontractau cyflenwi (sef 5 a 6 y cant yn y drefn honno).
- 6.34 Fel rhesymau dros fod yn athro, roedd Tâl ac amodau yn bwysicach i'r rheini oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf na'r rheini oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, a ddewiswyd gan 27 y cant o'r grŵp cyntaf fel ffactor oedd yn eu cadw ym maes addysgu o gymharu ag 16 y cant o'r grŵp olaf. Roedd y rheini oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf hefyd yn fwy tebygol o nodi Diogelwch Swydd (32 y cant o gymharu â 26 y cant).

Profiadau o'r Gymraeg ymhlith myfyrwyr AGA

- 6.35 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio ffactorau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a allai effeithio ar gyfraddau cadw ymhlith myfyrwyr AGA. Mae'n bwysig nodi'r sampl fach o fyfyrwyr AGA sy'n astudio ac yn hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, felly dylid trin y canfyddiadau'n ofalus.

Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a phrofiadau cysylltiedig

- 6.36 Roedd bron pob myfyriwr AGA oedd yn siarad Cymraeg wedi dewis derbyn ei hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y cyfranogwyr hyn o'r farn bod y penderfyniad hwn i hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud synnwyr, ar ôl derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd y rhan fwyaf wedi cwblhau eu graddau cyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, credwyd hefyd y byddai **mwy o gyfleoedd gwaith** gyda'r Gymraeg. Rhannwyd y farn hon gan rai ar gam sefydlu ANG a oedd wedi cwblhau eu TAR drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.37 Ar y cyfan roedd y myfyrwyr AGA hynny oedd yn astudio i addysgu yn Gymraeg yn **fodlon ar eu profiadau hyd yn hyn**. Cyfeiriwyd at elfennau yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg gydag ond tri siaradwr Cymraeg ar y cwrs. Mewn

enghraifft arall, roedd cyfranogwr wedi gwerthfawrogi'r ffaith bod darlithydd wedi ymdrech i gyflwyno'r ddarlith ac ateb cwestiynau'r myfyrwyr yn ddwyieithog.

“[Roedd y darlithydd] yn grêt hefo hynna, lle mae hi'n deud pethau yn Saesneg, ac wedyn 'neith hi ddeud o yn Gymraeg hefyd. Er bod ni i gyd yn gallu deall Saesneg a 'san ni ddigon hawdd yn gallu 'neud y ddarlith yn Saesneg. Ac wedyn, os mae rhywun yn gofyn rhywbeth yn Saesneg, mae hi'n mynd i'r ymdrech i ateb ni yn y Gymraeg. Ac mae hynna'n neis.” (Myfyriwr AGA)

- 6.38 Gwnaeth y rheini oedd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac athrawon oedd newydd gymhwyso a wnaeth gwblhau eu gradd neu gwrs TAR drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd sôn yn ffafriol am y dosbarthiadau llai o faint a gafwyd wrth astudio. Yn achos darlithoedd trawsgwricwlaidd neu addysg gyffredinol, cyfeiriodd y cyfranogwyr at grŵp Cymraeg lle gallai'r siaradwyr Cymraeg ddod ynghyd. Roedd y trafodaethau grŵp hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac roeddent yn teimlo'n fwy fel tiwtorial na darlith oherwydd y niferoedd bach oedd dan sylw. Ar un cwrs STEM dywedodd y cyfranogwyr ei bod hi bron fel cael cymorth un-i-un am fod cyn lleied ohonynt ar y cwrs.
- 6.39 Hefyd **ni** wnaeth myfyrwyr AGA oedd yn siarad Cymraeg **leisio unrhyw bryderon** am fynd ymlaen i addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, er iddynt gael rhai darlithoedd yn Saesneg. Yn wir, ystyriwyd bod profi cymysgedd o ddarlithoedd Cymraeg a Saesneg yn fuddiol ar adegau am fod hyn yn galluogi'r myfyrwyr i ryngweithio â'r rheini ar leoliad mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a rhannu profiadau. Hefyd, roedd yr hyblygrwydd i allu cwblhau aseiniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn cael ei werthfawrogi gan rai. Yn llai cadarnhaol, nododd cyfranogwr fod ei aseiniadau Cymraeg yn cael eu marcio gan unigolyn heb unrhyw gefndir yn ei bwnc. Felly, nid oedd yn siŵr pa mor deg oedd hyn.

“I've always known the Maths terms in Welsh, so it doesn't affect me at all [receiving some lectures in English]. It's more of the how to teach it side [of things].” (Myfyriwr AGA)

- 6.40 Roedd cymorth hefyd wedi bod ar gael i wella eu sgiliau Cymraeg. Er hynny, nododd rhai eu bod wedi datblygu eu sgiliau unwaith iddynt ddechrau addysgu ar leoliad.

- 6.41 Er gwaethaf y profiadau cadarnhaol a nodir uchod, roedd ambell achos lle'r oedd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn teimlo dan anfantais o gymharu â'u cyd-fyfyrwyr cyfrwng Saesneg am eu bod yn **tybio bod eu llwyth gwaith yn drymach**. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd credu eu bod yn cael mwy o aseiniadau nag eraill i'w cwblhau, mwy o arholiadau ac y byddent yn cael eu hasesu yn yr ystafell ddosbarth o safbwynt y Gymraeg yn ogystal â chynnwys y pwnc¹². Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd eu bod yn cael mwy o gymhelliant ariannol na rhai eraill am wneud y cwrs yn Gymraeg.

“Oherwydd ‘naeth o’m rili croesi meddwl fi i ‘neud dim byd yn Saesneg, oedd o’n Gymraeg. Ond wedyn, o’n i’n mwynhau'r . . . wel, o’n i’n mynd i’r gwersi wythnosol gwella Cymraeg, ond do’n i ddim yn ymwybodol o’r ffaith bod ‘na waith ychwanegol ynglŷn â hynna ‘lly. Ac mae ‘na arholiad ar y diwedd. Ac mae hynna’n lot o waith wedyn ar ben yr aseiniadau ‘sgen ti’n barod a bob dim fel’na.” (Myfyriwr AGA)

Y Gymraeg: profiadau hyfforddi myfyrwyr AGA di-Gymraeg

- 6.42 Rhoddodd myfyrwyr AGA a oedd yn hyfforddi i addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg farn gymysg ar y gofyniad i ddefnyddio Cymraeg achlysurol yn yr ystafell ddosbarth. Nodwyd eu bod, ar y cyfan, yn fodlon cael gwersi Cymraeg a oedd yn rhan o'u hyfforddiant.
- 6.43 Fodd bynnag, nid oedd rhai yn meddwl ei bod yn briodol defnyddio Cymraeg mewn gwersi ar gyfer rhai pynciau fel Saesneg neu ieithoedd tramor modern, gydag un cyfranogwr yn nodi bod disgyblion weithiau'n cymysgu'r iaith dramor oedd yn cael ei haddysgu gyda geiriau Cymraeg. Hefyd, nid oedd nod cyffredinol defnyddio Cymraeg achlysurol bob amser yn gwbl glir i gyfranogwyr.
- 6.44 Felly, weithiau, ystyriwyd bod dysgu a defnyddio Cymraeg achlysurol yn ymarfer blwch ticio. Gallai'r farn hon, mewn rhai sefyllfaoedd, gael ei hatgyfnerthu gan brofiadau myfyrwyr yn ystod eu lleoliadau mewn ysgolion. Weithiau byddai myfyrwyr yn nodi eu bod yn credu bod gwahanol ysgolion yn ymdrin â'r Gymraeg yn wahanol, ac felly roedd y neges a'r nodau o ran y Gymraeg i'w gweld yn anghyson.

¹² Mae myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cymryd rhan yn y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg (WMIS) a ddisgrifir yn fanylach yn yr [adroddiad gwerthuso hwn](#).

“My first placement, I remember one of my notes after my first lesson, was like ‘use incidental Welsh,’ okay, good, awesome, perfectly happy to do that, went on, did it, got really into it, and then second placement I was told not to use Welsh in the lesson. So I think there’s a huge disconnect with how each school deals with Welsh. And I think by extension then, they didn’t know how to handle teaching us Welsh in university.” (Myfyriwr AGA)

- 6.45 Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gyda'r Gymraeg. Roeddent yn ymwybodol o seminarau mwy rheolaidd ar gyfer myfyrwyr heb fawr ddim Cymraeg; ac roedd y rhain wedi bod yn ddefnyddiol, yn ôl rhai. Roedd sesiynau hefyd ar gael i fyfyrwyr â sgiliau Cymraeg mwy datblygedig. Nid oedd cyfranogwyr yn poeni rhyw lawer am ddefnyddio Cymraeg mewn ysgol gynradd.

“I’ve had to rely on the [Welsh language] seminars that we’ve had here which have been great and the resources are all good and the assessments are pitched at a level; at the beginning there is a Welsh assessment for English language students and then you are pitched in the right level seminar group for Welsh.” (Myfyriwr AGA)

- 6.46 Fodd bynnag, teimlwyd weithiau nad oedd cyrsiau i helpu i wella sgiliau Cymraeg o reidwydd yn gwneud i fyfyrwr deimlo y gallai drosglwyddo'r wybodaeth honno wedyn yn effeithiol iawn i ddisgyblion di-Gymraeg.

Cadw athrawon a'r cwricwlwm newydd i Gymru

- 6.47 Yn gyffredinol, nid oedd y cwricwlwm newydd i Gymru yn dueddol o gael ei grybwyll yn ddigymell pan fyddai cyfranogwyr yn trafod cadw athrawon. O'u cymell, cafodd egwyddor diwygio'r cwricwlwm ei chroesawu gan rai cyfranogwyr. Credai rhai ei fod yn cynnwys barn athrawon yn fwy, yn canolbwyntio'n fwy ar y disgybl, yn ddatblygiad cyffrous ac yn ffordd bosibl o ddenu unigolion i'r proffesiwn.
- 6.48 Fodd bynnag, cafwyd peth pryder ymhlith athrawon ynghylch y cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd ansicrwydd ynghylch y dyfodol, sut y byddai'n edrych, sut y byddai'n cael ei weithredu, beth fyddai'n ei gostio a beth fyddai ei effaith ar lwyth gwaith presennol a buddsoddi mewn hyfforddiant. Hefyd codwyd ambell bryder na fyddai'r diwygiad yn para ac y byddai newidiadau pellach yn ei

ddilyn, gydag un rhanddeiliad yn gwneud cymhariaeth rhwng y gwaith diwygio a 'political football'.

Ffactorau a all beri ansicrwydd ynghylch parhau i addysgu

- 6.49 Tynnwyd sylw at amrywiaeth o faterion a allai gael effaith andwyol ar gyfraddau cadw, gyda **llwyth gwaith** a phwysau cysylltiedig yn brif thema yn yr ymchwil ansoddol a'r arolwg ar-lein. Roedd straen hefyd yn thema amlwg yn yr arolwg ar-lein. Daeth lefelau anghyson o **gymorth**, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr AGA a'r rhai oedd ar gam sefydlu ANG, i'r amlwg fel thema hefyd.
- 6.50 Cadarnhaodd adborth gan gyfranogwyr oedd wedi gadael y proffesiwn neu a oedd yn ystyried gwneud hynny o ddifrif fod llwyth gwaith a'r straen cysylltiedig yn rhesymau dros adael. Hefyd, gallai cyfuniad o sawl ffactor chwarae rhan ym mhenderfyniad un person i adael addysgu. Roedd rhai o'r ffactorau hyn yn codi ar lefel leol, fel materion arwain a diffyg cymorth gan **uwch arweinwyr** neu teimlo **na ellid gofyn am help**. Roedd hefyd enghreifftiau fan hyn a fan draw o ffactorau a wnaeth ddenu cyfranogwyr o gyfeiriad addysgu: y syniad o rôl â llai o straen a mwy o gyflog; a gwireddu uchelgais bywyd a rhedeg eich busnes eich hun. Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau eraill a gyfrannodd at adael roedd: colli ffydd yn y system addysg yn gyffredinol; ddim digon o ymreolaeth yn yr ystafell ddosbarth; rheoli ymddygiad disgyblion; ac ymrwymïadau teuluol cynyddol yn ei gwneud hi'n anodd rheoli cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- 6.51 Mae'r adroddiad nawr yn trafod themâu llwyth gwaith a chymorth, a ddilynir gan yr amrywiaeth o ffactorau ychwanegol a nodwyd.

Llwyth gwaith a phwysau

- 6.52 Cyfeiriodd cyfranogwyr ar draws yr ymchwil yn aml at llwyth gwaith fel rheswm dros fod yn ansicr ynghylch parhau i addysgu neu hyfforddi i addysgu. Mae'r adran hon yn ystyried beth roedd hyn yn ei olygu i fyfyrwyr AGA, ANGau ar y cam sefydlu ac athrawon cymwysedig. Hefyd, ystyrir barn rhanddeiliaid pan oeddent yn myfyrio ar yr un themâu.
- 6.53 Nododd rhai **myfyrwyr AGA** y gallai'r llwyth gwaith yn ystod eu TAR eu gorlethu drwy'r cyfuniad o waith theori, gofynion lleoliadau mewn ysgol a'r terfynau amser

tynn i gwblhau tasgau. Roedd athrawon cymwysedig a gofiai'r cyfnod hwn yn eu gyrfa yn aml yn cytuno. Ystyriwyd bod ymrwymïadau teuluol wrth hyfforddi yn heriol iawn ac yn achos cwestiynu p'un a ddylid aros yn y proffesiwn.

"It is so full-on. It's the hardest thing I think any of us have ever done in our life." (Myfyriwr AGA)

- 6.54 Rhoddodd rhai myfyrwyr AGA presennol enghreifftiau penodol o'r tasgau a gyfrannodd at yr anhawster a gafwyd yn rheoli llwyth gwaith. Yn eu plith roedd marcio, cwblhau cynlluniau gwersi, casglu tystiolaeth a gwerthuso gwersi, gyda'r angen i werthuso pob gwers yn cael ei gwestiynau gan un myfyriwr hefyd. Ymhellach, nodwyd bod yr angen parhaus i gwblhau Proffiliau Datblygu Proffesiynol (PDPau) yn 'ridiculous' gan un myfyriwr AGA ac 'the most pointless exercise ever'. Yn wir, gwnaeth gyfaddef nad oedd yn bwriadu parhau i gam sefydlu ANG ond y byddai'n aros tan y diwedd er mwyn sicrhau ei fod yn cael y cymhelliant terfynol. Nid oedd rhagolygon llwyth gwaith, ticio blychau a disgwyl cael fawr ddim ymreolaeth ar y cam sefydlu ANG yn apelio. Byddai symud i sector arall, ychwanegodd, hefyd yn golygu cyflog cychwynnol mwy deniadol.

"A dwi'n meddwl, dwi 'di treulio oriau ar y ffeil [tystiolaeth] 'ma, a 'dach chi'm hyd yn oed mynd i sbŷo arno fo." (Myfyriwr AGA)

- 6.55 Mynegodd rhai myfyrwyr AGA fod dwyster cyffredinol y flwyddyn TAR yn rheswm dros weld cyfoedion yn gadael y cwrs. Cafwyd achosion, wrth edrych ymlaen, lle holodd cyfranogwyr p'un a fyddai ganddynt ddigon o amser i gynllunio eu gwersi unwaith y byddent yn athrawon cymwysedig. Roedd rhai ychydig yn bryderus nad oedd ganddynt syniad clir eto o'r hyn fyddai cam sefydlu ANG yn ei olygu. Cafwyd un enghraifft o fyfyrwyr mewn un drafodaeth ddim yn deall yn llawn pam eu bod wedi cael pob math o godau ac e-byst gan CGA mewn perthynas â chymhwyso fel athrawon a defnyddio adnoddau ar-lein.
- 6.56 Gwnaeth yr **aseiniadau ysgrifenedig** roedd angen i fyfyrwyr eu cwblhau ar gyfer y Canolfannau AGA yn ystod y flwyddyn TAR esgor ar safbwyntiau cymysg o ran eu hansawdd ac weithiau eu gwerth, o ystyried pa mor heriol oedd y flwyddyn. I rai, ystyriwyd bod y gwaith yn ddefnyddiol iawn i ddarparu theori berthnasol er mwyn cefnogi gwaith ymarferol a dysgu'r myfyrwyr.

“I do feel like one they relate really well to what we do, and two, if you do have a poorer level of grammar or whatever, they help you set that standard because at the end of the day we are teachers.” (Myfyriwr AGA)

- 6.57 Roedd yr aseiniadau yn llai gwerthfawr i rai myfyrwyr, ac ni ellid gweld sut roeddent yn helpu i lywio eu gwaith ymarferol fel athrawon dan hyfforddiant. Weithiau nodwyd mai mater o dicio blychau oedd yr aseiniadau, yn hytrach na bod o werth gwirioneddol. Credai eraill ei bod hi'n bwysig meddu ar y dysgu damcaniaethol er mwyn eu helpu gyda'u haddysgu, ond cwestiynwyd yr angen am aseiniadau mor helaeth, o ystyried pa mor ddwys oedd y flwyddyn TAR yn gyffredinol. Yn yr un modd, roedd athro mewn un ysgol uwchradd yn ymwybodol o athro dan hyfforddiant yn yr ysgol oedd yn poeni'n ofnadwy am aseiniadau, ar draul paratoi'n effeithiol ar gyfer ymarfer dysgu a oedd yn dechrau dioddef.

“I can see a little bit of a link between what we're doing and what we're teaching, but I don't think I need to write six thousand words on it.” (Myfyriwr AGA)

- 6.58 Gwnaeth rhai aelodau o staff AGA hefyd nodi llwyth gwaith a phwysau'r cwrs TAR fel ffactorau a allai wneud i fyfyrwyr ystyried gadael y cwrs. Mewn un grŵp, nododd staff AGA fod y diwylliant o atebolrwydd mewn ysgolion yn agwedd a gyfrannai at y pwysau a'r straen y gallai myfyrwyr eu hwynebu. Hefyd, cyfeiriwyd at farcio, canlyniadau arholiad, elfennau allgyrsiol a newidiadau cyflym i fanylebau pynciau fel ffactorau a oedd yn ychwanegu at y pwysau hyn. Credai rhai aelodau o staff AGA fod hyd y TAR yn gwbl addas i rai myfyrwyr ond yn llai addas i eraill a allai gael budd o fwy o hyfforddiant a phrofiad cyn cymhwyso. Weithiau teimlai staff AGA eu bod wedi addysgu myfyrwyr â photensial gwirioneddol ac a fyddai wedi cael budd o gyfnod addysg ychydig yn hirach.

- 6.59 Ymhlith myfyrwyr AGA, roedd achosion lle daethant **ar draws athrawon dan bwysau ar leoliad** a wnaeth iddynt gwestiynu eu dyfodol posibl. Yn ôl un cyfranogwr a wnaeth adael y proffesiwn yn 2018 ar ôl cwblhau ei gyfnod sefydlu ANG, gwnaeth dod ar draws staff lefel uwch yn yr ysgol uwchradd lle'r oedd ar leoliad a oedd yn negyddol am y proffesiwn ac yn ymddangos dan bwysau gyfrannu at ei benderfyniad i adael. Nid oedd am weld ei hun mewn sefyllfa debyg yn ddiweddarach yn ei yrfa. Gan adeiladu ar y pwynt hwn, nododd un Ganolfan AGA ei

bod yn gwybod am fyfyrwyr a oedd wedi gadael y cwrs am eu bod wedi gweld y straen oedd ar athrawon.

“What I noticed [on placement] is that a lot of the more experienced staff were extremely stressed, and you know, some were quite open about their mental health status as well and I just thought oh my goodness, this does not get easier. I don’t want to be in a job where I’m trapped because I can’t move financially but I hate it and I was really concerned that I’m going to end up middle aged in a job doing millions of hours and feeling as worn down.” (Wedi rhoi'r gorau i addysgu mewn ysgol uwchradd yn y flwyddyn ddiwethaf)

- 6.60 Weithiau cododd myfyrwyr AGA bryderon am effaith addysgu ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Yn ôl rhai aelodau o staff AGA, gallai myfyrwyr nad oeddent wedi paratoi digon cyn dechrau hyfforddi ar gyfer yr hyn fyddai'r cwrs ac addysgu yn ei olygu, er enghraifft heb gael unrhyw brofiad yn yr ystafell ddosbarth ymlaen llaw, benderfynu gadael y broses o ganlyniad.
- 6.61 Gwnaeth aelod o staff mewn un Ganolfan gyfaddef ei fod weithiau'n teimlo'n euog yn anfon myfyrwyr i mewn i'r hyn a allai fod yn amgylcheddau anodd iawn. Hefyd, yn ôl staff AGA mewn un drafodaeth, credwyd bod problemau iechyd meddwl ar gynydd drwy gyfuniad o ofynion lleoliadau a bodloni gofynion academiaidd. Roedd y staff hyn yn bwriadu ymchwilio i raddau'r broblem iechyd meddwl hon ymhlith eu myfyrwyr. Fodd bynnag, credwyd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig ag atebolrwydd drwy ei diwygiadau.
- 6.62 Mewn ymgais i ragdybio'r sefyllfaoedd hyn lle'r oedd myfyrwyr yn amau p'un a ddylid parhau â'r cwrs, eglurodd staff Canolfan AGA sut roeddent yn gweithio'n agos gydag ysgolion er mwyn nodi problemau posibl cyn gynted â phosibl. Credwyd bod llawer o fyfyrwyr wedi cael eu dal a'u cefnogi yn y ffordd hon, gan eu hatal rhag gadael. Fodd bynnag, gwnaeth grŵp arall o staff y pwynt hefyd fod yn rhaid i'r Canolfannau AGA barhau i weithredu fel 'gatekeepers' a pheidio â rhoi 'rubber-stamp' o ran sicrhau bod y myfyrwyr cywir yn dod yn athrawon.
- 6.63 Weithiau roedd y **cyfnod sefydlu ANG** a ddilynai'r TAR yn cael ei gysylltu â phwysau llwyth gwaith ac yn rheswm i ystyried p'un a ddylid parhau i addysgu ai peidio. Cyfeiriwyd at ddechrau'n gynnar iawn yn y bore a gorffen yn hwyr iawn gyda'r nos wrth ymdopi â'r llwyth gwaith, wedi'i gyfuno â phwysau bod yn yr ystafell

ddosbarth. Ni allai'r syniad o gael unrhyw gyfrifoldebau eraill y tu allan i'r gwaith ar yr un pryd, fel rhai teuluol, gael eu hystyried hyd yn oed yn ôl un athro.

- 6.64 I ddangos hyn, nododd un cyfranogwr ANG ar y cam sefydlu ei fod, yn ystod addysg athrawon, wedi teimlo cryn gefnogaeth ac wedi cael adborth cadarnhaol ar ei ymdrechion yn rheolaidd. Fodd bynnag, fel ANG ar y cam sefydlu, teimlai'n anodd iawn heb y gefnogaeth ddyddiol roedd wedi'i chael y flwyddyn flaenorol, er bod yr ysgol yn ei chyfanrwydd yn teimlo'n gefnogol. Roeddd y gwahaniaeth â TAR yn sylweddol. Dywedodd fod y rhestr o bethau i'w gwneud yn ddi-derfyn. Heb gefnogaeth ei bartner oedd yn athro profiadol, nid oedd y cyfranogwr hwn yn siŵr a fyddai'n dal i addysgu. Aeth ymlaen i ddatgelu ei fod yn ystyried gadael oherwydd materion llwyth gwaith ar y cam sefydlu ANG.
- 6.65 Yn ystod un grŵp ffocws gydag athrawon, cyfeiriodd ANG arall ar y cam sefydlu at ffeil fawr roedd wedi'i llunio fel gofyniad o ran tystiolaeth – nododd mai edrych arni'n gyflym a wnaed fel rhan o'r broses ond ei bod wedi cymryd llawer o amser i'w llunio. Nid oedd yr athro hwn yn teimlo bod fawr o ymddiriedaeth ynddo oherwydd y pwyslais hwn ar dystiolaeth.
- 6.66 Gan roi enghraifft arall o'r heriau a wynebwyd gan y rheini ar gam sefydlu ANG, cyfeiriodd rhai athrawon mewn un grŵp o athrawon ysgol uwchradd at yr hyn a oedd yn dasg feichus a wynebwyd ar gam sefydlu ANG gyda'r safonau newydd i athrawon. Credwyd bod y system yn ychwanegu at y pwysau roedd ANGau yn eu hwynebu oherwydd yr amser a gymerwyd i lanlwytho'r dystiolaeth a hefyd yr anawsterau a brofwyd wrth 'trying to find evidence for something that isn't in place', hynny yw, y cwricwlwm newydd. Daeth un cyfranogwr i'r casgliad bod yr amser oedd ei angen i lanlwytho 'all of this evidence just doesn't exist, this magic time to do it'.
- 6.67 O safbwynt **athrawon cymwysedig**, roedd llwyth gwaith hefyd yn brif ffactor a allai wneud i athrawon ystyried gadael y proffesiwn ar wahanol adegau yn ystod eu gyrfa. Yn ôl rhai, gallai absenoldeb staff, dyletswyddau teuluol a diffyg cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wneud y broblem yn fwy aciwt. Nododd rhai eu bod yn teimlo bod llwyth gwaith wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd ac nad oedd digon o amser i gyflawni'r holl ymrwymadau yn yr ysgol yn ddigonol. Wrth sôn am athrawon, nododd un athro ysgol uwchradd eu bod yn 'expected to do more in less

time and it is just constant, things are never taken away, there are always things added onto your job’.

- 6.68 Gwnaeth y rhai nad oeddent yn addysgu mewn ysgolion mwyach gyfeirio'n rheolaidd at lwyth gwaith fel ffactor a wnaeth gyfrannu at eu penderfyniad i adael y proffesiwn. Er hynny, roeddent yn dal i weld eisiau'r amser roeddent yn ei dreulio yn addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

“I’m leaving teaching at the end of this academic year. . . . I’ve got a new job . . . going to go and have my evenings and my weekends back. . . . I have pretty much spent the entire [half-term] working but I also work every evening and most of my weekend, and I just was like I don’t want to live like this anymore. . . . I love being in the classroom, I absolutely love teaching.” (Rhoi'r gorau i addysgu yn yr ysgol gynradd eleni)

- 6.69 Mae'r adroddiad nawr yn rhoi enghreifftiau o'r hyn oedd gan athrawon mewn golwg wrth gyfeirio at lwyth gwaith.

- 6.70 Cyfeiriwyd at **gasglu data** ar ddisgyblion unigol, **atebolrwydd**, monitro, bod â digon o amser i bennu targedau unigol ar gyfer plant, llwybrau papur, 'targedau' yn gysylltiedig â Phrofion Cenedlaethol mewn ysgolion cynradd a phwysau ennill graddau A-C mewn ysgol uwchradd. Roedd yn ymddangos bod casglu data ac atebolrwydd yn cynyddu fwyfwy ym marn rhai cyfranogwyr ar draul sicrhau bod addysg yn llawn mwynhad ac yn ddiddorol i ddisgyblion. Gwnaeth un gyn-athrawes ysgol gynradd grynhoi'r ffordd y gwnaeth sylweddoli 'this isn't what I signed up to do. . . . it's not about the fun and the kids anymore and watching them have that light bulb moment and achieve. They are just data'. Hefyd cwestiynwyd gwerth y data ar brydiau.

“I’m currently filling in a report with a mark sheet with 21 columns. I have to give a Key Stage 3 predicted level in Year 7 and 8 in every term. So, that enables the tracking apparently. I am weighing the baby so often, I never feed it. . . . [There's] current level, predicted level, and a target level. I’m filling in a mark sheet in Key Stage 3 that has got a current oracy level, current reading level, current writing level, current overall level, and then an end of Key Stage predicted level.” (Rhoi'r gorau i addysgu yn yr ysgol uwchradd eleni)

- 6.71 Nododd rhai athrawon **nad oeddent yn teimlo bod fawr ddim ymddiriedaeth ynddynt** i wneud eu gwaith oherwydd y systemau atebolrwydd a monitro oedd ar

waith. Roedd yr ymdeimlad o orfod cyfiawnhau eu gwaith a'u canlyniadau yn ychwanegu at deimlo bod diffyg ymddiriedaeth mewn athrawon. Yn ôl cyn-athro ysgol uwchradd roedd y sefyllfa ganfyddedig hon 'never feels like you're working in partnership, it always feels like you're being inspected'.

"It just gets a lot trying to track 30 students on every single thing they are doing. And that pressure of have I missed something, am I affecting their learning because I haven't written this one thing down. . . . It's a lot of pressure on teachers and I think that's the main reason why I left." (Wedi rhoi'r gorau i addysgu mewn ysgol gynradd 3-5 mlynedd yn ôl)

"If the children you teach do not produce results, your job can be on the line. . . . We now have a situation where some very good and experienced teachers have chosen to leave the profession rather than carry on coping with the constant pressure and stress and that I think is something that we need to put right." (Rhanddeiliad)

- 6.72 Cafwyd achosion lle cyfeiriodd cyfranogwyr at bwysigrwydd data wrth lywio'r addysgu ac yn ôl un athro oedd newydd gymhwyso 'it's definitely made me a better practitioner'. Eto i gyd, gallai barhau i deimlo'n ordrafferthus i'w casglu.

"It's not a negative because it does inform our teaching and I do think we are successful because teachers use our data to inform their teaching, it's a worthwhile task. . . . It's time consuming, definitely, but if you do anything properly it's time consuming isn't it?" (Athro ysgol uwchradd)

- 6.73 Cafwyd ambell achos lle teimlai cyfranogwyr fod y llwyth gwaith yn un y gellid ymdopi ag ef, er enghraifft: o gymharu â sectorau eraill; wedi ei ddisgwyl wrth ddewis dilyn gyrfa addysgu gyntaf; am fod unigolyn wedi dewis peidio symud ymlaen i rôl lefel uwch; ac am fod y swydd yn cael ei rhannu a oedd yn ei gwneud hi'n haws ymdopi â'r llwyth gwaith.

- 6.74 Weithiau defnyddiwyd **marcio** llyfrau disgyblion fel enghraifft o gyfrannu at ei gwneud hi'n anodd i athrawon ysgol gynradd ac ysgol uwchradd ymdopi â'r llwyth gwaith. Rhoddodd un cyn-athro ysgol uwchradd enghraifft o wythnos nodweddiadol. Roedd yn cynnwys tua 30 o ddisgyblion yn y dosbarth, gan dreulio 10 munud yn marcio pob llyfr ac yn ailadrodd y broses mewn wyth dosbarth gwahanol. Dros y penwythnos y gwnaed y gwaith marcio. Disgrifiodd athrawes arall a oedd yn ystyried gadael (Mathemateg, uwchradd) fod yn rhaid iddi roi adborth unigol i bob

plentyn bob tair wythnos. Roedd hyn yn cyfateb i ryw 150 o blant a oedd yn amhosibl ei wneud yn iawn yn yr amser oedd ar gael.

- 6.75 Weithiau cyfeiriodd athrawon mwy profiadol at yr angen i gadw i fyny â'r hyn y credwyd ei fod yn **newid rheolaidd** a allai gyfrannu at deimlo gorbryder am y llwyth gwaith. Rhoddwyd enghreifftiau weithiau a oedd yn cynnwys mentrau iechyd a diogelwch, GDPR, newidiadau i fanylebau pwnc gan y bwrdd arholi anhrefnus – nodwyd eu bod yn cael eu cyflwyno'n hwyr weithiau. Nodwyd y bu sawl menter gostus dros y blynyddoedd; ac nad oeddent o reidrwydd wedi bod yn effeithiol iawn.

“It’s everything: the Welsh Bac, the LNF [National Literacy and Numeracy Framework] – the goal has to move all the time and I think there isn’t sufficient time to embed those changes before the next changes happen.” (Athro ysgol uwchradd)

- 6.76 Yn yr un modd, ymhlith rhanddeiliaid, teimlwyd weithiau nad oedd newidiadau rheolaidd i fesur perfformiad mewn ysgolion yn cyfateb i gadw staff, yn enwedig ar lefelau uwch. Er y cydnabuwyd bod rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar graddau TGAU C neu uwch ar gyfer mesur perfformiad yn galonogol, credwyd hefyd, dros y degawd diwethaf neu rywbeth tebyg, y bu mwy o fonitro'r hyn roedd staff a disgyblion yn ei wneud, gan ychwanegu at y llwyth gwaith. Yn ôl un rhanddeiliad, ‘it’s literally been constant change at the moment. They just announced some more changes. So that just doesn’t help. It doesn’t help at all. So stop doing that, is what I’d say’.

- 6.77 Yn ystod y trafodaethau, gofynnwyd i **athrawon cyfrwng Cymraeg** a oeddent yn teimlo dan anfantais yn gyffredinol, o gymharu ag athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Y brif anfantais a godwyd oedd **diffyg adnoddau Cymraeg** o gymharu ag adnoddau Saesneg a ystyriwyd yn doreithiog. Weithiau nododd athrawon ysgol uwchradd fod gwerslyfrau Cymraeg ar gyfer y cwrs yn cael eu rhyddhau'n hwyrach na'r rhai Saesneg cyfatebol, a allai ei gwneud hi'n anodd paratoi a chynllunio. Roedd gorfod cyfieithu cynnwys yn ychwanegu at y llwyth gwaith.

“Mae gymaint o amser yn mynd yn naill ai cyfieithu neu yn creu adnoddau newydd . . . yr ysgolion o amgylch ni, fi'n gwybod fod nhw'n dysgu'r cwrs TGAU trwy'r Saesneg ac maen nhw yn gallu jest mynd ar y we, teipio rhywbeth i mewn ac mae fe 'da nhw. Mae just yn cymryd gymaint o amser i ni.” (Athro ysgol uwchradd)

- 6.78 Nododd rhai athrawon cyfrwng Cymraeg fod yr amser a gymerwyd i gyfieithu a pharatoi adnoddau Cymraeg yn ychwanegu at y llwyth gwaith, yn enwedig os oedd angen cynhyrchu deunydd dwyieithog, ond nad oedd yn broblem sylweddol am fod hyn yn rhywbeth roeddent bob amser wedi disgwyl ei wneud ac roeddent yn barod i'w wneud.
- 6.79 Weithiau, ystyriwyd bod y Gymraeg a ddefnyddiwyd yn yr adnoddau a oedd ar gael yn rhy dechnegol a ffurfiol i ddisgyblion ei deall. Felly byddai angen i'r athrawon dreulio amser yn symleiddio'r iaith, gan ychwanegu at eu llwyth gwaith ymhellach. Fodd bynnag, nododd rhai fod argaeledd ac ansawdd adnoddau Cymraeg wedi bod yn gwella. Cyfeiriodd athrawon at wahanol ffynonellau, gan gynnwys gwefannau fel Hwb¹³ a Twinkl¹⁴ yn ogystal â'r adran addysg yn yr Awdurdod Lleol, am ddarparu cynnwys defnyddiol.
- 6.80 Wrth droi at yr athrawon oedd wedi gadael y proffesiwn neu a oedd yn ystyried gwneud hynny o ddifrif (gyda'r mwyafrif yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg), nid oedd materion yn ymwneud â'r Gymraeg wedi cyfrannu at eu penderfyniad i adael. Fel enghraifft, nododd un cyfranogwr ei fod yn teimlo 'tristwch' am adael, gan wybod bod prinder athrawon Cymraeg yn gyffredinol.
- 6.81 Ymhellach, ymhlith y ffactorau llai amlwg y credwyd eu bod yn cyfrannu at lwyth gwaith a phwysau ar athrawon roedd:
- Bod yn atebol i wahanol sefydliadau, fel y Consortia a'r Awdurdod Lleol, y credwyd ei fod yn ychwanegu at y pwysau a'r llwyth gwaith, yn enwedig os oedd ysgol yn ei chael hi'n anodd;
 - Gorfod cyflawni dyletswyddau mwy bugeiliol fel 'getting in touch with parents and carers, and key workers about homework not being completed, truancy, . . . even as a Classroom Teacher. We're social workers, mental health workers';
 - Teimlo nad oes neb yn gwrando ar bryderon am newidiadau TGAU a'u heffaith er bod y mater wedi'i godi (ynghyd â sawl Pennaeth Adran arall) gyda Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, Estyn a CBAC. Gadawyd y cyfranogwr hwn, a oedd yn ystyried gadael y proffesiwn o ddifrif, yn meddwl

¹³ Gwefan a chasgliad o adnoddau ar-lein yw [Hwb](#) a ddarperir i bob ysgol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Cafodd ei greu mewn ymateb i adroddiad 'Canfod, gwneud, defnyddio, rhannu' i Ddysgu Digidol yng Nghymru.

¹⁴ Mae [Twinkl](#) yn darparu deunyddiau cynllunio ac asesu ac adnoddau addysgu wedi'u creu gan athrawon e.e. cynlluniau gwersi, cynlluniau gwaith, asesiadau, gweithgareddau rhyngweithiol a phecynnau adnoddau

‘they’re still refusing to listen, . . . [and] you’re just like, well, stuff you. Why should I remain loyal?’;

- Gorfod rheoli ymddygiad rhieni fwyfwy;
- Effaith toriadau cyllidebol – yn yr enghraifft hon nododd y cyfranogwr fod yn rhaid i'r Cynorthwydd Addysgu amhrisiadwy yn yr ysgol gynradd nawr adael cyn diwedd y dydd;
- Yr ymdrech wrth baratoi ar gyfer arholiadau, dewis y grwpiau ymyrraeth, gwirio llyfrau a nosweithiau rhieni;
- Effaith dosbarthiadau mwy o faint a hefyd geisio diwallu anghenion disgyblion yn y dosbarth ag Anghenion Addysgol Arbennig;
- Yr amser sydd ei angen i ysgrifennu adroddiadau disgyblion sy'n ‘checked and accurate’;
- Yr hyn a dybiwyd yn waith papur cwbl diangen, er enghraifft gorfod cwblhau ffurflen asesiad risg er mwyn mynd â'r plant i'r parc drws nesaf i chwarae.

6.82 Mae'r adroddiad nawr yn troi at ail thema amlwg o ran materion cymorth proffesiynol.

Cymorth proffesiynol anghyson

6.83 Fel y mae systemau, diwylliannau ac unigolion cefnogol wedi'u nodi'n ffactorau oedd yn helpu i gynnal a chryfhau ymrwymadau i addysgu, gallai eu habsenoldeb neu anghysondebau wrth eu gweithredu beri ansicrwydd ynghylch parhau yn y proffesiwn. Nodwyd bod cymorth yn broblem ar draws y gwahanol fathau o gyfranogwyr.

6.84 Cyfeiriodd rhai **myfyrwyr AGA** at broblemau'n cael cymorth gan fentoriaid yn yr ysgol. Cyfeiriwyd, er enghraifft, at fentor nad oedd yn ymddangos iddo gael unrhyw hyfforddiant ar y rôl fentora a oedd yn ychwanegu at y pwysau roedd y myfyriwr eisoes yn ei brofi. Gwnaeth staff AGA mewn un drafodaeth hefyd gydnabod y gallai fod yn anodd i fentoriaid ddod o hyd i ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

“Dwi’n meddwl bod o’n dibynu yn llwyr ar dy fentor di. Achos blwyddyn yma o’n i efo un oedd yn trio helpu. Flwyddyn ddiwethaf, ‘naeth hi ddim mynd ar yr

hyfforddiant i fod yn fentor, so doedd hi ddim hefo syniad be oedd hi'n 'neud.'
(Myfyriwr AGA)

6.85 Mewn achosion pellach, nodwyd bod cael eich paru â mentor ar leoliad cyntaf nad oedd i'w weld yn gefnogol o gwbl yn dorcalonnus iawn. I'r cyfranogwr hwn, 'it all depends way too much on your mentor. It can make or break your placement'. Roedd ymwybyddiaeth o gyfoedion oedd wedi rhoi'r gorau i hyfforddiant athrawon oherwydd y profiad hwn. Ynghyd â'r ffactor hwn, credai rhai myfyrwyr AGA fod mentoriaid a oedd yn ymddangos fel petaent wedi colli'r brwdfrydedd i addysgu ac wedi anghofio sut beth oedd bod yn athro dan hyfforddiant yn llai effeithiol yn eu rôl gefnogol.

6.86 Yn ehangach, cyfeiriodd rhai myfyrwyr AGA at **wahanol ddiwylliannau mewn ysgolion** a sut roedd hyn yn effeithio ar eu barn eu hunain am y proffesiwn. Gallai lleoliadau gynnwys ysgolion ag arweinyddiaeth gref iawn a 'whole school ethos - there was healthy, effective challenge and they would do anything for their Headteacher and that loyalty was just incredible'. Roedd y fath amgylchedd cadarnhaol mewn cyferbyniad â rhai lleoliadau eraill lle cafwyd athrawon oedd yn anhapus yn eu rolau, wedi diflasu, yn ymddangos dan bwysau a hyd yn oed yn cwestiynu dewis gyrfa'r myfyriwr. Gallai arwain at weld y myfyriwr yn 'absorbing negativity instead of all those wonderful things' a brofwyd yn ystod y lleoliad blaenorol.

"O be dwi 'di weld o rhai athrawon, mae lot o'r athrawon yn deud, 'O, 'swn i 'di licio 'neud swydd arall'. Ac maen nhw mor negyddol amdan y job. 'Di o ddim yn rili helpu ni pan 'dan ni'n trio . . . 'dan ni just yn dechrau. Ac maen nhw'n deu'tha ni, 'What are you doing?' Mae'n anodd weithiau pan 'dan ni'n clywed hynna." (Myfyriwr AGA)

6.87 Ymhellach, roedd cyfeiriadau achlysurol ymhlith myfyrwyr AGA a chyfranogwyr oedd wedi gadael neu a oedd yn bwriadu gadael y proffesiwn yn ymwneud â materion yn cynnwys **rheoli ymddygiad disgyblion** yn y dosbarth. I un myfyriwr, roedd delio ag un dosbarth penodol â phroblemau ymddwyn difrifol wedi bod yn ofnadwy. Roedd y cyfranogwr wedi bod yn ymwybodol o'r dosbarth heriol hwn cyn i'r lleoliad ddechrau ac roedd wedi mynd at y Ganolfan AGA am help, gan ddisgwyl iddo fod yn anodd. Fodd bynnag, ni chafwyd braidd dim help gan y Ganolfan AGA,

yn ôl y cyfranogwr. Ar ôl y profiad negyddol hwn, nid oedd y cyfranogwr yn meddwl y byddai'n mynd ymlaen i addysgu, ar ôl cwblhau'r TAR.

- 6.88 Cafwyd achosion lle na chredai cyfranogwyr ar y cam sefydlu ANG weithiau bod y ffordd y cawsant eu cefnogi yn gyson ar sail trafodaethau â chyfoedion. Er enghraifft, yn ystod amser digyswllt ychwanegol, bu'n ofynnol i rai cyfoedion wneud pethau i'r ysgol yn hytrach na thasgau oedd yn ymwneud â'u cam sefydlu ANG, y neilltuwyd y cyllid ar ei gyfer yn ôl pob tebyg. Teimlwyd nad oedd digon yn cael ei wneud i fonitro'r ffordd roedd ysgolion yn goruchwyllo'r amser hwn. Mewn achos arall, roedd cyfranogwr wedi teimlo'n unig iawn ar y cam sefydlu ac felly nid oedd yn teimlo digon o gefnogaeth i allu dibynnu ar y mentor am help pan oedd angen.

“I got on really well with my mentor. But then, on other times, I did feel very alone. I remember cutting things out in the corridor, one day, just crying because I was trying to find schemes of work and things, and everyone else was so busy.” (Athro ysgol gynradd)

- 6.89 Roedd y diffyg cymorth fel athro cyflenwi ANG ar y cam sefydlu wedi cyfrannu at wneud i gyn-athro benderfynu gadael y proffesiwn. Nid oedd wedi cael braidd dim cymorth gan yr ysgol ac nid oedd wedi cael unrhyw adborth ar ei berfformiad. Ar y cam sefydlu roedd wedi cael sawl mentor allanol ac, ar un adeg, bu angen iddo gynnwys yr Awdurdod Lleol yn y broses er mwyn sicrhau ei fod yn cael y cymorth angenrheidiol. Yn ehangach, nododd rhanddeiliaid ac athrawon fod y diffyg swyddi canfyddedig i athrawon newydd gymhwyso yn ffactor a allai wneud i unigolion adael y proffesiwn.
- 6.90 Cyfeiriodd rhai **athrawon**, gan gynnwys y rheini a oedd wedi gadael, at effaith y llwyth gwaith a'r pwysau ar eu **hiechyd meddwl a'u lles**. Yn yr arolwg ar-lein, dim ond ychydig dros bedwar o bob deg (41 y cant) a nododd straen fel rheswm dros adael y proffesiwn. Gwnaeth y gorbryder a'r straen roedd rhai wedi'i brofi, ynghyd â'r diffyg cymorth canfyddedig, gyfrannu at eu penderfyniad i adael y proffesiwn. Nododd un cyn-athro, wrth sôn am uwch arweinwyr: '[they] don't have mental health training, they don't have behaviour support training when they do their NPQHs, . . . it's not embedded in their culture'. O bryd i'w gilydd, ni wyddai athrawon hŷn sut y byddent yn cyrraedd oedran ymddeol o ystyried effaith ganfyddedig y swydd ar ieuchyd a lles. Hefyd, roedd canfyddiadau ymhlith cyn-athrawon a'r rheini oedd yn ystyried gadael y proffesiwn o ddifrif y gallai fod yn

anodd cyfaddef wrth gydweithwyr nad oeddent yn ymdopi â'r llwyth gwaith na'r pwysau drwy ofyn am help.

"If you admit to mental illness in teaching, the culture of that is still very negative, it's seen as a sign of weakness. . . . My children said 'Mum, why do you cry all the time?' 'Mum why don't we see you?' . . . To hear those things is horrible." (Wedi gadael yr ysgol gynradd eleni)

"Students and staff are buckling as yet more changes get pushed through year on year by WAG and the workload just keeps building. People can't take it anymore. I should also have pointed out that I'm not workshy. I take pride in my performance and care about the students but at my own detriment because I burn out regularly." (Athro ysgol uwchradd sy'n ystyried gadael)

6.91 Gallai materion cymorth, yn seiliedig ar farn athrawon presennol a chyn-athrawon, ddeillio o **arweinyddiaeth wael**, gyda sefyllfaoedd fel y rhai a ddisgrifir uchod lle nad oedd unigolyn yn teimlo y gallai ofyn am help. Nododd yr arolwg ar-lein fod athrawon llai profiadol yn fwy tebygol o gyfeirio at ddiffyg cymorth gan arweinwyr ysgolion, fel y disgrifir yn ddiweddarach yn yr adran hon.

6.92 Ymhlith yr enghreifftiau pellach gan gyn-athrawon oedd yn ymwneud â materion arweinyddiaeth a effeithiodd ar eu penderfyniad i adael roedd:

- Diffyg cymorth a hyfforddiant gyda chyfrifoldebau newydd;
- Cyfnod o fwlio gan gydweithiwr ar lefel uwch a gafodd effaith andwyol ar iechyd yr unigolyn;
- Pennaeth nad oedd i'w weld yn poeni am heriau llwyth gwaith ac effaith hyn ar ymrwymadau teuluol yr unigolyn;
- Pennaeth a wnaeth herio barn broffesiynol unigolyn am lefelau cyrhaeddiad disgyblion;
- Gwrthdaro ag uwch arweinydd ynghylch yr hyn a ddisgwyliwyd o ran y cyfranogwr a'r cyfrifoldebau roedd disgwyl iddynt eu cyflawni, yn ogystal ag anghytuno sylfaenol ynghylch yr hyn oedd orau i'r disgyblion;
- Dim cydnabyddiaeth o'r straen roedd cyfranogwr yn ei brofi a dim cyfle i ddal i fyny'n rheolaidd â'r uwch arweinydd;

- Uwch arweinwyr eu hunain yn rhoi'r argraff eu bod dan lawer o bwysau a straen a oedd wedyn yn golygu bod eraill yn amharod i fynd atynt gyda'u pryderon eu hunain.

Camu ymlaen mewn gyrfa a datblygiad proffesiynol

- 6.93 Roedd materion llai amlwg yn ymwneud â chamu ymlaen mewn gyrfa a datblygiad proffesiynol. Roedd hefyd yn thema o'r adolygiad o lenyddiaeth (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adran hon). Mynegodd cyfranogwyr y farn nad oedd fawr ddim amser, anogaeth na galluogi weithiau i helpu athrawon yn y meysydd hyn. Roedd y cyfleoedd oedd ar gael ym maes addysgu wedi bod yn llai eglur i rai hefyd; ac weithiau credwyd bod hyn yn wir o hyd, gyda swyddi uwch arwain a swyddi Pennaeth y prif swyddi i anelu atynt.
- 6.94 Cafwyd ambell achos prin lle nododd cyfranogwyr ysgol gynradd fod cyfleoedd i gamu ymlaen yn ymddangos yn fwy prin bellach, er enghraifft eu bod wedi'u llesteirio gan ddiffyg rolau UDA: 'until you've got that experience you can't then go on to things like Deputy Heads and Headships'. Nododd y cyfranogwyr mewn un ysgol gynradd y gallai llwyth gwaith cynyddol olygu nad oedd datblygiad proffesiynol yn rhywbeth i feddlw amdano. Felly nodwyd y diffyg amser neu gymorth ariannol ymddangosiadol at ddiben gwaith ychwanegol a fyddai'n cyfrannu at gamu ymlaen mewn gyrfa a datblygiad proffesiynol.
- 6.95 Fel y disgrifiwyd yn gynharach, nid oedd rolau Pennaeth na Dirprwy Bennaeth yn rolau deniadol iawn i ddyheu amdanynt i rai cyfranogwyr: roedd y rolau'n canolbwyntio ar reoli yn hytrach nag addysgu ac roedd y pwysau yn ormod i'w wneud yn werth chweil.
- 6.96 Hefyd, weithiau, nododd rhanddeiliaid y gallai diffyg cyfleoedd clir i gamu ymlaen mewn gyrfa a sicrhau datblygiad proffesiynol effeithio ar gadw athrawon. Wedi cymhwyso fel athro, nid ystyriwyd ei bod o reidrwydd yn amlwg i athrawon newydd beth fyddai eu llwybr gyrfa ac y gallai ddibynnu ar y math o arweinyddiaeth yn yr ysgol o ran y cyfleoedd oedd ar gael.

Adolygiad o lenyddiaeth: ffocws ar ddatblygiad proffesiynol ymarferwyr

- 6.97 Roedd pwysigrwydd hwyluso mynediad i gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus yn amlwg yn yr ysgolion hynny a lwyddai i ostwng lefelau gadael, yn ôl y llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Roedd effeithiau negyddol peidio â gwneud hynny'n amlwg iawn yn y canfyddiadau, lle teimlai llawer o'r rheini oedd yn gadael y proffesiwn nad oeddent wedi achub ar y cyfleoedd hynny am na chawsant eu hannog i wneud hynny neu am nad oedd y strwythurau angenrheidiol ar waith (Dias-Lacy a Guirguis, 2017, Krasnoff, 2014).
- 6.98 Tanlinellodd y dystiolaeth bwysigrwydd rhoi cyfle i athrawon ar ddechrau eu gyrfa weithio gyda chydweithwyr mwy profiadol, cam a ystyriwyd yn llawer mwy buddiol na modelau cwrs traddodiadol am ei fod yn eu galluogi i fwynhau profiadau proffesiynol gweithredol, ymarferol, wedi'u harwain gan staff profiadol yn yr ysgol (Krasnoff, 2014). Roedd hyn yn helpu i oresgyn yr hyn y gwnaeth Hobson ac Ashby (2012) ei ddisgrifio'n y problemau a godai pan fyddai athrawon yn gweld 'their professional development as impeded by social and/or physical isolation, which prevented them from accessing 'instruction-related' or 'psychological' support (Hobson ac Ashby, 2012).
- 6.99 Roedd angen i'r gwaith ganolbwyntio ar alluogi pob aelod o staff, yn enwedig y rhai ar ddechrau eu gyrfaedd, i ddatblygu ei addysgeg mewn ffordd a oedd yn 'explicitly related to pupil learning and had identifiable applications on their teaching' (Hobson ac Ashby, 2012). Golygai hyn ganolbwyntio ar ddysgu a thasgau ymarferol fel:
- Cynllunio gwersi;
 - Meithrin dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i alluogi dysgwyr i lwyddo;
 - Datrys problemau yn yr ystafell ddosbarth.
- 6.100 Ar yr un pryd, roedd angen i athrawon gael cyfleoedd i drafod heriau eraill a gweithio drwyddynt fel:
- Sut i ymdopi â phroblemau ymddygiadol (yn gysylltiedig â'r dystiolaeth nad oes gan athrawon ar ddechrau eu gyrfa y strategaethau/dulliau o ymdopi sydd wedi'u datblygu gan gydweithwyr mwy profiadol);
 - Sut i ddatblygu strategaethau effeithiol er mwyn diwallu anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr.

(Beltman, 2011, Dias-Lacy a Guirguis, 2017, Krasnoff, 2014, Hobson ac Ashby, 2012).

- 6.101 Dylai athrawon hefyd gael eu cefnogi i wneud gwaith sy'n gysylltiedig ag asesu (yn enwedig gofynion profion lle mae llawer yn y fantol) ac ymdopi â thasgau sy'n ymwneud â strwythurau gweinyddol, rheoli ac atebolrwydd ysgolion (Ingersoll, 2011, Krasnoff, 2014).
- 6.102 Roedd hyn yn helpu i ddatblygu'r hyn a gafodd ei ddiffinio gan Krasnoff (2014) yn waith a oedd wedi'i wreiddio yn realiti gofynion beunyddiol addysgu lle'r oedd 'job-embedded collaboration with a focus on student results' fostered a climate in which 'teachers feel less isolated and experience a greater sense of confidence and job satisfaction' (Krasnoff, 2014).
- 6.103 Yn ôl Krasnoff (2014) roedd angen i hyn fod yn rhan annatod o ddiwylliant ysgolion, oherwydd 'both novice and experienced teachers are attracted primarily to principals who are good instructional leaders, to like-minded colleagues who are committed to the same goals, to teaching conditions and readily available, relevant instructional materials and to learning support that enables them to be effective' (Krasnoff, 2014).
- 6.104 Er mwyn i'r fath ddulliau gweithredu fod yn effeithiol, roedd yn bwysig i ysgolion gydnabod effaith llwyth gwaith athrawon (addysgu yn yr ystafell ddosbarth, tasgau gweinyddol/biurocratiaeth, asesiadau, casglu tystiolaeth ac ati) a gallu lliniaru'r pwysau hyn, i'r graddau y bo'n bosibl.

Adolygiad o lenyddiaeth: strwythur datblygiad proffesiynol athrawon

- 6.105 Mae Waterman a He (2011) yn awgrymu mai datblygu cymunedau dysgu proffesiynol (yr hyn a ddiffinnir yn Nghymru fel 'grŵp o ymarferwyr sy'n cydweithio gan ddefnyddio proses ymchwilio strwythuredig i ganolbwyntio ar faes penodol o'u haddysgu er mwyn gwella deilliannau dysgwyr ac felly hefyd safonau ysgolion.' (Dysgu Cymru)) oedd y ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi ymarferwyr ledled ysgolion (Waterman a He, 2011). Roedd hyn yn golygu rhoi blaenoriaeth i'r agwedd hon ar waith athrawon, heb ystyried pwysau eraill ar gyllidebau ysgolion (Adriaenm 2012). Cafodd neges debyg ei chyfleu gan Hobson ac Ashby (2012) a bwysleisiodd pwysigrwydd galluogi athrawon i gael cymorth o'r fath 'as and when they need it'.

Adolygiad o lenyddiaeth: ehangu'r cymorth a roddir i athrawon ar ddechrau eu gyrfa

- 6.106 Nododd y llenyddiaeth enghreifftiau lle gwelwyd buddiannau cadarnhaol yn sgil rhoi cymorth proffesiynol i bob athro ar ddechrau ei yrfa, nid dim ond y rhai oedd ar raglenni mentora ffurfiol yn ystod eu blwyddyn gyntaf o addysgu (Krasnoff, 2014). Diben hyn oedd sicrhau eu bod yn cael cymorth pan fo 'the genuine reality of a fully qualified teacher takes effect and many are not prepared for the experience' (Hobson ac Ashby, 2012). Roedd hyn yn cynnig ffordd o 'empower beginner teachers to move gradually towards autonomy: to encourage them to cope with progressively less assistance while still proactively seeking help when it is needed' (Hobson ac Ashby, 2012).
- 6.107 Awgrymodd y llenyddiaeth fod athrawon ar ddechrau eu gyrfa wedi cael budd lle'r oedd y prosesau mentora a chymorth ar wahân i unrhyw reoli llinell neu asesu perfformiad. Golygai hyn nad y rheini oedd yn darparu'r cymorth oedd yr un unigolion a oedd yn gorfod penderfynu ar berfformiad athro yn nes ymlaen (Hobson ac Ashby, 2012). Roedd hyn yn meithrin deialog broffesiynol fwy agored lle'r oedd athrawon ar ddechrau eu gyrfa yn fwy hapus i drafod yr heriau a wynebwyd ganddynt ac i weithio gyda chydweithwyr mwy profiadol er mwyn nodi atebion posibl.

Effaith contractau cyfnod penodol

- 6.108 Nid oedd yn bosibl archwilio'n fanwl effaith contractau cyfnod penodol o ystyried y sampl dan sylw, a heb fod sampl benodol o benaethiaid neu'r rhai ar gam sefydlu ANG y gallai fod yn fwy tebygol yr effeithiwyd arnynt. Fodd bynnag, cafodd y pwnc ei godi o hyd o bryd i'w gilydd. Cyfeiriwyd at ddefnyddio contractau cyfnod penodol neu dros dro fel modd i bennu pa mor addas y byddai athro a 'to have a look at somebody' wrth hefyd ei gwneud hi'n haws i'r ysgol 'let the individual go' os na chredwyd bod yr athro yn addas ar gyfer y rôl neu'n rhywun 'sydd ddim yn siwtio'r ysgol'. Ni fyddai angen 'full blown, formal redundancy process'. Roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r rheini ar gam sefydlu ANG a oedd wedi penderfynu ailhyfforddi mewn sectorau eraill am na allent gael contract parhaol fel athro.

“I think in a way it’s useful, I think it allows managers to for want of a better word get rid of people who haven’t been up to the job. We’ve had a few people who they’ve taken on fixed term and it just hasn’t worked out.” (Athro ysgol gynradd)

- 6.109 Nodwyd mai ail ddefnydd o gontractau cyfnod penodol oedd lle'r oedd gan ysgol broblemau cyllidebol. Golygai anallu i'r ysgol flaengynllunio'r ariannol fod contractau cyfnod penodol a oedd yn cael eu hystyng yn rheolaidd yn cael eu defnyddio rhag ofn bod angen gwneud rhagor o doriadau i gyllideb yr ysgol. Rhoddwyd enghraifft ysgol gynradd wledig fach lle nodwyd bod cyllidebau'n amrywio bob blwyddyn i'r graddau na allai'r ysgol ymrwymo i gontractau parhaol: 'Mae'n anodd iawn blaengynllunio. Mae'n amhosib, deud y gwir'.

“We do [use fixed term contracts] at the moment, but that’s because we are in financial difficulty. We wouldn’t be doing that . . . but because we’ve been in financial difficulty now for [x] years, we’ve gone with fixed term contracts that generally get extended and extended. We can’t make any long-term plans with our finances.” (Ysgol uwchradd)

- 6.110 Gan edrych ymhellach ar y canlyniadau meintiol yn ôl math o gontract, mae'r tabl drosodd yn dangos bod ymatebwyr oedd wedi cymhwyso yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn llawer mwy tebygol o fod ar gontractau cyfnod penodol a bod yn gweithio fel athrawon cyflenwi (ac yn llawer llai tebygol o fod ar gontractau parhaol) nag oedd yn wir yn gyffredinol. (Rhaid bod yn ofalus gyda'r canlyniadau hyn oherwydd y sylfeini bach dan sylw.)

Tabl 6.1: Math o gontract addysgu ar gyfer ymatebwyr a wnaeth gymhwyso yn y ddwy flynedd ddiwethaf

Math o gontract	Wedi cymhwyso yn y ddwy flynedd ddiwethaf* (112)	% Cyfanswm y sampl (1,945)
Contract parhaol	40	86
Contract cyfnod penodol	39	8
Athro cyflenwi	21	7

Ffynhonnell: Arolwg meintiol ar-lein ar gyfer yr astudiaeth hon. *Noder: sylfaen fach.

- 6.111 Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw gysylltiad rhwng yr adeg roedd athrawon yn cymhwyso ac agweddau a chymhellion i addysgu. Er enghraifft, roedd gwahaniaeth bach yng nghyfran y rheini oedd wedi cymhwyso yn ddiweddar (yn y ddwy flynedd ddiwethaf) a nododd 'Diogelwch swydd' fel un o'u tri phrif reswm dros barhau i addysgu – 25 y cant o gymharu â 27 y cant yn gyffredinol. Hefyd, roedd athrawon oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar ychydig yn fwy tebygol o ddweud mai 'Atyniad swydd parhaol' oedd un o'u tri phrif reswm dros ddechrau addysgu fel gyrfa (28 y cant o'r rheini a wnaeth gymhwyso yn y ddwy flynedd ddiwethaf o gymharu â 25 y cant yn gyffredinol).
- 6.112 Mae contractau cyfnod penodol a rolau athrawon cyflenwi yn dod yn fwy amlwg wrth archwilio'r math o gontract oedd gan y rheini a oedd wedi gadael y maes addysgu ddiwethaf. Roedd y rhai oedd wedi gadael yn llai tebygol o fod wedi bod ar gontractau parhaol na'r sampl gyfan yn gyffredinol.

Tabl 6.2: Math o gontract addysgu ar gyfer ymatebwyr sydd wedi gadael y maes addysgu

Math o gontract	Pawb oedd wedi gadael (188)	Cyfanswm y sampl (1,945)	%
Contract parhaol	66		85
Contract cyfnod penodol	17		8
Athro cyflenwi	17		7

Ffynhonnell: Arolwg meintiol ar-lein ar gyfer yr astudiaeth hon

Ceisio cymorth wrth ystyried gadael y proffesiwn

- 6.113 O ran ceisio cymorth, cafwyd cymysgedd barn, profiadau ac ymddygiadau ymhlith cyfranogwyr yr ymchwil ansoddol a oedd wedi gadael neu a oedd yn ystyried gadael y proffesiwn o ddifrif.
- 6.114 Ni thueddwyd i weld patrwm clir o ran at bwy i fynd am help. Nid oedd rhai yn ymwybodol o'r opsiynau cymorth oedd ar gael ac nid oedd wedi croesi eu meddwl i ystyried mynd at yr adran iechyd galwedigaethol neu'r adran adnoddau dynol yn yr Awdurdod Lleol. Yn lle hynny, roedd rhai yn dibynnu ar sgysiau â theulu neu gydweithwyr. Hefyd gwnaed y pwynt na fyddai rhywun efallai yn meddwl yn glir ac yn ceisio cael help os oeddent yn ei chael hi'n anodd ymdopi â gwaith.

“I think when you’re in that situation you can’t see a way out and you don’t always think very clearly either.” (Wedi rhoi’r gorau i addysgu mewn ysgol gynradd 1-2 flynedd yn ôl)

- 6.115 O ran **cymorth yn yr ysgol**, roedd achosion lle aed at gydweithwyr ar lefel uwch, er enghraifft mewn perthynas â rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a llwyth gwaith. Mewn ambell achos, tybiwyd bod y cymorth a gafwyd wedi’i fwriadu’n dda ond nad oedd yn ddigonol. Ymhlith yr enghreifftiau roedd: cydweithiwr yn helpu allan am ychydig iawn o amser bob wythnos; gadael i’r athro fynd adref am y diwrnod; a Phennaeth yn arsylwi ar ddosbarth athro oedd wedi cymhwyso’n ddiweddar ac yn hysbysu’r cyfranogwr iddo wneud gwaith da ond heb sylweddoli bod yr athro yn dal i’w chael hi’n anodd.

“It was good that [the Headteacher] gave her time to come and see how I was doing, but the feedback was just, ‘What you’re doing is good’. But my response was, ‘But I don’t feel good’. You know, ‘I’m struggling with it’. So, not much was done there.” (Rhoi’r gorau i addysgu yn yr ysgol uwchradd eleni)

- 6.116 Dywedodd rhai cyfranogwyr ei bod wedi ymddangos yn anodd i ofyn am help yn yr ysgol. Nid oeddent yn barod i gyfaddef eu bod yn cael problemau am eu bod ofn cael eu labelu’n wan a hefyd nid oedd i’w weld yn iawn cwyno am ei bod yn ymddangos bod athrawon eraill, gan gynnwys uwch arweinwyr, o dan lawer o bwysau eu hunain. Ystyriwyd canlyniadau bod yn absennol oherwydd salwch ar brydiau, gyda chyfranogwyr am osgoi rhoi rhagor o bwysau ar gydweithwyr.

“I just held my hands up and said ‘I’m going’ and I didn’t pursue it because even my managers were breaking their own workload agreements on their own time, never mind mine.” (Wedi rhoi’r gorau i addysgu mewn ysgol gynradd eleni)

- 6.117 O ran **opsiynau cymorth allanol**, aed at undeb mewn ambell achos. Mewn un achos roedd wedi cynghori’r cyfranogwr i ‘step back from school for a while and be off sick’, gyda’r cyfranogwr yn gadael yn y pen draw oherwydd straen. Mewn achos arall, roedd yr undeb wedi helpu drwy gysylltu â’r Awdurdod Lleol i drefnu rhoi cymorth i athro cyflenwi gyda’r gwerthusiad ar gam sefydlu ANG. Roedd y Bartneriaeth Cymorth Addysg wedi rhoi cymorth amhrisiadwy i un cyfranogwr¹⁵.

¹⁵ [Elusen yn y DU](#) sy’n darparu gwasanaethau iechyd meddwl a lles i staff a sefydliadau addysg.

- 6.118 Hefyd, roedd ambell enghraifft fan hyn a fan draw o ddefnyddio gwasanaethau cwnsela a chymorth gan yr adran adnoddau dynol o fewn yr Awdurdod Lleol ond ni thybiwyd bod y rhain yn ddefnyddiol iawn. Er enghraifft: dod yn ymwybodol o'r opsiwn pan deimlwyd ei bod hi'n rhy hwyr; a sefyllfa lle teimlwyd bod adran adnoddau dynol yr Awdurdod Lleol yn benderfynol o gladdu'r mater.
- 6.119 At hynny, mynegodd cyfranogwyr a oedd wedi gadael neu a oedd yn ystyried gadael y proffesiwn amharodrwydd i gynnwys sefydliadau allanol yn eu problemau, er enghraifft ni ddymunwyd codi gwrychyn tîm arwain yr ysgol, colli eu swydd efallai neu ymddangos yn anffyddlon i gydweithwyr.
- “I didn't really want to go down a route which felt like it was going behind anyone's backs. Because they were looking out for me in terms of asking if I was okay and things, so I didn't go there.” (Rhoi'r gorau i addysgu yn yr ysgol uwchradd eleni)


Arolwg ar-lein: rhesymau dros adael y proffesiwn

- 6.120 Yn yr arolwg ar-lein gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi gadael y proffesiwn am y rhesymau posibl dros adael addysgu oedd yn berthnasol iddynt. Mae'r prif ganfyddiadau cyffredinol yn adlewyrchu'r canfyddiadau ansoddol.
- 6.121 'Llwyth gwaith addysgu trwm / cynyddol' a 'straen' oedd y prif resymau dros adael: tua un o bob pum person oedd wedi gadael (20 y cant a 18 y cant yn y drefn honno)¹⁶. Nododd tua un o bob deg 'Diffyg cefnogaeth gan arweinwyr ysgol' (13 y cant) a 'Rhesymau personol' (10 y cant), tra'r oedd yr achosion o grybwyll pob rheswm arall am y tro cyntaf yn is.
- 6.122 Wrth edrych ar ganlyniadau ymadawyr ar gyfer athrawon oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar, nododd yr arolwg fod y rheini oedd wedi cymhwyso yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn fwy tebygol o grybwyll 'Diffyg cefnogaeth gan arweinwyr ysgol' (eu rheswm mwyaf cyffredin namyn dau, ar 34 y cant). Eu dau reswm mwyaf cyffredin oedd 'Llwyth gwaith addysgu trwm / cynyddol' a 'straen'.
- 6.123 Mae llwyth gwaith hefyd yn dominyddu wrth edrych ar dri rheswm pwysicaf cyfranogwyr dros adael y proffesiwn, gyda bron chwech o bob deg (58 y cant) yn

¹⁶ [Nododd Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol GCA \(Ebrill 2017\)](#) fod Llwyth gwaith yn cael ei rannu fel yr agwedd lleiaf boddhaol ar rolau cofrestrwyr. Roedd y faich weinyddol hefyd yn ffactor amlwg i athrawon.

dweud ei fod yn ffactor. Nododd ychydig dros bedwar o bob deg (41 y cant) straen a nododd tua thri o bob deg ddiwygiadau addysg newydd Llywodraeth Cymru (3 y cant) a baich dyletswyddau gweinyddol (28 y cant). Roedd 'Tâl ac amodau' yn llawer is i lawr y rhestr a chafodd ei grybwyll gan lai nag un o bob deg (8 y cant) fel un o'u tri phrif reswm dros adael y proffesiwn addysgu. Fodd bynnag, roedd y sawl a oedd wedi gadael a oedd wedi cymhwyso yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn fwy tebygol o nodi 'Tâl ac amodau' (eu pedwerydd rheswm mwyaf cyffredin ar 31 y cant).

Ffigur 3: Rhesymau dros adael addysgu - lle cafwyd dewis (Canran a nododd pob ymateb)



Sylfaen: Y rheini sydd wedi gadael addysgu, heb gynnwys ymddiswyddo, ymddeol a chontractau cyfnod penodol sy'n dod i ben (138)

Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer gwella cyfraddau cadw athrawon

- 6.124 Roedd dau awgrym cyffredin ymhlith cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol ar gyfer gwella cyfraddau cadw athrawon â **llwyth gwaith** ac, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr AGA a'r rhai oedd ar gam sefydlu ANG, **gymorth proffesiynol**. Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu'r prif bynciau a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwil ar faterion cadw athrawon.

- 6.125 Trafodir pob thema isod, gyda'r awgrymiadau wedi'u grwpio yn ôl taith gyrfa athro: Myfyrwyr AGA; Sefydlu ANG; ac athrawon cwbl gymwysedig.

Mynd i'r afael â materion llwyth gwaith

- 6.126 Roedd yr awgrymiadau'n canolbwyntio ar leihau llwyth gwaith a rhyddhau amser i athrawon reoli eu llwyth gwaith yn fwy effeithiol.
- 6.127 Ymhlith yr enghreifftiau o awgrymiadau a gafwyd gan **fyfyrwyr AGA** roedd:
- Lleihau nifer y targedau y caiff athro dan hyfforddiant i weithio arnynt; neu fentoriaid yn rhoi adborth thematig yn hytrach nag adborth ar wers unigol. Roedd arsylwi ar lai o wersi yn awgrym arall lle credwyd y byddai'n helpu gyda'r pwysau oedd yn gysylltiedig â gwaith paratoi;
 - Paratoi myfyrwyr AGA yn fwy effeithiol ar gyfer yr hyn sydd o'u blaenau o ran y cam sefydlu ANG a llwyth gwaith;
 - Darparu mwy o dempledi cynlluniau gwersi i athrawon dan hyfforddiant eu haddasu;
 - Darparu mwy o gymorth er mwyn gallu rheoli amser yn effeithiol yn ystod y cwrs;
 - Lleihau maint a / neu nifer yr aseiniadau y mae angen i fyfyrwyr AGA eu cwblhau, gyda mwy o ffocws ar amser yn yr ystafell ddosbarth;
 - Rhannu diwrnodau hyfforddi ysgol allanol rhwng y ddau leoliad yn hytrach na dim ond yn ystod yr ail leoliad fel nad amherir ar yr ail leoliad cymaint.
- 6.128 Roedd yr awgrymiadau o ran gwella materion llwyth gwaith ar gam **sefydlu ANG** yn cynnwys:
- Parhau i gefnogi athrawon sefydlu ANG ar ôl cyflawni SAC, gan roi arweiniad ar sut i reoli eu llwyth gwaith a blaenoriaethu tasgau;
 - Edrych ar ffyrdd o leihau'r angen i dicio blychau ar ôl cwblhau'r ffeil ANG ar y cam sefydlu;
 - Darparu mwy o gyllid er mwyn i'r rheini ar gam sefydlu ANG gael amser digyswllt ychwanegol fel eu bod yn cael mwy o amser i fyfrio, cyrraedd eu safonau gofynnol, cynllunio a rheoli eu llwyth gwaith;

- Adolygu'r broses o gyflwyno tystiolaeth ar-lein a godwyd fel mater ar adegau. Holwyd pam bod angen i'r holl dystiolaeth gael ei chynnwys mewn un ffeil yn hytrach na'r ANG yn dangos enghraifft o adroddiad yn ôl y gofyn.

6.129 O safbwynt **athro oedd wedi cymhwyso'n** llawn, roedd yr awgrymiadau'n dueddol o ganolbwyntio ar leihau'r llwyth gwaith a'r pwysau oedd yn gysylltiedig â **chasglu data, atebolrwydd**, monitro ac arolygiadau: 'Ma na obsesiwn hefo ystadegau' fel y nododd un cyn-athro ysgol uwchradd.

"Get rid of the stuff, those hoops that you have to jump through that actually don't make a difference to the progress and the lives of children and therefore the teachers." (Athro ysgol uwchradd)

6.130 Weithiau credwyd y gallai gwelliannau i'r broses o asesu disgyblion helpu i gadw athrawon yn ogystal â helpu gyda llwyth gwaith. Nododd rhai eu bod am weld mwy o ymddiriedaeth yng ngallu a barn broffesiynol athrawon i wneud gwaith da: 'let teachers decide on all the paperwork that needs to be done' as one former teacher asserted. A shift away from so much data collection, some felt, would in turn help with motivation levels.

"Er enghraifft, mae'r disgwyliad 'ma bod ni'n craffu ar ddata drwy'r amser. A bod ni'n gorfod cyfiawnhau ein hunain gan ddefnyddio data; mae hwnna'n broblem. Mae'r holl ddogfennaeth yma: hunan arfarniad, cynllun gwella, rheoli perfformiad, arsylwi gwersi." (Yn ystyried rhoi'r gorau i addysgu mewn ysgol uwchradd)

6.131 O bryd i'w gilydd roedd ymwybyddiaeth o gynlluniau yng Nghymru i fynd i'r afael â'r broses asesu a groesawyd, ar yr amod bod digon o bwyslais yn cael ei roi ar lais y disgybl fel modd i asesu athrawon a gwerthuso atebolrwydd. Eglurodd rhai cyfranogwyr eu bod am i'r addysgu ymwneud â'r plant ac nid dim ond 'numbers, data and proving yourself all the time'. Credai rhai mai gwerth ychwanegol oedd y ffordd ymlaen o ran mesur perfformiad, er enghraifft ymhlith staff mewn ysgol gynradd oedd â phlant oedd yn cael problemau rhifedd a llythrennedd.

6.132 Yn gysylltiedig â materion llwyth gwaith, cafwyd awgrymiadau penodol i ystyried **caniatáu mwy o amser i athrawon** reoli eu gwaith yn fwy effeithiol a sicrhau eu bod yn gallu canolbwyntio ar addysgeg. Yn ogystal â gostwng lefelau biwrocratiaeth nad oeddent yn gwneud gwahaniaeth, roedd yr awgrymiadau a gafwyd yma yn cynnwys dosbarthiadau llai o faint, llai o oriau addysgu a mwy o

gymorth yn yr ystafell ddosbarth. Roedd cyflogi athrawon pwnc-benodol mewn ysgolion cynradd hefyd yn awgrym o ran rhyddhau amser athrawon presennol.

“In anticipation of next year [post NQT induction], I know that frees [time set aside for teachers for planning, preparation and assessment] will go down by about half. I couldn't imagine that. I couldn't imagine being able to do that. I think probably the amount of frees I've got right now is just about okay over the two weeks.” (Rhoi'r gorau i addysgu yn yr ysgol uwchradd eleni)

6.133 Ymhellach, roedd yr awgrymiadau llai cyffredin o ran lleihau llwyth gwaith athrawon yn cynnwys:

- Parhau i fuddsoddi mewn creu rheolwyr busnes ysgol er mwyn helpu uwch arweinwyr gyda'r faich weinyddol – byddai hyn yn ddechrau da yn ôl un aelod o staff AGA ond roedd pryder o hyd ynghylch a fyddai cyllideb ar gael i gyflwyno'r fenter yn ehangach;
- Cyflogi mwy o athrawon i helpu gyda llwyth gwaith a chyda dosbarthiadau mwy o faint yn ôl y sôn;
- Gwerthuso effeithiolrwydd taflen ganllaw ar reoli llwyth gwaith a ddosbarthwyd i ysgolion¹⁷;
- Helpu athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i gynhyrchu'r deunydd priodol ar gyfer gwersi;
- Darparu hyfforddiant ar sut i flaenoriaethu llwyth gwaith a gwneud defnydd mwy effeithiol o amser CPA;
- Lleihau'r llwyth gwaith yn ymwneud â sawl dosbarth y mae'n rhaid i athro ysgol uwchradd eu haddysgu. Cyfeiriwyd at yr anhawster a'r straen oedd ynghlwm wrth gadw rheolaeth o'r marcio.

Gwella cymorth

6.134 Awgrymwyd y byddai **gwella cysondeb y broses fentora**, yn enwedig y rhai mewn ysgolion, yn helpu i gadw **myfyrwyr AGA a'r rhai ar gam sefydlu ANG**. Hefyd awgrymwyd y gellid gwneud mwy o ddefnydd o fentoriaid oedd yn athrawon llai profiadol. Fe'u hystyriwyd gan rai i fod yn fwy tebygol o feddu ar ddealltwriaeth glir o

¹⁷ [Lleihau baich gwaith: canllaw i athrawon a phenaethiaid Medi 2017](#)

ofynion myfyrwyr AGA a cham sefydlu ANG a bod yn fwy brwd am y rôl na'r rhai oedd wedi bod yn addysgu yn hirach.

- 6.135 Awgrymwyd rhoi mwy o hyfforddiant i fentoriaid ynghyd â rhoi mwy o ystyriaeth i'r ffordd roeddent yn cael eu paru â myfyrwyr. Hefyd cynigiwyd mwy o gysondeb o ran y cymorth a'r arweiniad roedd tiwtoriaid Canolfannau AGA yn eu rhoi. Nododd cyfranogwr oedd yn mentora ANG 'as a mentor, I find it quite challenging because we've got the standard from [the ITE Centre]. We work with [two other Centres], we're working on the GTP programme, we've got the NQT standards. So this has been my first year doing this and I've struggled a bit to understand all the slightly different standards'¹⁸.

"I do think that the calibre and then the quality of what you get from a mentor should be consistent." (Myfyriwr AGA)

- 6.136 Roedd cysondeb o ran y ffordd roedd mentoriaid neu diwtoriaid yn darparu adborth yn faes arall i'w wella ar adegau, fel ei fod yn teimlo'n adeiladol ac yn gymhellol. Cyfeiriodd cyfranogwr at y gwaith caled roedd yn ei wneud, ond i hynny gael ei ddiystyru am waith papur oedd ar goll. Hefyd, roedd sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cydnabod am eu gwaith a'u bod yn teimlo yr ymddiriedwyd ynddynt lle'r oedd hynny'n haeddiannol yn ffyrdd effeithiol, yn ôl rhai, o wella cymhelliant yn ystod y cyfnod hwn. Syniad arall oedd paru lleoliad i fyfyrwyr fel eu bod yn gallu rhannu profiadau a chymorth.
- 6.137 O ran cefnogi myfyrwyr AGA a'u datblygiad, awgrymwyd **caniatáu mwy na blwyddyn ar gyfer y TAR i rai myfyrwyr**. Gallai'r gwelliant hwn, a nodwyd gan staff AGA ac athrawon cymwysedig, roi amser i fyfyrwyr feithrin dealltwriaeth ddyfnach o blant ac addysgu, yn ogystal â phrofi lleoliadau. Weithiau nododd staff AGA sut roedd myfyrwyr yn dysgu ar gyflymder gwahanol. Hefyd disgrifiwyd achosion lle gadawodd myfyrwyr gyrsiau – myfyrwyr a allai, gydag ychydig mwy o amser, fod wedi cwblhau'r TAR yn llwyddiannus a symud ymlaen i fod yn athrawon da.

¹⁸ Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn cael eu cyflwyno fesul cam. Defnyddiodd ANGau a ddechreuodd eu cyfnod sefydlu ym mis Medi 2017 y safonau newydd. Dechreuodd pob athro ac arweinydd ddefnyddio'r safonau ym mis Medi 2018. O fis Medi 2019, bydd myfyrwyr AGA newydd yn mabwysiadu'r safonau newydd.

“I think where students struggle, they need a bit of extra time and the programme is unforgiving, there isn't that time, there is no slack in the system.” (Staff AGA)

- 6.138 Gan ymhelaethu ar yr awgrym hwn, weithiau soniodd staff AGA a rhanddeiliaid fod angen mwy o le ac amser o fewn y system mewn ysgolion fel bod y rheini ar gam sefydlu ANG ac athrawon ar ddechrau eu gyrfa yn parhau i gael y math o gymorth a brofwyd yn ystod eu TAR, a fyddai yn ei dro yn helpu gyda datblygiad proffesiynol. Teimlai rhai aelodau o staff AGA ei bod yn bwysig i gam sefydlu ANG gael ei ystyried yn flwyddyn ddatblygu a'i fod yn cael ei gefnogi felly. Codwyd y syniad o gyflwyno rhaglen hyfforddi athrawon dwy flynedd gan gynnwys cam sefydlu ANG. Credwyd y byddai hyn yn galluogi myfyrwyr i barhau i gael budd o gymorth gan gymheiriaid yn ogystal â'i gwneud yn haws o bosibl i gael ymyriadau cynnar ac wedi'u targedu'n fwy pan fo angen help ar fyfyrwr. Yn ôl rhai aelodau o staff AGA, fodd bynnag, credwyd bod y cymorth ar gam sefydlu ANG yn llawer gwell gyda dull gweithredu mwy cydlynol.
- 6.139 Pwynt arall a wnaed gan staff AGA oedd y gallai Canolfannau AGA ymwneud yn fwy â datblygiad proffesiynol eu cyn-fyfyrwyr, er enghraifft drwy gyfleoedd hyfforddi neu fentora pwrpasol, gyda TAR yn cael ei hystyried yn gam cyntaf yn lle hynny. Teimlwyd y gallai'r ffocws hwn ar feithrin cydberthnasau tymor hwy helpu i gadw athrawon a chadw athrawon a hyfforddwyd yng Nghymru yng Nghymru.
- 6.140 O safbwynt hyfforddiant a phrofiad, awgrymwyd gan athrawon y byddai myfyrwyr AGA a'r rheini ar gam sefydlu ANG yn cael budd o fwy o gysylltiad â rheoli **ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth** a mwy o hyfforddiant ar hynny, fel eu bod wedi'u paratoi'n well pan fyddent mewn sefyllfa o'r fath. Roedd anawsterau gydag ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth wedi cyfrannu weithiau at benderfynu gadael y proffesiwn.
- 6.141 O ran gwella cymorth i **athrawon**, awgrymodd cyfranogwyr o bryd i'w gilydd fod angen mwy o gymorth o ran **iechyd meddwl a lles**, er enghraifft drwy roi mwy o hyfforddiant i uwch dimau arwain. Ymhlith y rheini oedd wedi gadael addysgu neu a oedd yn ystyried gadael y proffesiwn o ddifrif, credwyd bod lle i wella o ran sicrhau bod cymorth ar gael i athrawon a'i fod yn weladwy; a bod athrawon yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn am help pan fo angen.

“I think to some extent the education system is in the dark ages where human resources is concerned. And there’s a massive irony because I think there’s been huge progress made with how we respond to kids and recognise signs of need and nurture them”. (Rhoi'r gorau i addysgu yn yr ysgol uwchradd eleni)

- 6.142 Gan ychwanegu at y thema hon, cafwyd ambell awgrym i athrawon gael y cyfle i gymryd cyfnod sabothol er mwyn mynd ar drywydd prosiect arall am nifer o fisoedd er mwyn eu helpu i gynnal eu brwdfrydedd dros y rôl, meithrin sgiliau newydd a ‘recharge their batteries’.
- 6.143 Hefyd awgrymwyd y gallai swyddogaeth adnoddau dynol Awdurdodau Lleol gael ei datganoli i'r pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol. Credai'r cyfranogwr a gynigiodd y newid hwn y byddai cael pedwar aelod o staff adnoddau dynol oedd yn arbenigo mewn addysgu yn ‘result in the provision of a high quality service and support to teachers - it could include ‘a much more holistic view of their wellbeing’.
- 6.144 Yn ogystal â'r gwelliannau a awgrymwyd uchod ar lwyth gwaith a chymorth, nodir pwyntiau llai cyffredin isod.
- 6.145 **Lleihau graddau'r newid a gadael i ddiwygiadau ymsefydlu** – O bryd i'w gilydd galwodd cyfranogwyr am ddiwedd i'r hyn a ystyriwyd yn newid cyson, a sicrwydd y byddai sefydlogrwydd ar ôl i'r diwygiadau a'r newidiadau presennol gael eu cyflwyno. Hefyd weithiau credwyd bod angen mwy o gyfathrebu a chyfathrebu o ansawdd gwell o ran y weledigaeth ar gyfer diwygiadau er mwyn helpu i'w gwerthu i'r proffesiwn a rhoi mwy o eglurder.
- 6.146 Weithiau nododd rhanddeiliaid fod angen sicrhau bod cyfleoedd i **gamu ymlaen mewn gyrfa** ar gael a'u bod yn cael eu hyrwyddo ar bob lefel, gydag ymrwymiad cryf i fuddsoddi mewn dysgu gydol oes. Yn ei dro byddai hyn yn cyfrannu at wneud i staff deimlo gwerthfawrogiad a chymhelliant er mwyn sicrhau ‘once they enter the profession, they remain in it’. Ymhlith yr awgrymiadau roedd:
- Sicrhau bod cyfleoedd datblygu proffesiynol yn hygyrch, yn cael eu hyrwyddo ac efallai'n ofyniad fel gwledydd eraill, gydag ‘a shift towards professional learning communities within the sector’;
 - Sicrhau bod amrywiaeth o wahanol lwybrau ar gael: ‘if you want to focus on becoming a really excellent classroom teacher, and that’s the path you want to go down, this is what you can do. If you want to focus on developing skills for a


pastoral role [or] to become a head of year or head of house, you can do it if you want. Become a really great subject specialist, and become a second in department, or head of department'.

- 6.147 **Gwella statws addysgu yn gyffredinol** – Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd cyfranogwyr yn dueddol o deimlo y byddai canfyddiadau gwell o'r proffesiwn yn gyffredinol o fudd. Yn ogystal â'i wneud yn fwy deniadol gallai, yn ôl rhai, hefyd helpu gyda chyfraddau cadw, er enghraifft gan arwain at fwy o barch tuag at athrawon ac athrawon eu hunain yn teimlo mwy o werthfawrogiad a chymhelliant.
- 6.148 Byddai mwy o gydnabyddiaeth anariannol yn helpu i gadw athrawon ac yn gwella canfyddiadau o'r proffesiwn ymhellach. Gofynnodd cyfranogwyr i Lywodraeth Cymru gefnogi'r proffesiwn addysgu a'i gyflawniadau yn fwy, yn hytrach na beirniadu lefelau cynnydd yn ôl y sôn. Hefyd cynigiwyd mwy o gydnabyddiaeth o ran gwaith caled athrawon hefyd.
- 6.149 **Annog mwy o gydweithredu** – Teimlai rhai cyfranogwyr y byddai cydweithredu mwy effeithiol neu ffederasiwn rhwng ysgolion yn helpu i wella cyfraddau cadw, drwy alluogi athrawon i weithio mewn ysgolion eraill ar secondiad. Disgwyliai'r cyfranogwyr a wnaeth yr awgrym hwn iddo arwain at ddysgu arfer da oddi wrth eraill a rhannu gwybodaeth yn gyffredinol. Byddai hefyd yn helpu i gynnal lefelau cymhelliant a brwdfrydedd dros y swydd. Cydnabuwyd bod hyfforddiant yn digwydd rhwng ysgolion ond, yn ôl rhai athrawon, golygai'r digwyddiadau hyn fod yr ysgol oedd yn ei gynnal yn 'putting on a show' yn hytrach nag achub ar gyfle gwirioneddol i weld sut mae ysgol arall yn gweithio go iawn. Credwyd y gallai mwy o gydweithredu helpu i wneud ysgolion yn llai cystadleuol.
- Ymhlith yr awgrymiadau oedd yn ymwneud â **chyllid** roedd:
 - Cyflwyno 'golden hellos' neu 'golden handcuffs' er mwyn annog y rheini ar gam sefydlu ANG i barhau yn y proffesiwn ar ôl cymhwyso, neu ryw fath o faddau dyled yn seiliedig ar addysgu am hyn a hyn o flynyddoedd ar ôl cymhwyso, fel ad-dalu dyled myfyrwyr unigolyn dros gyfnod o 10 mlynedd ar yr amod ei fod yn aros yn y proffesiwn;
 - Talu mwy i athrawon;
 - Cynyddu'r cyflog cychwynnol a delir i athrawon cymwysedig.

Canlyniadau'r arolwg ar-lein: ffactorau a fyddai'n gwella'r profiad fel athro

- 6.150 Yn yr arolwg gofynnwyd i'r ymatebwyr beth fyddai'n gwella (neu wedi gwella) eu profiad fel athro. Cyflwynwyd rhestr o welliannau posibl a gofynnwyd pa dri oedd bwysicaf iddynt.
- 6.151 Dim ond ychydig dros un o bob pump yn gyffredinol (22 y cant) a ddewisodd 'Tâl ac amodau gwell' fel eu prif welliant. Cafodd 'Llwyth gwaith dysgu llai', 'Llai o straen' a 'Cymorth gyda rheoli llwyth gwaith' eu dewis fel y prif welliannau gan o leiaf un o bob deg ymatebydd.
- 6.152 Pan gaiff y tri phrif welliant eu cyfuno, roedd 'Llwyth gwaith dysgu llai' a 'Llai o straen' yn bwysig i'r gyfran fwyaf o ymatebwyr yn gyffredinol (sef 46 y cant a 44 y cant), gyda 'Tâl ac amodau gwell' wedi'i ddewis gan 41 y cant a 'Gostyngiad mewn agweddau gweinyddol ar eich rôl' gan 32 y cant. Roedd 'Cymorth gyda rheoli llwyth gwaith', 'Mwy o amser ar gyfer cynllunio' a 'Gwell adnoddau' hefyd yn amlwg yn y rhestr o welliannau a ddymunwyd, am iddynt gael eu dewis gan o leiaf un o bob pum ymatebydd. Gellid ystyried bod sawl un o'r ffactorau uchod yn ymwneud â llwyth gwaith yn gyffredinol.

Ffigur 4: Beth fyddai'n gwella / wedi gwella eich profiad fel athro? - lle rhoddwyd dewis (Y ganran a roddodd pob ymateb)



Sylfaen: Pawb (1,945)

- 6.153 Roedd athrawon cymwysedig iau a gymerodd ran (34 oed neu'n iau) yn fwy tebygol o fod am weld 'Llwyth gwaith dysgu llai', 'Tâl ac amodau gwell' a 'Mwy o amser ar gyfer cynllunio' nag athrawon hŷn. Yr ymatebwyr hynny yn y grŵp oedran 35-54 oedd fwyaf tebygol o nodi 'Llai o straen' a 'Cymorth gyda rheoli llwyth gwaith'. Roedd nodi 'Gostyngiad mewn agweddau gweinyddol ar eich rôl' a 'Cymorth gyda rheoli ymddygiad plant yn yr ystafell ddosbarth' uchaf ymhlith ymatebwyr 55 oed a throsodd.
- 6.154 Y Penaethiaid a'r Dirprwy Benaethiaid a ymatebodd oedd fwyaf tebygol o fod am weld gostyngiad mewn agweddau gweinyddol ar eu rôl (a ddewiswyd gan 47 y cant o'r grŵp hwn o gymharu â 32 y cant yn gyffredinol), cymorth gyda rheoli eu llwyth gwaith (37 y cant o gymharu â 25 y cant yn gyffredinol) a 'Llai o straen' (51 y cant o gymharu â 44 y cant yn gyffredinol). I'r gwrthwyneb, roedd Penaethiaid Adran / Penaethiaid Blwyddyn ac Athrawon Dosbarth yn fwy tebygol o alw am 'Llwyth gwaith dysgu llai', 'Tâl ac amodau gwell' a 'Mwy o amser ar gyfer cynllunio'.

7. Casgliadau

Ffactorau sy'n annog unigolion i ddilyn gyrfa addysgu yng Nghymru ac aros yn y proffesiwn

Prif negeseuon

- 7.1 Mae'n amlwg o'r ymchwil fod unigolion yn cael eu cymell i ddod yn athrawon a pharhau'n athrawon yn bennaf am eu bod yn teimlo mai galwedigaeth yw addysgu. Mae hyn yn gysylltiedig â'r cyfleoedd mae'n eu cynnig i gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc – gwneud gwahaniaeth. Cafodd y rhesymau hyn dros ddechrau addysgu eu nodi gan athrawon presennol, pobl ifanc oedd yn ystyried addysgu fel gyrfa a myfyrwyr AGA, gan gynnwys y rheini oedd wedi symud o lwybr gyrfa arall: roedd y boddhad mewn swydd oedd yn gysylltiedig ag addysgu o gymharu â rolau eraill wedi bod yn ffactor pwysig a wnaeth eu denu i'r proffesiwn hefyd. Nododd rhai cyfranogwyr mai dylanwad athro ysbrydoledig a wnaeth eu cymell i ymuno â'r proffesiwn.
- 7.2 Nododd yr ymchwil fod gwahaniaethau yng nghanfyddiadau disgyblion a myfyrwyr israddedig o addysgu yn y sector cynradd a'r sector uwchradd. Cyfeiriodd rhai at yr agwedd feithringar ar y rôl mewn ysgol gynradd, er enghraifft bod wedi mwynhau eu profiad eu hunain yn yr ysgol gynradd, yn ogystal â chanfyddiadau y byddai'n haws rheoli ymddygiad fwy na thebyg. Wrth ystyried pa mor ddeniadol oedd y sector uwchradd, roedd y ffactorau'n cynnwys bod yn frwd am bwnc, ysgogiad deallusol addysgu dysgwyr hŷn, a chamu ymlaen mewn gyrfa o bosibl.
- 7.3 Mae cymorth proffesiynol effeithiol a chyson yn ystod AGA, y cam sefydlu ANG, addysgu ar ddechrau gyrfa ac i athrawon cymwysedig mwy profiadol yn elfen hanfodol o gadw athrawon.

Cyfleoedd i wella gwybodaeth a sgiliau

- 7.4 Roedd rhai o'r farn bod addysgu yn gyfle i gyflawni a rhannu brwdfrydedd am bwnc (a danlinellwyd yn bennaf gan athrawon ysgol uwchradd a'r rheini oedd yn dilyn cyrsiau AGA uwchradd).

- 7.5 Roedd addysgu hefyd yn rhoi'r cyfle i siaradwyr Cymraeg hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith beunyddiol.

Cyfleoedd proffesiynoldeb creadigol

- 7.6 Roedd disgwyl elfen o hunanreolaeth dros y diwrnod gwaith yn thema yn yr adolygiad o lenyddiaeth ac weithiau daeth i'r amlwg fel ffactor deniadol i fyfyrwyr AGA a phobl ifanc oedd â diddordeb mewn addysgu.

Gyrfa strwythuredig

- 7.7 Roedd y cyfle i gael sicrwydd swydd a chamu ymlaen mewn gyrfa ym maes addysgu, ynghyd â ffactorau fel yr hawl i wyliau, hefyd yn cyfrannu at wneud addysgu yn yrfa ddeniadol, ac yna gadw athrawon. Fodd bynnag, roeddent yn llawer llai pwysig na gweithio gyda dysgwyr a'u galluogi i gyflawni eu potensial, fel yr adlewyrchwyd yn yr adolygiad o lenyddiaeth. Roedd athrawon cyflenwi a'r rheini ar gontractau cyfnod penodol yn llawer llai tebygol o nodi 'Diogelwch swydd' fel ffactor oedd yn eu cadw i addysgu. 'Addysgu a gweld dysgwyr yn symud yn eu blaenau' a 'Gwneud gwahaniaeth' oedd eu prif ffactorau.
- 7.8 Er bod angen hyrwyddo natur atyniadol arweinyddiaeth ysgolion, weithiau cydnabuwyd nad yw pob athro am fod yn Bennaeth neu'n Ddirprwy Bennaeth. Nid oedd y potensial i athrawon ddatblygu i fathau eraill o arweinyddiaeth ysgolion (e.e. arwain ar faes cwricwlaid, cefnogi dysgwyr ag anghenion penodol) yn ffactor allweddol a oedd yn cyfrannu at gymhelliant cyfranogwyr i addysgu ar hyn o bryd.

Ffactorau sy'n golygu nad yw unigolion yn ystyried dilyn gyrfa addysgu yng Nghymru ac sy'n cyfrannu at eu penderfyniad i adael y proffesiwn

Prif negeseuon

- 7.9 Roedd canfyddiadau fel biwrocratiaeth (er enghraifft iechyd a diogelwch), delio â rhieni, diffyg cyfleoedd i ymgysylltu â phwnc penodol, y lefel o ysgogiad deallusol y byddent yn ei chael mewn ysgol uwchradd o gymharu ag ysgol gynradd, a gofynion emosiynol/corfforol rôl athro ysgol gynradd yn golygu nad oedd rhai pobl ifanc yn

ystyried dod yn athrawon cynradd. Ymhlith y ffactorau a olygai nad oedd pobl ifanc yn awyddus i fod yn athrawon ysgol uwchradd roedd heriau rheoli pobl ifanc yn eu harddegau a'r canfyddiadau o straen, er enghraifft atebolrwydd am ganlyniadau arholiad a sut byddai'n teimlo petai disgyblion yn methu asesiad pwysig. Roedd yr enghreifftiau hyn ar ben y pryder ehangach ynghylch llwyth gwaith a oedd yn rhwystr i ddilyn gyrfa ym maes addysgu.

- 7.10 Roedd pryderon am y ddelwedd o addysgu. Credai rhai pobl ifanc y gallent ennill mwy o gyflog â bod o dan lai o straen, a bod â llai o lwyth gwaith, drwy ddilyn gyrfaedd eraill.
- 7.11 Credwyd bod y canfyddiadau negyddol o addysgu (e.e. llwyth gwaith) y daethpwyd ar eu traws drwy amrywiaeth o ffynonellau yn annog pobl i beidio â bod yn athrawon.

Mynd i'r afael â materion llwyth gwaith

- 7.12 Roedd llwyth gwaith athrawon a straen yn ffactorau pwysig a oedd yn cael effaith andwyol ar ddarpar athrawon, athrawon ar ddechrau eu gyrfa a rhai athrawon oedd yn ystyried gadael y proffesiwn. Roedd hyn i'w weld ym mhob agwedd ar yr ymchwil. Ymhlith yr enghreifftiau penodol o heriau roedd pwysau paratoi cynlluniau gwersi a gwerthuso gwersi (a nodwyd gan ANGau a myfyrwyr AGA). Hefyd cyfeiriodd ymarferwyr profiadol ar y pwysau didrugaredd a gweithgareddau oedd yn cymryd llawer gormod o amser. Pwysleisiwyd yr angen i leihau faint o ddata oedd yn cael eu casglu a sicrhau bod data o'r fath yn cael eu defnyddio yn y ffordd gorau posibl. Hefyd, awgrymwyd adolygu systemau ysgolion er mwyn lleihau nifer y targedau roedd angen iddynt ymateb iddynt; a lleihau biwrocratiaeth. Pwysleisiodd cyfranogwyr (gan gynnwys athrawon ar ddechrau eu gyrfa a chydweithwyr mwy profiadol) fod angen mwy o amser i fyfyrion ar ymarfer a datblygu'r strategaethau er mwyn eu galluogi i gydbwysu gofynion y rôl.

Yr angen am fwy o gymorth

- 7.13 Nododd yr ymchwil bwysigrwydd cefnogi athrawon a meithrin diwylliant lle maent yn teimlo y gallant gyfaddef ei bod yn ei chael hi'n anodd gan gynnwys materion iechyd meddwl a llesiant, a ategir gan sianeli cymorth amlwg.

- 7.14 Nododd rhai athrawon cymwysedig fod diffyg cymorth gan arweinwyr ysgolion yn rheswm dros adael y proffesiwn addysgu, gan danlinellu pwysigrwydd diwylliant cefnogol.
- 7.15 Dylid hefyd gofio y gall rhesymau unigolyn dros adael y proffesiwn addysgu fod yn gymhleth: mae'r ymchwil yn awgrymu y gall sawl ffactor gyfuno a pheri i athro symud ymlaen, gan gynnwys materion arwain ar lefel leol.

Materion allweddol eraill a danlinellwyd yn yr ymchwil

Cydnabyddiaeth a chymhellion ariannol

- 7.16 Yn gyffredinol, ni wnaeth athrawon cymwysedig na myfyrwyr AGA nodi mai cyflog oedd y prif reswm dros fod am addysgu. Er hynny, credwyd bod cyflog digonol yn bwysig ymhlith pobl ifanc ac athrawon presennol. At hynny, roedd y lefel o gydnabyddiaeth a'r sicrwydd swydd canfyddedig i'r rheini mewn swyddi sefydlog yn ffactorau a wnaeth gyfrannu at aros yn y proffesiwn. Fodd bynnag, nid oedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod cydnabyddiaeth yn adlewyrchu faint o waith roedd angen i athrawon ei wneud.
- 7.17 Roedd cymhellion ariannol i ymuno â'r proffesiwn addysgu yn fonws defnyddiol i rai, ond gallai hyn gael ei ystyried yn annheg. Er enghraifft, weithiau codwyd cwestiynau am gymhellion a oedd yn dibynnu ar y radd a enillwyd gan fyfyrwr, ar sail y ffaith nad oedd ennill gradd o reidrwydd yn arwydd o athro da.
- 7.18 Credwyd bod cymhellion yn Lloegr yn amlycach na'r rheini yng Nghymru. Hefyd, nid oedd bob amser yn glir i gyfranogwyr fod y cymhellion yn anelu at ddenu ymgeiswyr i addysgu yn Lloegr.
- 7.19 Roedd achosion lle'r oedd pobl ifanc yn cael eu denu i addysgu yn Lloegr oherwydd y gwahanol gymhelliant yng Nghymru. Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch pa mor gyffredin yw hyn a pha mor debygol yw hi fod y rhai sy'n symud i Loegr yn bwriadu gwneud hynny am gyfnod penodol (gan fwriadu dychwelyd i Gymru yn y tymor hwy).

Recriwtio i AGA

- 7.20 Pwysleisiodd darparwyr AGA y gwahaniaeth cadarnhaol y gall addysgu ei wneud a pha mor foddhaus y gallai fod. Ceisiwyd ymgeiswyr oedd yn dangos ymrwymiad i addysgu fel gyrfa, ac roedd ymgeiswyr a ddangosodd ymrwymiad blaenorol (e.e. drwy brofiad gwaith blaenorol, gweler isod) yn achub y blaen. Fodd bynnag, efallai na fyddai addasrwydd na gallu ymgeisydd yn dod i'r amlwg nes y lleoliad addysgu cyntaf.
- 7.21 Nododd yr ymchwil bwysigrwydd creu a chynnal cysylltiadau â darpar athrawon a thargedu pobl ifanc yn gynharach mewn ysgolion. Dylai hyn gynnwys meithrin cysylltiadau agosach â chynghorwyr gyrfaedd a chadw mewn cysylltiad â phobl a oedd wedi mynegi diddordeb mewn addysgu er mwyn cynnal eu diddordeb wrth iddynt wneud eu cyrsiau gradd.
- 7.22 Nododd yr adolygiad o lenyddiaeth a'r ymchwil y gall rhai pobl ymddiddori mewn dilyn gyrfa addysgu ar wahanol adegau o'u bywydau. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod cyfleoedd ar gael a bod pobl yn cael eu cefnogi i ymuno â'r proffesiwn addysgu ar y gwahanol adegau hyn.
- 7.23 Dangosodd yr ymchwil bwysigrwydd ymarferol sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfredol ar gael i ddarpar athrawon. Dylai hyn hefyd fod yn glir ynghylch materion fel profion cyfwerthedd ar gyfer cymwysterau TGAU.

Strategaethau marchnata

- 7.24 Tanlinellwyd yr angen am ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu'n well o bryd i'w gilydd gan Ganolfannau AGA a rhanddeiliaid. Mae cyfleoedd i feithrin gwell dealltwriaeth o'r grwpiau y dylid eu targedu a'r ffordd orau o fireinio'r prif negeseuon. Byddai targedu'r rheini sydd am newid gyrfa yn ehangu'r gronfa o ddarpar athrawon.
- 7.25 Hefyd, nododd pobl ifanc fod y cyfryngau cymdeithasol yn sianel allweddol i'w cyrraedd gyda gwybodaeth am yrfa addysgu. Felly mae'n bwysig sicrhau bod y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cynnwys yn llawn mewn strategaethau marchnata a hysbysebu yn y dyfodol.
- 7.26 Roedd pobl ifanc yn ymwybodol o ymgyrchoedd marchnata, gan gynnwys y rheini gan ddarparwyr AGA yn Lloegr, a oedd yn pwysleisio'r cymhellion yn Lloegr. Roedd

llai o ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd recriwtio yng Nghymru. O ganlyniad, nid oedd yn ymddangos bod neges glir, gyson nac amlwg yng Nghymru ynghylch buddiannau dewis addysgu.

- 7.27 Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at y rôl negyddol y gall y cyfryngau ei chwarae wrth ohebu ar addysgu, gan gynnwys sut y gallai materion a allai godi yn Lloegr ddod i'r fei yng Nghymru. Mae angen asesu'r graddau y ceir problem gyda'r ddelwedd o'r proffesiwn a'r parch a ddangosir tuag ato.

Paratoi ar gyfer AGA

- 7.28 Roedd rhai athrawon presennol a myfyrwyr AGA wedi ceisio cael cymaint o brofiad â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys gwirfoddoli mewn ysgol a gweithio fel Cynorthwyr Addysgu cyn dechrau cyrsiau AGA. Roedd eraill wedi ymddiddori ym maes addysgu ar ôl treulio amser yn gweithio gyda phobl ifanc, gan gynnwys drwy waith ieuenctid a chymunedol. Roedd hyn yn tanlinellu gwerth rhoi cyfleoedd i ddarpar athrawon weithio cymaint â phosibl gyda phlant a phobl ifanc cyn penderfynu hyfforddi fel athrawon.

Problemau gyrfaol cynnar

- 7.29 Mae pwysigrwydd ansawdd a chysondeb mentora ar gyfer pob ymarferydd ym mlynnyddoedd cyntaf eu gyrfaedd yn neges allweddol. Yn arbennig:
- Yr angen i fentoriaid feddu ar yr hyfforddiant gofynnol a chael amser i gyflawni'r rôl;
 - Roedd angen i fentoriaid feddu ar y nodweddion personol a oedd yn golygu ei bod hi'n hawdd mynd atynt a'u bod yn gefnogol;
 - Sicrhau bod mentoriaid yn darparu adborth o ansawdd uchel fel rhan o'u cymorth.
- 7.30 Awgrymwyd y gallai athrawon ar ddechrau eu gyrfa ddatblygu'r rôl o gefnogi'r rheini ar y cam sefydlu ANG ochr yn ochr â chydweithwyr mwy profiadol. Roedd angen i drefniadau o'r fath fodoli yng nghyd-destun diwylliant o gymorth i bob athro mewn ysgol.

- 7.31 Roedd darparu'r cymorth hwn yn bwysig er mwyn cadw athrawon yn ystod blynyddoedd cynnar eu gyrfaedd.
- 7.32 Roedd ambell aelod o staff AGA o'r farn y byddai lleiafrif o athrawon dan hyfforddiant wedi cael budd o TAR hirach.

Defnyddio contractau cyfnod penodol

- 7.33 Nid oedd modd archwilio effaith trosiant staff mewn ysgolion na chontractau cyfnod penodol yn fanwl am nad oedd sampl ddynodedig o benaethiaid.

Casgliadau cyffredinol

- 7.34 I grynhoi, mae'r ymchwili yn awgrymu bod angen mynd ati i gadw athrawon mewn ffordd gyfannol sy'n cynnwys cymryd camau i gefnogi athrawon a mynd i'r afael â straen a llwyth gwaith. Mae'r materion hyn hefyd yn effeithio ar recriwtio athrawon. Roedd materion yn ymwneud â chynghor ac arweiniad gyrfaedd effeithiol, gwella ymgyrchoedd cyfathrebu a thynnu sylw at negeseuon cadarnhaol am y rôl hefyd yn amlwg mewn trafodaethau am ba mor ddeniadol yw addysgu fel gyrfa.

8. Goblygiadau ymchwil

- 8.1 Isod, disgrifir goblygiadau polisi allweddol sy'n deillio o ddadansoddi'r ymchwil. Maent wedi cael eu grwpio fel goblygiadau i Lywodraeth Cymru, darparwyr AGA, Awdurdodau Lleol / Consortia Addysg Rhanbarthol ac ysgolion felly ceir peth gorgyffwrdd.

Themâu polisi allweddol

- 8.2 Mae addysgu yn broffesiwn a gydnabyddir ac a barchir sy'n hanfodol i ddyfodol Cymru. Mae hyn yn neges allweddol a dylai fod yn rhan annatod o bob strategaeth a chael ei chyfleu'n glir gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid.
- 8.3 Mae addysgu yn gyfle cyffrous i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Mae'r trefniadau cwricwlwm newydd yn golygu y caiff athrawon yng Nghymru gyfle i fod yn greadigol ac yn arloesol wrth lunio'r hyn a gaiff ei ddysgu a diwallu anghenion unigol dysgwyr. Rhydd gyfle i hyrwyddo addysgu fel cyfle cyffrous a llawn boddhad lle mae gweithwyr proffesiynol yn mwynhau cryn hunanreolaeth er mwyn cyflawni eu rolau proffesiynol.
- 8.4 O ran casglu data, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen i ysgolion, Consortia Rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru fod yn glir ynghylch yr hyn y mae angen ei gasglu (gyda'r nod o gasglu llai o ddata a gwneud y defnydd gorau o'r data sydd eisoes ar gael) a bod yn glir ynghylch pa ddata sydd eu hangen at ddibenion ffurfiannol ac atebolrwydd. Mae angen i ganfyddiadau'r ymchwil hon gael eu hystyried yn sgil trafodaethau presennol am drefniadau atebolrwydd ac arolygu yn y dyfodol.

Goblygiadau i Lywodraeth Cymru

Y defnydd o gymhellion

- 8.5 Mae angen i oblygiadau cymhellion yng Nghymru a Lloegr i ddenu darpar athrawon, yn enwedig lle ceir prinder athrawon, gael eu cydnabod a'u deall. Mae angen i hyn fod ar sail tystiolaeth ansoddol o dueddiadau a thystiolaeth feintiol o ddewisiadau unigolion ac effaith cymhellion ariannol ar eu penderfyniadau.

Llwybrau addysgu

- 8.6 Nododd yr ymchwil fuddiannau posibl creu llwybrau addysgu hyblyg er mwyn galluogi pobl i hyfforddi i ddechrau addysgu ar gamau gwahanol. Mae angen gwneud rhagor o waith i wneud y gorau o rôl y staff cymorth hynny (gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth dysgu a goruchwylwyr cyflenwi) a allai ddod yn athrawon. Gallai hyn fod ar ffurf:
- a) ymgyrch farchnata yn targedu staff cymorth sydd â'r potensial i fod yn athrawon gwyb er mwyn eu hannog i ystyried gwneud AGA er mwyn camu ymlaen yn eu gyrfaedd;
 - b) creu llwybrau pwrpasol i AGA ar gyfer y rheini sydd â mwy na phedair blynedd o brofiad o weithio fel staff cymorth addysgu sy'n cyrraedd y safonau mynediad penodol.
- 8.7 Mae'r rheini sy'n ystyried addysgu yn cael budd o fod wedi ennill profiad fel staff cymorth cyn dechrau cwrs sy'n arwain at SAC. Ni fyddai'n ddymunol (ac yn wir byddai'n wrthgynhyrchiol) gofyn am brofiad blaenorol fel staff cymorth cyn gallu dilyn cwrs sy'n arwain at SAC. Fodd bynnag, mae angen ystyried sut i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n ystyried AGA er mwyn ennill profiad ystafell ddosbarth fel staff cymorth a allai fod yn werthfawr.

Strategaethau recriwtio

- 8.8 Mae'r ymchwil yn awgrymu bod angen cymryd camau strategol i recriwtio athrawon, lle mae'r cyfrifoldeb am hyrwyddo addysgu fel gyrfa, a phennu targedau recriwtio AGA sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael ei arwain gan un sefydliad mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill (fel darparwyr AGA). Byddai'n fuddiol i'r sefydliad arweiniol hyrwyddo ymwybyddiaeth o addysgu fel proffesiwn drwy farchnata wedi'i dargedu a chynghor ac arweiniad gyrfaedd amserol, o ansawdd uchel, drwy weithio'n agos gyda darparwyr CEAG, darparwyr AGA, ysgolion, SAUau a phartneriaid eraill.
- 8.9 Nid yw'r dystiolaeth o effaith ac effeithiolrwydd strategaethau recriwtio presennol, yn arbennig yr ymgyrch Darganfod Addysgu bresennol, yn gadarn ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried sefydlu archwiliad clir o arferion presennol ac effaith strategaethau recriwtio presennol.

Goblygiadau i ddarparwyr AGA

- 8.10 Dylai darparwyr AGA sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfredol yn cael ei rhoi i ddarpar ymgeiswyr am ofynion mynediad a phrofion cyfwerthedd.
- 8.11 Yn sgil tystiolaeth o'r tu allan i Gymru ynghylch hyd cyfnodau sefydlu, gall fod angen gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer cyfnod sefydlu ffurfiol ANGau. Dylai anghenion cymorth ysgolion lle caiff ANGau eu cyflogi, a faint o fewnbwn a ddisgwylir gan ddarparwyr AGA, hefyd gael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ymsefydlu diwygiadau i ddarpariaeth AGA yng Nghymru.
- 8.12 Bydd darparwyr AGA ac Estyn yn parhau i fonitro ansawdd y broses o fentora myfyrwyr AGA. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r dystiolaeth hon i bennu p'un a oes angen gwneud mwy o waith datblygu a nodi arfer da i gefnogi'r sector.

Goblygiadau i Awdurdodau Lleol / Consortia Addysg Rhanbarthol

Cymorth i athrawon

- 8.13 Gall fod angen i sianeli cymorth presennol athrawon gael eu hyrwyddo'n fwy effeithiol. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn hygyrch a bod ymarferwyr yn ymwybodol o'r help y gallent ei gael, a'u bod yn cael eu hannog i gael help pan fo angen. Dylai hyn ddigwydd fel rhan o ddiwylliant sy'n pwysleisio ei bod hi'n dderbyniol gofyn am gymorth.

Goblygiadau i ysgolion

Materion o ran llwyth gwaith

- 8.14 Mae pryder ynghylch llwyth gwaith uwch arweinwyr ac arweinwyr canol sy'n effeithio ar gyfraddau cadw a recriwtio staff i'r rolau hyn. Awgrymir bod angen ei gwneud hi'n haws i unigolion gyfrannu fel arweinwyr ysgolion, o bosibl drwy drefniadau gwaith mwy hyblyg (fel gweithio'n rhan amser).

Cyfeiriadau

Adrianzen, Luzmila B, Elementary School Teachers' Reasons for Staying in Their Current Schools: A Comparison Study (2012).

Aragon, Stephanie, Teacher Shortages: What We Know (2016)

Beltman, Susan, Mansfield, Caroline, Price, Anne Thriving not just surviving : a review of research on teacher resilience (2011)

Berry, Barnett ac Eckert, Jon, Creating Teacher Incentives for School Excellence and Equity (2012)

Bland, Paul, Church, Edwin, Luo, Mingchu, Strategies for Attracting and Retaining Teachers (2014)

Cochran-Smith, Marilyn, Cannady, Matthew, McEachern, Kirstin Pesola, Piazza, Peter, Power, Christine, Ryan, Amy, Teachers' Education, Teaching Practice, and Retention: A Cross-Genre Review of Recent Research, Journal of Education, v191 n2 (2010)

Cruickshank, Vaughan, Why Men Choose to Become Primary Teachers, Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd ar y Cyd Cymdeithas Ymchwil Addysg Awstralia a Chymdeithas Ymchwil Addysgol Asia a'r Môr Tawel (AARE-APERA 2012) Cyfarfod Ffocws Cymdeithas Ymchwil Addysg y Byd (Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia (2012)

Dias-Lacy, Samantha L., Guirguis, Ruth V., Challenges for New Teachers and Ways of Coping with them, Journal of Education and Learning, v6 n3 (2017)

Feng, Li, a Sass, Tim R., The Impact of Incentives to Recruit and Retain Teachers in "Hard-to-Staff" Subjects Journal of Policy Analysis and Management, v37 n1 (2018)

Glazerman, Steven, Protik, Ali, Teh, Bing-ru, Bruch, Julie, Max, Jeffrey, Transfer Incentives for High-Performing Teachers: Final Results from a Multisite Randomized Experiment (2015)

Hobson, Andrew J. ac Ashby, Patricia, Reality aftershock and how to avert it: second-year teachers' experiences of support for their professional development, Cambridge Journal of Education, Cyf. 42 Rhifyn 2 (2012)

Ingersoll, Richard M., a Strong, Michael, The Impact of Induction and Mentoring Programs for Beginning Teachers: A Critical Review of the Research, Review of Educational Research, v81 n2 (2012)

Krasnoff, Basha What the Research Says about Class Size, Professional Development, and Recruitment, Induction, and Retention of Highly Qualified Teachers: A Compendium of the Evidence on Title II, Part A, Program-Funded Strategies (2014)

Schaefer, Lee, Long, Julie S., Clandinin, D. Jean Scheifer, Questioning the Research on Early Career Teacher Attrition and Retention, Alberta Journal of Educational Research, v58 n1 (2012)

Steele, Jennifer L, Murnane, Richard J., Willett, John B., Do Financial Incentives Draw Promising Teachers to Low-Performing Schools? Assessing the Impact of the California Governor's Teaching Fellowship. Policy Brief 10-3 (2012)

Waterman, Sheryn a He, Ye, Effects of Mentoring Programs on New Teacher Retention: A Literature Review (2011).

Atodiad A – Manylion sampl yr ymchwil sylfaenol

Sampl ansoddol

- i. Cynhaliwyd yr ymchwil gydag **athrawon a disgyblion ysgol** drwy ymweld ag ysgolion. Cafodd y sampl ei rhannu'n gyfartal rhwng y Consortia Addysg Rhanbarthol, gan ymweld ag wyth ysgol gynradd ac wyth ysgol uwchradd i gyd. Er bod llawer mwy o ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd, nid oedd y sampl ansoddol hon yn anelu at adlewyrchu'r cyfrannau. Y nod yn lle hynny oedd sicrhau bod Beaufort yn ymweld â nifer ddigonol o ysgolion fel bod modd i themâu oedd yn dod i'r amlwg gael eu nodi ar gyfer ysgolion uwchradd yn ogystal ag ysgolion cynradd.
- ii. Ym mhob ysgol gynradd, cynhaliwyd ymchwil gyda chymysgedd o athrawon. Ym mhob ysgol uwchradd, roedd yr ymchwil yn cynnwys disgyblion Safon Uwch a chymysgedd o athrawon. Mae'r tabl isod yn crynhoi cyfansoddiad cyffredinol y sampl ar gyfer ysgolion.

Tabl A1: Nifer yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr ymchwil ansoddol

Consortia Addysg Rhanbarthol	Ysgolion cynradd (athrawon)	Ysgolion uwchradd (athrawon a disgyblion Safon Uwch)
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De	2	2
Gwasanaeth Cyflawni Addysg Consortiwm De- ddwyrain Cymru	2	2
ERW	2	2
GwE	2	2
Cyfanswm	8	8

- iii. Wrth ddewis **ysgolion** ar gyfer yr ymchwil, lluniodd Beaufort restr fer o'r ysgolion posibl ym mhob Consortia Addysg Rhanbarthol. Ystyriodd hyn yr angen i gynnwys: cymysgedd o leoliadau trefol a mwy gwledig; yr iaith Gymraeg; disgyblion o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME); a chymysgedd o ardaloedd mwy a llai difreintiedig. Cafodd y maen prawf olaf hwn ei asesu gan ddefnyddio cyfuniad o

gyfran y disgyblion oedd yn cael prydau ysgol am ddim a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru¹⁹.

- iv. Yna gwnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau nad oedd y rhestr fer yn gorgyffwrdd ag ymchwil arall a oedd yn cael ei chynnal mewn ysgolion. Cysylltodd Beaufort â'r ysgolion ar y rhestr, gan egluro diben yr astudiaeth a chyfansoddiad y sampl a ddymunwyd. Yna trefnodd yr ysgolion a oedd am gymryd rhan gyfranogwyr ar gyfer ymweliad Beaufort, gan anelu, cymaint â phosibl, am gymysgedd o athrawon lefel uwch, y cyfnod o amser roedd athro wedi cymhwyso a'r pynciau a addysgwyd. Y nod gyda disgyblion oedd cael cymysgedd o bynciau yn cael eu hastudio a lefelau o ddiddordeb mewn addysgu fel gyrfa.
- v. Roedd yr ymweliadau ymchwil yn gofyn am gryn hyblygrwydd er mwyn gweddu i'r diwrnod ysgol a tharfu ar yr ysgol cyn lleied â phosibl. Roedd yr amser oedd ar gael gyda chyfranogwyr yn amrywio o 45 munud i 1.5 awr.
- vi. Cymerodd cyfanswm o 99 o athrawon ran o blith yr 16 o ysgolion a chymerodd 55 o ddisgyblion Safon Uwch ran o'r wyth ysgol uwchradd. Roedd naw o'r disgyblion o gefndiroedd BME. Roedd chwech ysgol a gymerodd ran wedi'u lleoli mewn cymunedau mwy difreintiedig.
- vii. Roedd chwe chyfranogwr ar gam sefydlu ANG ac roedd naw wedi cwblhau'r cam sefydlu flwyddyn yn flaenorol. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dau gyfranogwr oedd ar fin gadael neu a oedd wedi gadael y proffesiwn.
- viii. Hefyd ymwelodd Beaufort â **thair Canolfan AGA** Cymru (a oedd yn bodoli adeg yr ymchwil) gydag ymchwil yn cael ei chynnal ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Fel gydag ysgolion, cysylltodd Beaufort â'r Canolfannau a wnaeth wedyn drefnu grŵp o staff ac, ar wahân, fyfyrwyr ar gyfer yr ymchwil ar ddiwrnod ymweliad Beaufort. Ymhlith rolau staff AGA roedd cyfarwyddwyr rhaglen / cwrs, aelodau tîm TAR, cyfarwyddwr AGA a darlithydd. Roedd pump aelod o staff yn siarad Cymraeg. Roedd y sampl gyffredinol o fyfyrwyr yn cynnwys cymysgedd o unigolion oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon cynradd ac uwchradd. Roedd wyth myfyriwr yn astudio i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd un myfyriwr yn bwriadu addysgu Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg. Cymerodd cyfanswm o 14 o aelodau o staff a 24 o fyfyrwyr AGA ran.

¹⁹ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(2014\)](#)

- ix. Cydweithiodd Beaufort â thair prifysgol er mwyn sefydlu'r **tri grŵp ffocws gyda myfyrwyr israddedig** nad oeddent yn astudio i fod yn fyfyrwyr AGA. Cynhaliwyd y grwpiau ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, gyda 18 o gyfranogwyr i gyd. Roeddent yn cynnwys cymysgedd o'r rheini oedd yn ystyried neu a allai fod yn ystyried addysgu fel gyrfa, yn ogystal â'r rheini nad oeddent wedi ei ystyried yn opsiwn.
- x. Daethpwyd o hyd i'r **20 o athrawon oedd wedi gadael neu a oedd yn ystyried gadael y proffesiwn o ddifrif** mewn dwy ffordd. Y ffordd gyntaf oedd cynnal arolwg ar-lein ymhlith athrawon. Yn ogystal â chwmpasu themâu natur ddeniadol addysgu a chadw athrawon, roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn ailgysylltu i'r rhai oedd wedi gadael neu a oedd yn ystyried gadael y proffesiwn addysgu. Yna cysylltodd Beaufort â grŵp o gyfranogwyr a gytunodd i gael eu cysylltu eto am gyfweiliad manwl. Cawsant daleb am gytuno i gymryd rhan. Archwiliodd y sgwrs yn fanylach yr hyn a wnaeth arwain at eu penderfyniad i adael neu a oedd yn gwneud iddynt ystyried gadael y proffesiwn addysgu.
- xi. Yr ail ffordd oedd drwy athrawon oedd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil mewn ysgolion. Gadawodd ymchwilwyr Beaufort eu manylion cyswllt gyda'r ysgol a gwnaeth nifer o unigolion wedyn gysylltu â Beaufort er mwyn mynegi diddordeb mewn cymryd rhan. Roeddent naill ai'n athrawon a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil neu'n unigolion a gafodd wybod am yr ymchwil gan athrawon roedd Beaufort wedi siarad â nhw.
- xii. Roedd cyfanswm o 17 o'r 20 o gyfranogwyr wedi gadael y proffesiwn ac roedd tri yn ystyried gadael o ddifrif. Roedd 13 wedi gadael yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac roedd pedwar wedi gadael rhwng tair a phum mlynedd yn ôl. Roedd 13 wedi cymhwyso'n athrawon ysgol uwchradd ac roedd saith wedi cymhwyso'n athrawon ysgol gynradd. Roedd pump wedi cymhwyso'n athrawon yn y pum mlynedd ddiwethaf. Roedd pedwar wedi addysgu neu yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd un wedi addysgu mewn ysgol ddwyieithog.
- xiii. Roedd rhan olaf y sampl ansoddol yn cynnwys **24 o randdeiliaid**. Fe'u nodwyd mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a SCYA ac roeddent yn cynnwys rheoleiddiwr addysg annibynnol, uwch gynrychiolydd undeb, staff Awdurdod Lleol mewn rolau adnoddau dynol, aelodau Consortia Addysg Rhanbarthol gan gynnwys ymgynghorwyr her (sy'n herio ac yn cefnogi timau arwain ysgolion i wella perfformiad), llywodraethwyr ysgolion, sefydliadau staff addysgu / recriwtio a staff Llywodraeth Cymru.

Sampl yr arolwg ar-lein

- xiv. Mae'r tablau isod yn rhoi data proffil ar gyfer sampl yr arolwg ar-lein gyda data cymharol o gronfa ddata StatsCymru Llywodraeth Cymru a Chofrestr Ymarferwyr GCA (a fynegir ar ffurf canrannau).

Tabl A2: Proffil athrawon cymwysedig fesul cyfnod

%	StatsCymru (data 2017-18)	Sampl yr arolwg ar- lein
Cynradd	51	42
Uwchradd	43	51
Arall	6	6
Cyfanswm	100	100

Tabl A3: Proffil athrawon cymwysedig yn ôl oriau gwaith llawn amser / rhan amser

%	StatsCymru (data 2017-18)	Sampl yr arolwg ar- lein
Llawn amser	80	80
Rhan amser	20	17
Arall	dd/g	3
Cyfanswm	100	100

Tabl A4: Proffil athrawon cymwysedig fesul swydd

%	StatsCymru (data 2017-18)	Sampl yr arolwg ar- lein
Pennaeth / Pennaeth Dros		
Dro / Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol	14	14
Athro / Athrawes	86	58
Pennaeth Adran / Pennaeth Blwyddyn	dd/g	25
Arall	dd/g	3
Cyfanswm	100	100

Tabl A5: Proffil athrawon cymwysedig fesul rhyw

%	StatsCymru (data 2017-18)	Sampl yr arolwg ar- lein
Gwryw	25	30
Menyw	75	68
Yn well gennyf beidio â dweud	dd/g	2
Cyfanswm	100	100

Tabl A6: Proffil athrawon cymwysedig fesul oedran

%	Cofrestr GCA (Adroddiad Ymchwil yr Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol Ebrill 2017)	Sampl yr arolwg ar- lein
O dan 25	4	3
25-34	28	22
35-44	32	33
45-54	24	31
55-64	12	9
65+	1	1
Yn well gennyf beidio â dweud	-	1
Cyfanswm	100	100

Tabl A7: Proffil athrawon cymwysedig yn ôl blynyddoedd ers cymhwyso

%	Cofrestr CGA (Adroddiad Ymchwil yr Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol Ebrill 2017)	Sampl yr arolwg ar- lein
0-5 oed	18	14
6-10 oed	17	16
11-20 oed	35	37
21+ oed	30	33
Cyfanswm	100	100